WG43756

# Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy’n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021

## Nodiadau canllaw i’r amodau ar gyfer Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes

Fersiwn 1.2

## Cynnwys

Cyflwyniad .....5

Beth sydd i mewn ac allan o'r cwmpas: Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes .....5

Meini prawf sydd o fewn y cwmpas .....6

Meini prawf sydd y tu allan i'r cwmpas .....7

Trosolwg o'r Amodau a'r Canllawiau Esboniadol .....9

Rhan A – Amodau Cyffredinol (Atodlen 2 i'r Rheoliadau) .....9

1.0 Arddangos Trwydded .....9

2.0 Cofnodion .....10

3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid .....10

5.0 Amgylchedd Addas .....12

6.0 Deiet Addas .....16

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid .....18

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid .....20

9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau .....21

10.0 Argyfyngau .....24

Rhan B – Amodau Penodol: Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (Atodlen 3 i'r Rheoliadau) .....26

2.0 Cofnodion a Hysbysebion .....26

3.0 Darpar Werthiannau: Gofal anifeiliaid anwes a Chyngor ynghylch hynny .....27

4.0 Llety Addas .....29

5.0 Gwerthu Anifeiliaid .....30

6.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau .....31

Rhan C – Cŵn .....33

4.0 Staffio .....33

5.0 Amgylchedd Addas .....33

6.0 Deiet Addas ....36
7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ....37
8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ....38
9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau ....38
Rhan D – Cathod ....40
4.0 Staffio ....40
5.0 Amgylchedd Addas ....40
6.0 Deiet Addas ....43
7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ....43
8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ....44
9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau ....45
10.0 Argyfyngau ....45
Rhan E – Cwningod ....46
5.0 Amgylchedd Addas ....46
6.0 Deiet Addas ....48
10.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ....49
11.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ....49
12.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau ....50
Rhan F – Moch Cwta ....51
5.0 Amgylchedd Addas ....51
6.0 Deiet Addas ....52
7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ....53
8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ....54
9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau ....54
Rhan G – Ffuredau ....55
5.0 Amgylchedd Addas ....55

6.0 Deiet Addas ....................................................................................................56

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ...........................................................57

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid .......................................................57

9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau......................................58

Rhan H – Cnofilod Bach Domestig ..........................................................................59

5.0 Amgylchedd Addas..........................................................................................59

6.0 Deiet Addas ....................................................................................................62

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ...........................................................63

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid .......................................................63

9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau......................................63

Rhan I – Rhywogaethau Annomestig Eraill (Mamaliaid) ...........................................64

3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid ..........................64

4.0 Staffio ...........................................................................................................64

5.0 Amgylchedd Addas..........................................................................................64

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ...........................................................65

Rhan J – Adar ...........................................................................................................66

3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid ..........................66

5.0 Amgylchedd Addas..........................................................................................66

6.0 Deiet Addas....................................................................................................75

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ...........................................................75

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid .......................................................76

Rhan K – Ymlusgiaid ac Amffibiaid ..........................................................................78

3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid ..........................78

5.0 Amgylchedd Addas..........................................................................................78

6.0 Deiet Addas ....................................................................................................86

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ...........................................................86

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ........................................................87

9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau......................................87

Rhan L – Pysgod ..........................................................................................................88

3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a’r Mathau o Anifeiliaid ..........................88

5.0 Amgylchedd Addas..................................................................................................89

6.0 Deiet Addas..............................................................................................................92

7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid ............................................................92

8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid ........................................................92

9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau......................................92

Canllawiau i arolygwyr ynglŷn â busnesau sy’n cydgrynhoi mewnforion pysgod .......93

Safonau Uwch..............................................................................................................95

# Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn wedi'u hanelu at arolygwyr Awdurdodau Lleol yng Nghymru a dylid eu darllen ar y cyd â Rheoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 (OS Rhif 416 (W. 135))[1]. Ceir Canllawiau Gweithdrefnol hefyd ar y materion cyffredinol sy'n berthnasol i weithgareddau trwyddedu, gan gynnwys sut i asesu gradd seren sefydliadau.

# Beth sydd i mewn ac allan o'r cwmpas: Gwerthu Anifeiliaid fel Anifeiliaid Anwes

2. Mae Atodlen 1 i Reoliadau Lles Anifeiliaid (Trwyddedu Gweithgareddau sy'n Ymwneud ag Anifeiliaid) (Cymru) 2021 ("y rheoliadau") yn diffinio gweithgareddau trwyddedadwy gwerthu anifeiliaid anwes. Mae'r gweithgaredd trwyddedadwy wedi'i gyfyngu i fusnesau neu'r rhai sy'n gweithredu ar sail fasnachol.

**Prawf Busnes**

3. Mae'r rheoliadau'n pennu dau Brawf Busnes enghreifftiol i'w hystyried wrth benderfynu a ddylai gweithgaredd gael ei ddynodi'n fasnachol, ac felly o fewn cwmpas y rheoliadau. Nid dyma'r unig ffactorau i'w hystyried ond maent yn enghreifftiau, ac mae ffactorau eraill, fel y rhai a restrir yn y naw bathodyn masnach a nodir gan CThEM, hefyd yn berthnasol. Mae'r rheoliadau'n cynnwys y canllawiau canlynol ar y mater hwn:
4. Mae'r amgylchiadau y mae'n rhaid i awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu a yw gweithgaredd yn cael ei gynnal fel rhan o fusnes at ddibenion yr Atodlen hon yn cynnwys, er enghraifft, a yw'r gweithredwr—

   (a) yn gwneud unrhyw werthiant drwy'r gweithgaredd, neu'n cynnal y gweithgaredd fel arall, gyda'r bwriad o wneud elw, neu

   (b) yn ennill unrhyw gomisiwn neu ffi o'r gweithgaredd.
5. Bwriad y canllawiau hyn yw cynorthwyo arolygwyr i bennu a yw gweithgaredd yn ddarostyngedig i'r rheoliadau ai peidio, gan nodi y bydd angen elfen o wneud dyfarniad yn y pen draw.
6. Isod, nodir enghreifftiau o'r math o weithgaredd y dylid neu na ddylid ei ystyried o fewn cwmpas y rheoliadau a'r dangosyddion y dylid eu hystyried wrth bennu a oes angen trwydded.
7. Dylai arolygwyr Awdurdodau Lleol ystyried holl elfennau'r cyngor isod a'u pwyso a'u mesur yn erbyn ei gilydd cyn penderfynu a yw gweithgaredd yn dod o fewn cwmpas y rheoliadau.

[1] https://www.legislation.gov.uk/wsi/2021/416/contents/made/welsh

**Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes: Testun y diffiniad yn Atodlen 1 i'r rheoliadau**

2. Mae gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (neu gyda'r bwriad o'u hailwerthu yn ddiweddarach fel anifeiliaid anwes) wrth gynnal busnes yn cynnwys cadw anifeiliaid wrth gynnal busnes gyda'r bwriad o'u gwerthu neu eu hailwerthu.
3. Nid yw gweithgaredd a ddisgrifir ym mharagraff 2 yn cynnwys-
   (a) gwerthu anifeiliaid wrth gynnal busnes cynhyrchu dyframaethol a awdurdodir o dan reoliad 5(1) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009[2], neu

   (b) Person sydd yn dal trwydded dan Reoliadau Lles Anifeiliaid (Bridio Cŵn) (Cymru) 2014 sy'n gwerthu:

      i ci bach y mae'r person wedi ei fridio ei hunan o'r fangre lle magwyd y ci bach hwnnw; neu
      ii ci llawndwf y mae'r person wedi ei fridio ei hun.

# Meini prawf sydd o fewn y cwmpas

**Mae gweithgareddau sy'n bodloni un neu fwy o'r meini prawf canlynol yn destun trwyddedu**:

1. Mewnforio, dosbarthu a gwerthu anifeiliaid gan fusnes.
2. Busnesau sydd wedi cofrestru gyda Tŷ'r Cwmnïau.
3. Busnesau neu unigolion sy'n gweithredu o eiddo domestig at ddibenion masnachol (dylid nodi efallai na fydd llawer ohonynt wedi'u rhestru dan Dŷ'r Cwmnïau).
4. Mangreoedd sydd ar agor i aelodau o'r cyhoedd neu i fusnesau eraill lle mae anifeiliaid ar gael i'w prynu.

**Canllaw i ddangosyddion rhedeg busnes gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes**

Gall y canlynol helpu wrth ystyried y meini prawf a restrir uchod:

- Mewnforio, dosbarthu a gwerthu anifeiliaid drwy gyfrwng ffi sefydlog;
- Prynu anifeiliaid gyda'r bwriad penodol o'u gwerthu ymlaen;
- Lle caiff anifeiliaid eu prynu ac yna eu hail-hysbysebu i'w gwerthu neu eu gwerthu o fewn cyfnod byr o amser;
- Nifer, amlder a/neu gyfaint gwerthiannau - mae trafodion systematig ac ailadroddus gan ddefnyddio'r un dull o hysbysebu yn debygol o ddangos gweithgaredd masnachol;
- Gallai nifer fawr o anifeiliaid yn cael eu gwerthu neu eu hysbysebu i'w gwerthu neu nifer uchel o doreidiau neu epil fod yn arwydd o fusnes;

[2] Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009

- Gallai nifer isel o anifeiliaid yn cael eu gwerthu neu eu hysbysebu fod yn arwydd o fusnes sy’n gysylltiedig â phrisiau gwerthiant uchel neu elw mawr;
- Dewis ac amrywiaeth helaeth o anifeiliaid yn cael eu masnachu. Gallai amrywiaeth eang o rywogaethau neu ddosbarthiadau yn cael eu masnachu fod yn arwydd o natur fasnachol y gweithgaredd;
- Gallai nifer uchel o hysbysebion am anifeiliaid sydd ar werth, gan gynnwys ar wefannau mân hysbysebion, fod yn arwydd o ymddygiad masnachol, hyd yn oed lle nad oes gwerthiant gwirioneddol yn digwydd drwy’r rhyngrwyd. Gallai hyn fod yn nifer uchel o hysbysebion ar unrhyw adeg neu dros gyfnod byr o amser, a/neu’n rheolaidd;
- Gallai hysbysebu drwy amrywiaeth o safleoedd, fforymau neu gyfryngau fod yn arwydd o weithgaredd masnachol.

# Meini prawf sydd y tu allan i’r cwmpas

**Mae gweithgareddau sy’n bodloni un neu fwy o’r meini prawf canlynol yn destun trwyddedu:**

1. Gwerthiant anaml nifer fach o epil dros ben/stoc ormodol gan unigolyn preifat sy’n bridio anifeiliaid fel hobi, er pleser, i’w harddangos am wobr, neu ar gyfer addysg, astudio neu ddatblygiad gwyddonol. Efallai nad yw bridwyr hobi yn bridio gyda’r bwriad o wneud elw. Efallai eu bod yn bridio er mwyn gwella iechyd eu brîd, cynhyrchu stoc arddangos newydd neu annog parhad brîd prin. Ar gyfer rhywogaethau gwerth isel sy’n gallu cynhyrchu nifer fawr o stoc ormodol, dylid ystyried gwerth y stoc a’r tebygolrwydd y bydd y gwerthwr yn gwneud elw. Os gwneir elw, dylid ystyried maint yr elw ac a oedd bwriad gwneud elw
2. Digwyddiadau wedi’u trefnu lle mae pobl yn cyfarfod i werthu anifeiliaid dros ben sydd wedi eu bridio ganddynt, neu anifeiliaid sydd y tu hwnt i’w gofynion, os ydynt ar agor i’r cyhoedd ai peidio. Gwaherddir gwerthu anifeiliaid anwes fel busnes o farchnad neu stondin o dan Adran 2 Deddf Anifeiliaid Anwes 1951.
3. Busnesau Cynnyrch Dyframaethu sydd wedi’u hawdurdodi o dan reoliad 5(1) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009, ac sy’n cael eu harolygu gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod.
4. Ail-letya anifeiliaid ar sail anfasnachol, gan gynnwys cŵn bach a chathod bach.

**Dangosyddion canllaw o weithgareddau sydd “y tu allan i’r cwmpas”**

Gall y canlynol helpu wrth ystyried y meini prawf a restrir uchod:

- Mae nifer, amlder a/neu gyfaint gwerthiant – trafodion afreolaidd, nifer isel a/neu afreolaidd o hysbysebion/gwerthiannau neu nifer/gwerth isel yr anifeiliaid a werthir yn debygol o ddangos nad yw’r gweithgaredd yn fasnachol ei natur.
- Lle gall unigolyn ddangos bod y gweithgaredd yn cael ei gynnal fel hobi neu ar gyfer addysg neu ddatblygiad gwyddonol, ac mai dim ond stoc dros ben sy’n cael ei werthu. Gellid dangos hyn drwy ddangos tystiolaeth megis:

(a) Adroddiadau neu astudiaethau a baratowyd gan yr unigolyn mewn perthynas â'r rhywogaethau a gedwir, gan gynnwys gwaith hunangyhoeddedig, gwaith a gyhoeddwyd ar gyfer cyfnodolion gwyddonol, gwaith a gyhoeddwyd yn y cyfryngau masnach anifeiliaid anwes neu hobi, neu gyfraniadau amlwg i brosiectau cadwraeth.

(b) Ffurflenni cais i gystadlaethau ar gyfer yr anifeiliaid a gedwir gan yr unigolyn.

(c) Aelodaeth gofrestredig clwb neu gymdeithas sy'n berthnasol i'r anifeiliaid a gedwir gan yr unigolyn.

- Wrth asesu a oes elw wedi'i wneud o werthu stoc dros ben, dylai arolygwyr ystyried y costau sy'n gysylltiedig â bridio a magu'r anifeiliaid, ochr yn ochr â'r costau sy'n gysylltiedig â chymryd rhan yn y gweithgaredd, boed hynny fel hobi, addysg neu ddatblygiad gwyddonol.

- Weithiau, mae'n gallu bod yn gymhleth pennu a oes angen trwydded ar fridiwr cŵn gan fod llawer sydd ond yn bridio un neu ddau o doreidiau fel hobi, er y gallai'r cŵn bach na chedwir gan y bridiwr fod o werth uchel. Gall bridiwr hobi wario symiau mawr yn bridio i gael ci bach i barhau â llinach neu i'w arddangos, felly gallai'r elw fod yn isel mewn gwirionedd. Mae CThEM yn cyfeirio at "ddangosyddion masnach" i bennu a yw bridiwr yn rhedeg busnes. Dyma'r prif ddangosyddion i'w hystyried wrth geisio pennu a yw hobi wedi troi'n fasnach neu'n fusnes:

  1) a ydynt yn bwriadu gwneud elw ac
  2) a yw mynychder a nifer y trafodion (llawer ac yn aml) yn awgrymu eu bod yn rhedeg busnes?

- Lle gall unigolyn ddangos bod y gweithgaredd o ail-letya yn cael ei wneud ar sail nid er elw, ac nad yw'n bodloni'r prawf busnes. Mae Sefydliad Lles Anifeiliaid anfasnachol cyfreithlon yn cael ei ddiffinio fel:

  > Person neu sefydliad sy'n derbyn anifeiliaid agored i niwed yn rheolaidd, boed yn anifeiliaid anwes, anifeiliaid sy'n cael eu ffermio, anifeiliaid gwyllt, anifeiliaid a warchodir neu anifeiliaid eraill, gyda'r nod o'u hailsefydlu a naill ai eu hail-letya neu eu rhyddhau (yn ôl i'r gwyllt), neu ddarparu gofal hirdymor.

- Wrth asesu hyn, dylech ystyried statws Elusennol y sefydliad neu ei statws fel Cwmni,

- Yng Nghyllideb 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU lwfans newydd o £1,000 ar gyfer incwm masnachu o fis Ebrill 2017. Ni fyddai angen ystyried unrhyw un sy'n dod o dan y trothwy hwn yng nghyd-destun penderfynu a ydynt yn fusnes.

- Nid yw'r trothwy incwm masnachu o £1,000 yn nenfwd gan efallai nad yw rhywun ag incwm masnachu o dros £1,000 yn werthwr anifeiliaid anwes masnachol ac efallai nad yw'n gwneud elw.

# Trosolwg o'r Amodau a'r Canllawiau Esboniadol

1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r amodau y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy er mwyn cael Trwydded Gweithgareddau Anifeiliaid ar gyfer gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes. Mae'r amodau a nodir yn atodlenni i'r rheoliadau i'w gweld mewn print trwm drwy gydol y ddogfen hon, tra bod y nodiadau canllaw esboniadol yn cael eu darparu fel pwyntiau bwled.
2. Er mwyn derbyn trwydded, bydd angen i fusnes fodloni'r holl safonau gofynnol a amlinellir yn y ddogfen hon. Yn ogystal, anogir busnesau i weithredu safonau uwch. Bydd busnes sy'n bodloni'r safonau uwch yn gallu ennill gradd 4 neu 5 seren yn y System Gradd Seren Gweithgareddau Anifeiliaid a fydd yn gymhelliant i'w arddangos ar eu mangre ac yn hysbysu cwsmeria id eu bod yn darparu safon uwch o les.
3. Er bod gweithredu'r safonau uwch yn ddewisol, mae angen bodloni safonau penodol er mwyn denu'r radd seren uwch. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y safonau uwch gofynnol a rhai dewisol, mae pob un ohonynt wedi cael lliw penodol sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob dogfen ganllaw. Mae safonau uwch sy'n ymddangos mewn testun glas yn angenrheidiol er mwyn i fusnes gael ei ddosbarthu fel busnes o safon uchel, tra bod y safonau sy'n ymddangos mewn testun coch yn ddewisol. Gweler y Canllawiau Gweithdrefnol am esboniad llawn o'r System Gradd Seren Gweithgareddau Anifeiliaid a sut mae'n ymgorffori asesiad risg o'r busnes.
4. Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu'r amodau cyffredinol sy'n berthnasol i bob dosbarthiad (Rhannau A a B), sydd wedyn yn cael ei atgyfnerthu gan ganllawiau penodol i rywogaethau yn Rhannau C i L. O ran canllawiau ychwanegol, dylid cyfeirio at Godau Ymarfer a gynhyrchir gan Weinidogion Cymru sy'n darparu anghenion penodol i rywogaethau, lle maent ar gael.

# Rhan A – Amodau Cyffredinol (Atodlen 2 i'r Rheoliadau)

## 1.0 Arddangos Trwydded

**Amod** (mae rhifau paragraffau yn cyfateb i'r rhifau yn y Rheoliadau)

**1.1 Rhaid i gopi o'r drwydded fod wedi ei arddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid arddangos cyfeiriad y fangre drwyddedig ar y drwydded.

**Amod**

**1.2 Rhaid i enw deiliad y drwydded, wedi ei ddilyn gan rif trwydded deiliad y drwydded, fod wedi eu harddangos yn glir ac yn amlwg ar unrhyw wefan a ddefnyddir mewn cysylltiad â'r gweithgaredd trwyddedadwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid i'r enw ar y drwydded fod yn enw unigolyn.

## 2.0 Cofnodion

**Amodau**

**2.1 Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod yr holl gofnodion y mae'n ofynnol i ddeiliad y drwydded eu cadw fel un o amodau'r drwydded ar gael ar unrhyw adeg i'w harolygu gan arolygydd ar ffurf weladwy a darllenadwy neu, pan fo unrhyw gofnodion o'r fath yn cael eu storio ar ffurf electronig, ar ffurf y gellir cyflwyno'r cofnodion ar ffurf weladwy a darllenadwy yn rhwydd ohoni.**

**2.2 Rhaid i ddeiliad y drwydded gadw'r holl gofnodion o'r fath am 3 blynedd o leiaf, gan ddechrau â'r dyddiad y crëwyd y cofnod.**

**Canllawiau**

- Rhaid gwneud copi wrth gefn o gofnodion electronig.

## 3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid

**Amod**

**3.1 Ni chaniateir defnyddio unrhyw anifeiliaid, neu unrhyw fathau o anifeiliaid, ac eithrio'r anifeiliaid hynny a'r mathau hynny o anifeiliaid a bennir yn y drwydded, mewn perthynas â'r gweithgaredd trwyddedadwy perthnasol.**

**Canllawiau**

- Ni ellir stocio unrhyw fathau o anifeiliaid ac eithrio'r rhai a bennir yn y drwydded at ddibenion y gweithgaredd.
- Ar gyfer ymlusgiaid, amffibiaid, pysgod a chnofilod, gall hyn fod yn grwpiau o rywogaethau (e.e. pysgod trofannol, nadroedd, madfallod dŵr, bochdewion, gerbilod).

**Amod**

**3.2 Ni chaniateir i nifer yr anifeiliaid a gedwir ar gyfer y gweithgaredd trwyddedadwy ar unrhyw adeg fod yn fwy na'r uchafswm sy'n rhesymol gan ystyried y cyfleusterau a'r staffio ar unrhyw fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid i amodau'r drwydded nodi'r niferoedd ar gyfer pob rhywogaeth neu grŵp rhywogaeth y gellir eu cadw yn y fangre, ac eithrio pysgod. Gall torri'r amod hwn ar niferoedd heb ddatgan hynny annilysu'r drwydded, yn enwedig os nad yw'n cael ei adlewyrchu mewn lefelau staffio uwch.
- Ac eithrio pysgod, mae'r dwyseddau stocio ar gyfer pob grŵp dosbarthiad yn yr atodiadau perthnasol ac mae'n rhaid cadw atynt.

## 4.0 Staffio

**Amod**

**4.1 Rhaid i niferoedd digonol o bobl sy'n gymwys at y diben fod ar gael i ddarparu lefel o ofal sy'n sicrhau y diwellir anghenion lles pob anifail.**

**Canllawiau**

- Ni ddylid stocio na gwerthu unrhyw anifail oni bai bod y staff, neu o leiaf un aelod o staff, ar y safle yn ystod oriau agor yn gyfarwydd â gofal a lles yr anifeiliaid sy'n cael eu stocio a bod ganddynt gymhwyster cydnabyddedig a/neu'n gallu dangos profiad/hyfforddiant addas.
- Os oes tystiolaeth nad yw anghenion lles yr anifeiliaid yn cael eu diwallu, rhaid i'r arolygydd ystyried a yw'r lefelau staffio yn briodol. Gall prosesau sy'n benodol i safleoedd ac yn awtomataidd ddylanwadu'n rhannol ar lefelau staffio.
- Rhaid i ddeiliaid trwyddedau sy'n cadw rhywogaethau gwenwynig sy'n beryglus i iechyd pobl sicrhau bod digon o staff yn cael eu hyfforddi i reoli'r rhywogaethau, neu fod â phrofiad o'u rheoli.
- Rhaid darparu cyfarwyddiadau ysgrifenedig i'r staff ar ddarparu gofal iechyd a'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn os bydd digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw anifail gwenwynig ac ymwelydd neu aelod o staff.

**Amod**

**4.2 Rhaid i ddeiliad y drwydded neu reolwr dynodedig ac unrhyw staff a gyflogir i ofalu am yr anifeiliaid feddu ar gymhwysedd i adnabod ymddygiad arferol y rhywogaethau o dan eu gofal ac i adnabod arwyddion poen, dioddefaint, anaf, clefyd neu ymddygiad annormal, ac i gymryd camau priodol i liniaru neu atal yr effeithiau hynny.**

**Canllawiau**

- Rhaid i anifeiliaid gael eu trin/derbyn gofal gan staff sy'n meddu ar y gallu, yr wybodaeth a'r cymhwysedd proffesiynol priodol. Gellir dangos hyn drwy ddal cymhwyster Lefel 2 a reoleiddir gan OFQUAL, neu gofrestru ar gyfer cymhwyster o'r fath, i'r rhywogaeth a gedwir, drwy ymgymryd â hyfforddiant perthnasol a gydnabyddir gan y diwydiant neu raglen hyfforddi fewnol neu raglen hyfforddi sy'n seiliedig ar brofiad.
- Rhaid i unigolion sy'n ymgymryd â chymhwyster a reoleiddir gan OFQUAL fod wedi datblygu'n briodol mewn 12 mis ac wedi cwblhau'r cymhwyster o fewn dwy flynedd.

**Safon Uwch**

- Rhaid cael aelod o staff parhaol, llawn amser sydd â chymhwyster Lefel 3 a reoleiddir gan OFQUAL sy'n briodol i'r rhywogaeth a gedwir.

**Amod**

**4.3 Rhaid i ddeiliad y drwydded ddarparu polisi hyfforddiant ysgrifenedig, sy'n cydymffurfio â gofynion paragraff 9, ar gyfer yr holl staff.**

**Canllawiau**

- Rhaid adolygu a diweddaru'r polisi hyfforddi yn flynyddol a rhaid iddo gynnwys:
    - arfarniad blynyddol

  - datblygiad proffesiynol parhaus arfaethedig
  - cydnabod bylchau gwybodaeth
  - defnyddio cyrsiau a llenyddiaeth ar-lein
- Bydd y polisi hyfforddi yn berthnasol i unrhyw aelodau o staff a gellir ei ddangos drwy ymgysylltu â chyrsiau, dysgu ysgrifenedig neu ar-lein, meddu ar y wybodaeth ddiweddaraf am unrhyw ymchwil neu ddatblygiadau ar gyfer rhywogaethau penodol a dogfennaeth yr arfarniad blynyddol.
- Rhaid darparu tystiolaeth o bresenoldeb staff neu gwblhau'r hyfforddiant.
- Os na chyflogir unrhyw staff, rhaid i ddeiliad y drwydded ddangos ei fod wedi datblygu ei wybodaeth ei hun.

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Amod**

**5.1 Rhaid i bob ardal, cyfarpar ac offer y mae gan yr anifeiliaid fynediad iddynt beri'r risgiau lleiaf posibl o achosi anaf, salwch a dianc, a rhaid iddynt fod wedi eu hadeiladu o ddeunydd cadarn, diogel a gwydn, bod mewn cyflwr da a bod wedi eu cynnal a'u cadw'n dda.**

**Canllawiau**

- Rhaid i lety fod yn ddiogel er mwyn atal anafiadau a lleihau'r risg o drosglwyddo clefydau. Rhaid cynnal uniondeb strwythurol a chynllunio llety i sicrhau arwynebau sych, hawdd eu glanhau (gan gynnwys cyffyrdd) ar gyfer rhywogaethau nad ydynt yn rhai dyfrol. Rhaid i ddeunyddiau fod yn ddiwenwyn ac wedi'u hadeiladu o ddeunyddiau nad ydynt yn fân-dyllog, neu wedi eu trin yn briodol.
- Rhaid archwilio llety'n rheolaidd am ddifrod ac unrhyw bwyntiau anafu neu ddianc posibl. Rhaid trwsio neu adnewyddu llety wedi'i ddifrodi ar unwaith.
- Rhaid lleihau peryglon mewn llety i'r eithaf. Ni ddylid cael bargodiadau nac ymylon garw a allai achosi anaf. Ni ddylai unrhyw geblau trydanol fod o fewn cyrraedd unrhyw anifail a allai eu cnoi neu eu difrodi.
- Rhaid i bob deiliad trwydded allu dangos bod risgiau amgylcheddol a bioddiogelwch, gan gynnwys milheintiau, wedi'u hystyried wrth ddethol a defnyddio'r lloc.
- Rhaid i ddraeniad mewn llociau, ardaloedd gweithgareddau, tramwyfeydd ac ardaloedd paratoi fod yn ddigonol i leihau'r risg o bathogenau sy'n gysylltiedig â merddwr.

**Amod**

**5.2 Rhaid cadw anifeiliaid ar bob adeg mewn amgylchedd sy'n addas i'w rhywogaeth a'u cyflwr (gan gynnwys statws iechyd ac oedran) mewn cysylltiad ag—**

**(a) eu hanghenion ymddygiadol; (b) ei sefyllfa, faint o le sydd ar gael, ansawdd yr aer, glendid a’r tymheredd; (c) ansawdd y dŵr (pan fo’n berthnasol); (d) lefelau sŵn; (e) lefelau goleuni; (f) awyriad.**

**Canllawiau**

- Rhaid i anifeiliaid allu symud o gwmpas yn rhydd, dringo, hedfan, nofio neu neidio lle bo hynny’n briodol, ac arddangos ymddygiad arferol yn eu hamgylchedd.
- Rhaid i lety ddarparu cysgod rhag amodau amgylcheddol anffafriol ac ysglyfaethwyr.
- Rhaid i faint y lloc fod yn briodol i’r rhywogaeth, ei addasu o ran maint wrth i’r anifail dyfu a lle cedwir anifeiliaid yn gymunedol, mae’n bosibl y bydd angen i unrhyw newid mewn deinameg grŵp arwain at wahanu neu lociau mwy.
- Tra mae’r anifeiliaid yn cael eu cynnig i’w gwerthu, ystyrir bod y busnes yn gyfleuster dal trosiannol tymor byr. Gall meintiau lloc derbyniol fod yn llai na’r rhai a fwriedir ar gyfer hwsmonaeth hirdymor, ac mae’r dwyseddau stocio penodol ar gyfer pob grŵp dosbarthiad yn cael eu hamlinellu yn yr atodlenni unigol.
- Dylai’r cyfnod trosiannol gael ei deilwra’n briodol i oedran a maint yr anifail ac, mewn unrhyw achos, ni ddylai fod yn fwy na saith diwrnod o’r dyddiad cyrraedd. Os caiff ei gadw am fwy o amser neu’n barhaol, yna rhaid symud yr anifail i loc o faint sy’n cynrychioli’r arferion gorau presennol ar gyfer y rhywogaethau unigol ac y mae disgwyl i’r prynwr terfynol ei ddarparu. Rhaid i hyn fod o leiaf yn gyfwerth, neu’n fwy os oes modd, â’r rhai a ddisgrifir ym maint gofynnol lloc o dan y Safon Uwch ar gyfer pob rhywogaeth lle y nodir hynny.
- Ar gyfer busnesau sy’n gwerthu anifeiliaid i fusnesau eraill yn unig, nid oes unrhyw safonau cytûn ar hyn o bryd ar gyfer maint cawell a dwyseddau stocio, felly mae’n rhaid i fusnesau ddarparu tystiolaeth i ddangos bod lles yn cael ei fodloni gan gyfeirio at y canllawiau yng ngweddill y ddogfen hon. Bydd safonau penodol yn cael eu datblygu. Nid yw hyn yn berthnasol i fusnesau sy’n gwerthu cŵn a chathod, y mae’n ofynnol iddynt ddilyn maint y llety a nodir yn y canllawiau.

**Safon Uwch**

- Rhaid i fusnesau sy’n gwerthu anifeiliaid i fusnesau eraill yn unig fodloni’r meintiau cawell a’r dwyseddau stocio sy’n cael eu nodi yn y safonau gofynnol penodol i rywogaethau.

**Canllawiau Pellach**

**(a) eu hanghenion ymddygiadol,**

- Pan fo’n briodol, rhaid i anifeiliaid gael ardaloedd ar wahân ar gyfer cuddio, cysgu, mynd i’r toiled, ymarfer corff, chwarae penodol i rywogaeth a chyfoethogi. Rhaid i ardaloedd cysgu fod yn sych, yn ddi-ddrafft, wedi’u hawyru’n dda ac yn lân, yn ogystal ag yn ddigon mawr i ganiatáu i’r holl anifeiliaid sy’n cael eu lletya orffwys gyda’i gilydd ar eu hyd lle bo hynny’n briodol a gallu troi o gwmpas yn ddirwystr. Rhaid i unrhyw is-haen a ddefnyddir fod yn briodol i’r rhywogaeth dan sylw.

**(b) ei sefyllfa, lle, ansawdd yr aer, glendid a’r tymheredd,**

- Rhaid i ddeiliaid trwydded sicrhau bod amodau amgylcheddol fel tymheredd, lleithder cymharol, awyru ac amodau goleuo yn cael eu rheoli’n ofalus bob amser, o

fewn yr ystod briodol ar gyfer y rhywogaethau sy'n cael eu lletya a'u monitro fel y bo'n briodol, gydag unrhyw wyriadau a chamau lliniaru'n cael eu cofnodi.

- Rhaid i staff allu amlinellu'r camau adferol i'w cymryd pan fydd paramedrau'n gwyro oddi wrth yr ystodau derbyniol ar gyfer y rhywogaethau sy'n cael eu lletya. Rhaid osgoi gor-amlygiad i olau haul uniongyrchol a ffynonellau gwres anfwriadol eraill.
- Rhaid i anifeiliaid sy'n cael eu dal neu eu harddangos yn yr awyr agored gael eu hamddiffyn yn addas rhag tywydd garw bob amser.
- Ni ddylai anifeiliaid gael eu hamlygu i ddrafftiau.

**(c) ansawdd y dŵr (pan fo'n berthnasol),**

- Ar gyfer rhywogaethau lle mae ansawdd dŵr yn rhan annatod o gynhaliaeth bywyd, neu lle mae goblygiadau lles i ansawdd dŵr gwael, rhaid cynnal profion dŵr a chofnodi priodol. Rhaid i amlder profion o'r fath fod yn briodol i'r system, gydag isafswm o gofnodion wythnosol yn cael eu cadw. Rhaid i gofnodion o'r fath fanylu ar unrhyw gamau adferol sydd wedi'u cymryd i adfer paramedrau derbyniol.

**(d) lefelau sŵn,**

- Rhaid cynnal sŵn a dirgryniad ar lefelau sy'n briodol i rywogaethau, a rhaid lleoli llociau ymhell o ffynonellau sy'n debygol o achosi straen neu aflonyddwch.

**(e) lefelau goleuni,**

- Rhaid darparu golau mewn cylch naturiol addas ar gyfer y rhywogaeth, a lle mae golau naturiol yn annigonol, rhaid defnyddio goleuadau artiffisial addas.

**(f) awyriad.**

- Rhaid darparu awyru i bob ardal fewnol. Rhaid i awyru fod yn briodol i'r rhywogaeth a heb fod yn cael unrhyw effaith niweidiol ar dymheredd na lleithder.
- Rhaid i'r lleithder fod yn briodol i'r rhywogaeth.

**Amod**

**5.3 Rhaid i staff sicrhau bod yr anifeiliaid yn cael eu cadw'n lân ac yn gyfforddus.**

**Canllawiau**

- Os yw llety ar system o lefelau, ni ddylid caniatáu i ddŵr, bwyd neu wastraff halogi lefelau is. Mewn rhai systemau, megis acwaria neu adardai rhywogaethau cymysg, lle mae ynysu'n amhriodol, rhaid rheoli gwastraff yn ddigonol er mwyn atal halogi bwyd a dŵr.

**Amodau**

**5.4 Pan fo'n briodol i'r rhywogaeth, rhaid darparu ardal doiled a chyfleoedd i'r anifeiliaid fynd i'r toiled.**

**5.5 Rhaid i weithdrefnau fod yn eu lle i sicrhau bod y llety ac unrhyw gyfarpar ynddo yn cael eu glanhau mor aml ag y bo'n angenrheidiol, ac y cynhelir safonau hylendid da, a rhaid bod yn bosibl i lanhau a diheintio'r llety yn drwyadl.**

**Canllawiau**

- Rhaid glanhau a diheintio llety gyda chynnyrch sy'n effeithiol yn erbyn pathogenau tebygol. Ar lefelau defnydd arferol, rhaid i ddiheintyddion fod yn ddiwenwyn i'r

rhywogaethau sy’n cael eu lletya, rhaid eu defnyddio ar ffactor gwanediad priodol ac yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr, gan ganiatáu cyfnod o arwahanrwydd priodol wedi’i amseru rhwng diheintio a chyflwyno/ailgyflwyno anifeiliaid.

- Rhaid gwaredu sarn budr yn amserol a gosod sarn newydd ar unwaith.
- Rhaid glanhau a diheintio llociau sy’n cael eu gwacáu yn llwyr, a chaniatáu iddynt sychu, cyn i stoc newydd gyrraedd. Rhaid gosod is-haen newydd fel y bo’n briodol, a rhaid diheintio gosodiadau a ffitiadau llociau yn ddigonol.
- Rhaid bras-lanhau’r llociau o leiaf bob dydd ac yn ôl yr angen, oni bai bod hyn yn cael effaith negyddol ar les yr anifeiliaid.

**Amod**

**5.6 Rhaid cludo a thrin yr anifeiliaid mewn modd (gan gynnwys, er enghraifft, mewn perthynas â llety, tymheredd, awyru ac amlder) sy’n eu diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau.**

**Canllawiau**

- Rhaid cludo unrhyw anifeiliaid sy’n cael eu derbyn neu eu traddodi yn unol â’r gofynion a bennir yn y ddeddfwriaeth bresennol[3].
- Ni ddylid cadw ysglyfaethwyr ac ysglyfaeth o fewn golwg, clyw nac arogl.

- Rhaid glanhau a diheintio cerbydau ar ôl pob casgliad/danfoniad.
- Rhaid cludo anifeiliaid mewn cynwysyddion addas ac ni ddylid eu cymysgu â gwahanol rywogaethau nac anifeiliaid anghyfarwydd. Pan fo nifer o anifeiliaid wedi’u cymysgu yn yr un cynhwysydd, yna rhaid iddo fod o faint priodol i atal gorlenwi.
- Ni ddylid gadael anifeiliaid mewn cerbydau am gyfnod sy’n debygol o gael effaith negyddol ar eu lles ac ni ddylid byth eu gadael heb oruchwyliaeth mewn unrhyw gerbyd pan allai’r tymheredd beri risg i’r anifail.
- Ni ddylid cludo anifeiliaid sydd wedi’u hanafu, yn heintus neu’n sâl oni bai eu bod yn cael eu cludo i filfeddygfa, cwarantîn neu gyfleuster ynysu. Yn y sefyllfaoedd hyn, rhaid cael rhwystrau rhwng cynwysyddion i leihau trosglwyddo clefydau, lle bo hynny’n berthnasol, a rhaid diheintio’r cerbyd ac unrhyw gyfarpar yn briodol ar ôl eu cludo.

**Amod**

**5.7 Rhaid i’r holl anifeiliaid fod yn hygyrch i’r staff ac ar gyfer arolygu a rhaid bod digon o oleuni i’r staff weithio’n effeithiol ac arsylwi ar yr anifeiliaid.**

**Canllawiau**

- Er mwyn osgoi dod i gysylltiad â golau haul uniongyrchol, lefelau gwres amhriodol neu ysgogiadau sy’n peri straen, ni ddylid arddangos anifeiliaid mewn ffenestri gydag wynebwedd allanol.
- Rhaid i’r llociau ganiatáu archwiliad gweledol dyddiol, gan darfu cyn lleied ag sy’n bosibl ar yr anifail, oni bai bod angen archwiliadau amlach ar y rhywogaeth (gweler yr Atodlenni perthnasol).
- Rhaid ystyried gofynion penodol rhywogaethau nosol.

[3] Lles anifeiliaid wrth gludo | Is-bwnc | LLYW.CYMRU

**Amod**

**5.8 Rhaid darparu'r holl adnoddau mewn ffordd (er enghraifft o ran amlder, lleoliad a mynedfeydd) sy'n lleihau ymddygiad cystadleuol neu oruchafiaeth anifeiliaid unigol.**

**Canllawiau**

- Mae'r adnoddau yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: bwyd, dŵr, eitemau cyfoethogi ac ardaloedd gorffwys/cysgu.
- Rhaid bod digon o adnoddau ar gyfer pob anifail unigol mewn unrhyw fan amgaeedig a rennir er mwyn lleihau dominyddu, a lle caiff hynny ei nodi, rhaid darparu adnoddau ychwanegol neu symud anifeiliaid dominyddol lle bo hynny'n briodol.
- Rhaid i fwydo a/neu chwarae ddigwydd ar wahân neu gael ei oruchwylio lle bo angen.
- Rhaid hyfforddi staff i adnabod arwyddion o darfu ar grŵp (e.e. cystadleuaeth ac ymddygiad ymosodol), a allai beryglu lles anifeiliaid.

**Amod**

**5.9 Ni chaniateir gadael yr anifeiliaid heb neb i ofalu amdanynt mewn unrhyw sefyllfa, nac am unrhyw gyfnod, sy'n debygol o beri gofid iddynt.**

## 6.0 Deiet Addas

**Amod**

**6.1 Rhaid darparu deiet i'r anifeiliaid sy'n addas o ran ansawdd, maint ac amlder, a rhaid cyflwyno unrhyw fwydydd anifeiliaid newydd yn raddol er mwyn caniatáu i'r anifeiliaid ddod i arfer â hwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid i gyfanswm, amlder, darpariaeth a'r math o fwyd gael eu pennu gan yr hyn sy'n briodol ar gyfer y rhywogaeth ac anghenion ymddygiadol a maeth yr anifail unigol. Rhaid i staff fod yn ymwybodol o'r gofynion ar gyfer yr holl rywogaethau y maent yn gyfrifol amdanynt. Rhaid cynghori'r prynwr i barhau i fwydo'r deiet a gyflenwyd gan ddeiliad y drwydded i ddechrau.
- Os oes angen, rhaid darparu'r dos cywir o ychwanegion bwyd, gan gynnwys fitaminau a mwynau, ar gyfer y rhywogaethau unigol ac ar ffurf sy'n briodol i sicrhau bod ychwanegiadau digonol yn cael eu darparu i'r rhywogaethau a dargedir.
- Rhaid cadw bwydydd ffres yn oer lle bo hynny'n briodol. Rhaid storio bwydydd wedi'u rhewi y bwriedir eu defnyddio mewn rhewgell ddofn briodol a'u dadrewi'n drylwyr i dymheredd ystafell cyn eu defnyddio.
- Rhaid i fwyd byw y bwriedir ei ddefnyddio gael ei gadw mewn cynwysyddion addas sy'n atal dianc. Rhaid cael gwared ar fwyd byw, os nad yw'n cael ei ddefnyddio mewn cyfnod byr, lle gallai fod yn risg i'r rhywogaethau sy'n cael eu lletya e.e. cricedau'n brathu ymlusgiaid.
- Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y dylid bwydo ysglyfaeth fertebraidd byw (e.e. neidr nad yw'n bwydo). Rhaid i hyn fod ar sail anifail unigol ar gyfer anifeiliaid penodedig yn unig. Rhaid bod cyfiawnhad ysgrifenedig wedi'i gwblhau, ei ddarparu i

arolygwyr, a rhaid i uwch staff gytuno arno, gan gynnwys cyngor milfeddygol, a hynny ar ôl pwyso a mesur lles yr ysglyfaethwr a'r ysglyfaeth. Ni ddylid gwerthu anifeiliaid y mae'n hysbys eu bod yn bwydo ar ysglyfaeth byw yn unig i aelodau o'r cyhoedd, dim ond i arbenigwyr neu sefydliadau. Rhaid i aelod cymwys o staff arsylwi ar fwydo byw a chael gwared ar ysglyfaeth sydd heb ei fwyta mewn modd prydlon. Ni ddylai bwydo o'r fath ddigwydd ym mhresenoldeb y cyhoedd.

**Amod**

**6.2 Rhaid monitro cymeriant bwyd anifeiliaid a (pan fo'n briodol) dŵr, a rhaid cofnodi unrhyw broblemau a mynd i'r afael â hwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid cofnodi annormaledd mewn arferion bwyta a/neu yfed, eu hadrodd i'r aelod priodol o staff a gweithredu arnynt. Rhaid gofyn am gyngor milfeddygol priodol ac amserol os oes angen.
- Rhaid i berson cymwys asesu achos o golli neu ennill pwysau sylweddol. Os na ellir adnabod y rheswm sylfaenol a/neu pan fo mesurau adfer wedi bod yn aflwyddiannus, rhaid i filfeddyg asesu'r anifail. Os yw'n cael ei letya fel rhan o grŵp cymdeithasol, rhaid i'r sefydliad allu ynysu anifail unigol i ganfod a yw'n bwyta ai peidio.
- Ar gyfer mamaliaid bach, moch cwta, cwningod ac adar, os nad oes gwelliant mewn cymeriant bwyd ar ôl i berson cymwys gymryd camau adferol, neu os bydd cyflwr yr anifail unigol yn dirywio, rhaid ymgynghori â milfeddyg yn ddi-oed.

**Amod**

**6.3 Rhaid i'r bwyd anifeiliaid â'r dŵr yfed a ddarperir i'r anifeiliaid fod heb ei ddifetha a heb ei halogi.**

**Canllawiau**

- Rhaid tynnu bwydydd darfodus sydd wedi'u difetha cyn gynted ag y nodir hynny ac o fewn 24 awr i'w cyflenwi.
- Rhaid darparu cyfleusterau oereiddio ar gyfer storio bwyd anifeiliaid. Rhaid storio bwydydd risg uchel (fel cig wedi'i goginio, cig a physgod amrwd, neu gynnyrch llaeth) a gweddillion tuniau neu becynnau a agorwyd mewn cynwysyddion gyda chaead, nad ydynt yn fetel nac yn gollwng, yn yr oergell.

**Amod**

**6.4 Rhaid gallu glanhau a diheintio daliedyddion bwyd anifeiliaid a dŵr yfed, neu rhaid iddynt fod yn rhai untro.**

**Canllawiau**

- Rhaid archwilio powlenni dŵr a bwyd yn ddyddiol, eu glanhau'n ddyddiol fel y bo'n briodol a'u diheintio o leiaf unwaith yr wythnos.

**Amod**

**6.5 Rhaid darparu mynediad parhaus i ddŵr yfed ffres a glân mewn daliedydd addas i'r rhywogaethau sydd ei angen.**

**Canllawiau**

- Rhaid i ddŵr glân ffres fod ar gael bob amser, ac eithrio ar gyfer y rhywogaethau hynny lle gallai fod yn niweidiol, ac yn ystod y cyfnod pontio pan fydd cyflenwadau dŵr yn cael eu newid e.e. pan gaiff poteli dŵr eu tynnu'n rhydd er mwyn eu llenwi.
- Rhaid i boteli dŵr gynnig llif dŵr rhwydd a heb ollyngiadau a rhwystrau. Dylai rhywogaethau cwningod a chnofilod gael powlenni a photeli er mwyn rhoi dewis iddynt.
- Rhaid lleoli dŵr i ffwrdd o'r ardal gysgu i helpu i'w gadw rhag mynd yn llaith neu'n ddwrlawn os bydd y botel yn gollwng.
- Dylid darparu dŵr glân ffres mewn baddon bob dydd i adar ysglyfaethus. Dylid tynnu'r baddon yn ystod tywydd rhewllyd, pan fo'r adar yn cael eu cadw yn yr awyr agored, er mwyn osgoi problemau iechyd.

**Amod**

**6.6 Pan fo bwyd anifeiliaid yn cael ei baratoi ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, rhaid bod cyfleusterau hylan ar gael ar gyfer ei baratoi, gan gynnwys arwyneb gwaith, dŵr rhedegog poeth ac oer a chyfleusterau storio.**

**Canllawiau**

- Rhaid i staff gadw at safonau hylendid personol llym a dylent gydymffurfio ag arferion hylendid da wrth baratoi bwyd, gan roi sylw dyledus i'r risg o groes-halogi rhwng offer, cyfarpar ac arwynebau. Rhaid bod diheintyddion priodol ar gael i lanhau'r man paratoi bwyd yn syth ar ôl ei ddefnyddio.
- Rhaid diogelu bwyd rhag lleithder, dirywiad, llwydni neu o halogiad gan bryfed, adar, fermin neu blâu eraill.
- Rhaid cadw'r man paratoi bwyd yn lân ac yn rhydd o fermin.
- Ni ddylid paratoi bwyd dynol a bwyd anifeiliaid mewn mannau paratoi a rennir ar yr un pryd na defnyddio cyfarpar a rennir.
- Pan ddefnyddir bwyd ffres, rhaid cael cyfleusterau oereiddio.
- Rhaid i staff beidio â defnyddio daliedyddion ar gyfer bwyd a diod at unrhyw ddibenion eraill.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

**Amod**

**7.1 Rhaid cyfoethogi'r amgylchedd mewn ffordd weithredol ac effeithiol i'r anifeiliaid sydd yn unrhyw amgylcheddau dan do ac yn yr awyr agored.**

**Canllawiau**

- Rhaid darparu ategolion cyfoethogi amgylcheddol sy'n ysgogi ymddygiad naturiol fel sy'n briodol i'r rhywogaethau a gedwir. Ni ddylai'r rhain fod â'r potensial i achosi anaf a rhaid eu newid os cânt eu difrodi.

- Fel sy'n briodol i'r rhywogaeth, rhaid newid dyfeisiau cyfoethogi yn rheolaidd er mwyn cyflwyno newydd-deb a chynnal diddordeb. Wrth ychwanegu dyfeisiau cyfoethogi newydd, rhaid i staff sicrhau bod yr anifail yn cael ei fonitro'n ofalus am arwyddion o drallod.
- Rhaid i ategolion fod yn rhai untro neu dylid eu diheintio rhwng defnydd gan wahanol anifeiliaid.

**Amod**

**7.2 O ran rhywogaethau y mae eu lles yn dibynnu'n rhannol ar ymarfer corff, rhaid darparu cyfleoedd ymarfer corff sy'n llesol i iechyd corfforol a meddyliol yr anifeiliaid, oni bai bod cyngor gan filfeddyg yn awgrymu fel arall.**

**Canllawiau**

- Rhaid i anifeiliaid allu arddangos patrymau ymddygiad arferol a gall hynny ofyn am ddarparu lle addas ychwanegol ar gyfer ymarfer corff.
- Rhaid i bob anifail gael ymarfer corff dyddiol, fel sy'n briodol ar gyfer rhywogaethau, oedran, gallu a galluogrwydd corfforol. Dylid caniatáu amser gorffwys i anifeiliaid sy'n ymadfer neu o fewn cyfnod gorffwys neu gwarantîn, a gellir darparu ar gyfer ymarfer corff ar ôl hyn.
- Rhaid darparu cyfleoedd cyfoethogi ychwanegol i anifeiliaid nad ydynt yn gallu cyfranogi mewn ymarfer corff am resymau milfeddygol.

**Amodau**

**7.3 Rhaid monitro ymddygiad yr anifeiliaid ac unrhyw newidiadau o ran eu hymddygiad a rhaid gofyn am gyngor, fel y bo'n briodol ac yn ddi-oed, gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan unrhyw berson sy'n gymwys i roi cyngor o'r fath, os canfyddir ymddygiad andwyol neu annormal.**

**7.4 Pan fônt yn cael eu defnyddio, ni chaniateir i ddulliau hyfforddi neu gyfarpar hyfforddi achosi poen, dioddefaint neu anaf.**

**Canllawiau**

- Rhaid i hyfforddiant fod yn seiliedig ar egwyddorion atgyfnerthu cadarnhaol (h.y. gwobrwyo ymddygiad dymunol ac anwybyddu ymddygiad diangen).

**Amod**

**7.5 Rhaid rhoi cyfleoedd addas a digonol i bob anifail anaeddfed—**

**(a) Dysgu sut i ryngweithio â phobl, â'i rywogaeth ei hun ac ag anifeiliaid eraill pan fo rhyngweithio o'r fath yn fuddiol i'w les, a**

**(b) Ymgynefino â seiniau, gwrthrychau a gweithgareddau yn ei amgylchedd.**

**Canllawiau**

- Os oes budd lles amlwg, rhaid i anifeiliaid ifanc brofi cymdeithasu ac ymarfer corff digonol a phriodol, gan staff sy'n wybodus yn y maes, er mwyn atal ymddygiad ofnus tuag at, er enghraifft, pobl, anifeiliaid, sefyllfaoedd ac amgylcheddau y maent yn debygol o'u profi yn eu bywydau fel anifeiliaid llawndwf.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Amod**

**8.1 Rhaid i'r holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid fod yn gymwys o ran trin pob anifail yn briodol i'w ddiogelu rhag poen, dioddefaint, anaf neu glefyd.**

**Canllawiau**

- Os yw cwsmer neu gleient yn trin anifail, rhaid i aelod cymwys o staff sicrhau bod y rhyngweithio'n briodol a'i atal os yw'r anifail yn dangos arwydd o ofn, dioddefaint neu flinder.
- Rhaid i anifeiliaid a all fod yn ymosodol gael eu trin gan staff cymwys, neu ym mhresenoldeb staff cymwys.
- Rhaid goruchwylio cwsmeriaid, yn enwedig plant, sy'n trin anifeiliaid cyn eu prynu a chynnig cyfleusterau (a gofyn) iddynt lanhau eu dwylo cyn ac ar ôl hynny (e.e. glanweithyddion dwylo). Lle mae halogiad ysgarthol neu wrinol difrifol yn bresennol, rhaid cynnig cyfleusterau i gwsmeriaid olchi eu dwylo.

**Amod**

**8.2 Rhaid cadw'r anifeiliaid ar wahân neu mewn grwpiau cymdeithasol cydnaws addas sy'n briodol i'r rhywogaeth ac i'r anifeiliaid unigol ac ni chaniateir i unrhyw anifeiliaid o rywogaeth gymdeithasol gael eu hynysu na'u cadw ar wahân oddi wrth anifeiliaid eraill o'r un rhywogaeth am unrhyw gyfnod sy'n hwy nag y bo'n angenrheidiol.**

**Canllawiau**

- Lle bo hynny'n briodol, rhaid i bob anifail gael ei gadw mewn grwpiau cymdeithasol o faint addas gyda chyflwyniadau priodol yn cael eu gwneud os bydd cyfansoddiad y grŵp yn newid. Rhaid monitro anifeiliaid sy'n cael eu lletya mewn grŵp am unrhyw arwyddion o darfu ar y grŵp a chymryd camau adferol, a chofnodi'r arwyddion yn ddi-oed.
- Rhesymau derbyniol dros ynysu/gwahanu rhywogaethau cymdeithasol os nad yw camau adferol wedi bod yn llwyddiannus yw risg amlwg o glefyd, anaf neu berygl/straen.
- Pan fo'n briodol i'r rhywogaeth, er mwyn helpu i osgoi toreidiau diangen, rhaid canfod rhyw pob anifail ar unwaith wrth iddynt gyrraedd y fangre a'u cadw mewn grwpiau un rhyw oni bai y byddai hyn yn peryglu lles e.e. torraid o gŵn bach.

**Amod**

**8.3 Rhaid i anifeiliaid gael cyfleoedd o leiaf bob dydd i ryngweithio â phobl pan fo'r rhyngweithio hwnnw yn llesol iddynt.**

**Canllawiau**

- Ni ddylid byth orfodi anifeiliaid i ryngweithio â phobl, a rhaid iddynt gael cyfleuster i osgoi pobl, er enghraifft, y gallu i gyrchu cuddfan, oni bai y byddai hyn yn cael effaith andwyol ar eu lles. Mae rhyngweithio'n cynnwys trin a rhyngweithio nad yw'n gorfforol â phobl.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

**Amod**

**9.1 Rhaid i weithdrefnau ysgrifenedig—**

**(a) Bod yn eu lle ac ar waith o ran—**

**(i) Cyfundrefnau bwydo,**

**(ii) Cyfundrefnau glanhau,**

**(iii) Cludiant,**

**(iv) Atal clefydau a rheoli eu lledaeniad,**

**(v) Monitro a sicrhau iechyd a lles yr holl anifeiliaid,**

**(vi) Anifail yn marw neu yn dianc (gan gynnwys storio carcasau);**

**(b) Bod yn eu lle o ran gofalu am yr anifeiliaid yn dilyn atal dros dro neu ddirymu'r drwydded neu yn ystod argyfwng ac ar ôl argyfwng.**

**Canllawiau**

- Dylai gweithdrefnau ysgrifenedig fod yn gymesur â maint y busnes, ac yn adlewyrchu ei gymhlethdod. Rhaid i'r gweithdrefnau ysgrifenedig fod ar gael i arolygwyr, ac mae'n rhaid i bawb sy'n gyfrifol am ofal yr anifeiliaid fod yn llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.
- Rhaid i'r gweithdrefnau ddangos sut mae'r amodau a amlinellir yn y canllawiau hyn yn cael eu bodloni.

**Amodau**

**9.2 Rhaid sicrhau bod yr holl bobl sy'n gyfrifol am ofalu am yr anifeiliaid yn llwyr ymwybodol o'r gweithdrefnau hyn.**

**9.3 Rhaid i gyfleusterau ynysu priodol, mewn cyfleusterau hunangynhwysol ar wahân, fod ar gael i ofalu am anifeiliaid sâl, anifeiliaid a anafwyd neu anifeiliaid a all fod yn heintus.**

**Canllawiau**

- Rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer ynysu anifeiliaid sâl/wedi'u hanafu/heintus a'r rhai y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt fod yn cario clefydau heintus difrifol.
- Gall cyfleusterau ynysu digonol fod ar y safle neu mewn lleoliad arall, megis milfeddygfa leol, neu drwy newidiadau penodol mewn arferion rheoli a ddangosir gan weithdrefnau ysgrifenedig. Os yw'r cyfleuster ynysu mewn lleoliad arall, megis milfeddygfa leol, rhaid i'r practis ddarparu llythyr yn nodi ei fod yn barod i ddarparu cyfleusterau o'r fath.
- Os oes clefyd heintus yn bresennol mewn mangre, rhaid rhoi gweithdrefnau nyrsio rhwystrol ar waith. Mae hyn yn cynnwys defnyddio dillad amddiffynnol ac esgidiau (pan fo'n berthnasol) a'u newid rhwng llociau; storio offer ar wahân, gan gynnwys cyfarpar glanhau, a gwahanu gwastraff.
- Rhaid cadw anifeiliaid ynysig mewn lleoliad diogel a chyfforddus lle gellir monitro eu cyflwr a'u hanghenion a chadw cofnod o'u triniaeth.
- Ni ddylai anifeiliaid sâl gael eu trin gan aelodau o'r cyhoedd.

**Amod**

**9.4 Rhaid cymryd pob rhagofal rhesymol i atal a rheoli lledaeniad clefydau heintus, pathogenau a pharasitiaid ymhlith yr anifeiliaid ac ymhlith pobl.**

**Canllawiau**

- Rhaid i arwyddion, gwybodaeth am ofal a/neu staff roi gwybod i gwsmeriaid am beryglon trosglwyddo clefydau heintus.
- Rhaid i anifail sy'n dioddef o unrhyw glefyd heintus, neu y gellid amau'n rhesymol ei fod wedi dod i gysylltiad ag anifail arall sy'n dioddef, neu sydd wedi'i heintio'n glinigol â pharasitiaid, beidio â chael ei anfon i'r fangre na'i gadw ar y fangre oni bai ei fod wedi'i ynysu'n effeithiol.

**Amod**

**9.5 Rhaid storio a gwaredu'r holl garthion a'r holl wasarn budr mewn modd hylan ac yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.**

**Canllawiau**

- Rhaid gwaredu carthion a sarn budr o'r fangre yn rheolaidd, o leiaf unwaith yr wythnos, eu gwaredu er boddhad yr awdurdod lleol priodol, ac yn unol â'r rheoliadau cyfredol ac arferion rheoli gwastraff cadarn.
- Rhaid storio'r holl garthion a sarn budr i ffwrdd o ble y cedwir bwyd ac anifeiliaid.

**Amod**

**9.6 Rhaid i anifeiliaid sy'n sâl neu wedi eu hanafu gael sylw prydlon gan filfeddyg neu, yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol, a rhaid dilyn cyngor y milfeddyg hwnnw neu, yn achos pysgod, y person cymwys hwnnw.**

**Canllawiau**

- Rhaid i unrhyw anifail sâl neu anifail sydd wedi'i anafu gael gofal a thriniaeth briodol yn ddi-oed. Dim ond staff neu filfeddygon cymwys a ddylai drin yr anifeiliaid hyn. Gall "gofal a thriniaeth" gynnwys ewthaneiddio.
- Pan fo unrhyw anifail yn dangos unrhyw arwydd o glefyd, anaf neu salwch, rhaid ei gadw ar wahân i'r anifeiliaid eraill. Rhaid ceisio cyngor milfeddygol, neu gyngor person cymwys yn achos pysgod, o fewn 24 awr, oni nodir yn wahanol mewn Atodlenni sy'n benodol i ddosbarthiad. Rhaid i unrhyw gyfarwyddiadau ar gyfer triniaeth gael eu dilyn yn gaeth.

**Amodau**

**9.7 Pan fo'n angenrheidiol, rhaid i anifeiliaid dderbyn triniaeth ataliol gan berson cymwys priodol.**

**9.8 Rhaid i ddeiliad y drwydded gofrestru â milfeddyg sy'n meddu ar lefel briodol o brofiad ym maes gofynion iechyd a lles unrhyw anifeiliaid a bennir yn y drwydded, a rhaid i fanylion cyswllt y milfeddyg hwnnw fod ar gael yn rhwydd i'r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy.**

**Canllawiau**

- Rhaid i enw, cyfeiriad a rhif ffôn cyswllt y practis milfeddygol a ddefnyddir gan y sefydliad, gan gynnwys y ddarpariaeth y tu allan i oriau, fod ar gael yn rhwydd i bob aelod o staff.

- Os oes diffyg arbenigedd milfeddygol lleol o ran y dosbarthiad sy'n cael ei werthu, yna rhaid i bractis milfeddygol eilaidd cymwys roi cymorth i'r practis sylfaenol yn ôl y gofyn.

**Amod**

**9.9 Rhaid storio meddyginiaethau ar bresgripsiwn yn saff ac yn ddiogel er mwyn eu diogelu rhag mynediad heb awdurdod, ar y tymheredd cywir, a rhaid iddynt gael eu defnyddio yn unol â chyfarwyddiadau'r milfeddyg.**

**Canllawiau**

- Rhaid i unrhyw feddyginiaeth ar bresgripsiwn a roddir gael ei ragnodi ar gyfer yr anifail unigol gan filfeddyg, a rhaid cofnodi pob achos ble caiff ei ddefnyddio.

**Amodau**

**9.10 Rhaid i feddyginiaethau ac eithrio meddyginiaethau ar bresgripsiwn gael eu storio, eu defnyddio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr neu'r milfeddyg.**

**9.11 Rhaid i gynnyrch glanhau fod yn addas, yn ddiogel ac yn effeithiol yn erbyn pathogenau sy'n peri risg i'r anifeiliaid, a rhaid iddynt gael eu defnyddio, eu storio a'u gwaredu yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a'u defnyddio mewn ffordd sy'n atal gofid neu ddioddefaint i'r anifeiliaid.**

**Canllawiau**

- Rhaid ystyried cydnawsedd gwahanol facterleiddiaid, ffwngladdwyr a firwsleiddiaid (os cânt eu defnyddio gyda'i gilydd a/neu gyda glanedydd).
- Rhaid dilyn canllawiau argymelledig y gwneuthurwyr ar gyfer eu defnyddio, eu gwanedu'n gywir a'u hamser cyswllt o ran eu defnydd mewn gweithdrefnau glanhau a diheintio.
- Rhaid glanhau a diheintio unrhyw gyfarpar a ddefnyddiwyd ar anifail heintus, neu anifail sy'n cael ei amau o fod yn heintus, ar ôl ei ddefnyddio.

**Amod**

**9.12 Ni chaniateir i unrhyw berson ewthaneiddio anifail ac eithrio milfeddyg neu berson a awdurdodwyd gan filfeddyg yn berson cymwys at y diben hwnnw neu—yn achos pysgod, person sy'n gymwys at y diben hwnnw;**

**Canllawiau**

- Os nad yw ewthanasia yn cael ei gynnal gan filfeddyg, neu o dan ei oruchwyliaeth uniongyrchol, rhaid cofnodi'r rhesymeg dros ewthaneiddio'r anifail, y dull a ddefnyddiwyd a'r aelod o staff a gyflawnodd yr ewthaneiddio, a sicrhau bod y cofnodion hynny ar gael mewn arolygiadau dilynol. Nid yw hyn yn berthnasol i bysgod.
- Pan fo deiliad trwydded yn bridio neu'n prynu anifeiliaid fertebraidd byw sydd i'w hewthaneiddio er mwyn eu bwydo i stoc arall a gedwir ar y fangre, rhaid i'r dull ewthaneiddio gael ei asesu gan filfeddyg a rhaid iddo gymeradwyo ei foddhad bod y dull yn un heb boen ac yn effeithiol, a'i fod yn parhau felly. Rhaid i'r dull ewthaneiddio fod yn ddiogel a heb boen i'r anifail sy'n cael ei ddifa a'r anifail sy'n cael ei fwydo.

- Ni chaiff anifail ei ewthaneiddio o dan unrhyw amgylchiadau ac eithrio mewn modd heb boen ac effeithiol. Os oes amheuaeth ynghylch dulliau lladd heb boen ac effeithiol, rhaid gofyn am gyngor milfeddygol.

**Amod**

**9.13 Rhaid archwilio pob anifail o leiaf unwaith bob dydd, ac yn fwy rheolaidd fel y bo'n angenrheidiol i chwilio am unrhyw arwyddion poen, dioddefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid archwilio anifeiliaid hyglwyf yn fwy aml.**

**Canllawiau**

- Ni ddylai gwiriadau achosi straen nac aflonyddwch diangen. Mae gwiriadau gweledol yn dderbyniol.
- Rhaid cynnal system o gofnodi unrhyw annormaledd.
- Lle bo angen ar gyfer rhywogaethau penodol, rhaid gwirio anifeiliaid sy'n agored i niwed, megis anifeiliaid ifanc, anifeiliaid sy'n esgor, anifeiliaid sâl neu anifeiliaid wedi'u hanafu, yn amlach na'r isafswm o unwaith bob dydd.

**9.14 Rhaid cofnodi unrhyw arwyddion poen, dioddefaint, anafiadau, clefydau neu ymddygiad annormal, a rhaid gofyn am gyngor, a chyngor pellach (os oes angen) gan filfeddyg (neu yn achos pysgod, gan berson cymwys priodol) a dilyn y cyngor hwnnw.**

## 10.0 Argyfyngau

**Amod**

**10.1 Rhaid i gynllun argyfwng ysgrifenedig sy'n dderbyniol i'r awdurdod lleol fod yn ei le, yn hysbys ac ar gael i'r holl staff ar y fangre lle y cynhelir y gweithgaredd trwyddedadwy, a rhaid dilyn y cynllun hwnnw pan fo'n angenrheidiol i sicrhau y cymerir camau priodol i ddiogelu yr holl bobl ac anifeiliaid ar y fangre yn achos tân neu pe bai systemau gwresogi, awyru ac awyriad neu hidlo hanfodol yn torri i lawr, neu argyfyngau eraill yn codi.**

**Canllawiau**

- Rhaid i'r staff fod yn ymwybodol o'r gweithdrefnau argyfwng a rhaid arddangos copi er mwyn i'r staff gyfeirio ato yn ôl yr angen.
- Rhaid i gynlluniau ymateb brys addas gynnwys trefniadau ar gyfer gwacáu'r adeilad, lletya, hwsmonaeth a cholli pŵer/dŵr mewn argyfwng. Rhaid i'r drefn adael mewn argyfwng nodi sut a pha ffordd y dylai anifeiliaid, staff a'r cyhoedd adael y sefydliad, nodi mannau ymgasglu dynodedig mewn achos o dân, mannau dal dynodedig ar gyfer anifeiliaid a pha anifeiliaid sy'n gallu ac nad sy'n gallu gadael (megis acwaria a phyllau).
- Rhaid ystyried defnyddio systemau a fyddai'n caniatáu i'r anifeiliaid gael eu symud yn brydlon mewn argyfwng. Lle y gallai argyfyngau beryglu bywyd, rhaid peidio â rhoi pobl mewn perygl wrth geisio achub anifeiliaid.
- Rhaid i gynlluniau argyfwng hefyd gynnwys ystyried rheoli parhad busnes gan gynnwys camau i'w cymryd yn achos methiant cymorth bywyd, torri pŵer neu fethiannau cyfleustodau eraill a fydd yn cael effaith uniongyrchol ar les anifeiliaid.

- Rhaid ymarfer driliau argyfwng yn rheolaidd a chofnodi arferion, gydag unrhyw fethiannau yn cael eu nodi fel bod y gweithdrefnau'n gallu mynd i'r afael â hwy. Rhaid cynnal driliau o leiaf unwaith y flwyddyn, neu fel sy'n cael ei bennu gan asesiadau risg tân.
- Rhaid i'r holl staff gael hyfforddiant rheolaidd a rhaid cadw cofnodion o hyfforddiant o'r fath. Rhaid i ddigon o staff enwebedig gael eu hyfforddi'n briodol ar ddefnyddio'r offer a ddarperir.
- Rhaid i'r cynllun argyfwng gynnwys rhestr o unrhyw rywogaethau rhestredig ar Atodlen bresennol y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus a gedwir ar y safle, pan fo hynny'n berthnasol, a'r cynllun gweithredu penodol ar gyfer eu symud yn ddiogel a'u hail-letya ar fyrder mewn argyfwng.
- Rhaid i Fynedfeydd ac Allanfeydd Tân fod yn glir o rwystrau bob amser.
- Rhaid i bob gosodiad trydanol gael ei osod gan bersonau â'r cymwysterau priodol a'u cynnal a'u cadw mewn cyflwr diogel; a'u lleoli yn y fath fodd fel nad ydynt yn peri risg. Rhaid cael cynllun wrth gefn effeithiol ar gyfer systemau gwresogi, awyru ac awyru/hidlo hanfodol, fel y bo'n briodol.
- Rhaid cadw'r holl offer mewn cyflwr da a'i wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Rhaid darparu, cynnal, gwasanaethu a lleoli offer diffodd, atal a chanfod tân yn rheolaidd, a'u lleoli'n unol â chyngor y swyddog diogelu/atal tân lleol a'u cymeradwyo gan yr awdurdod lleol.

**Amodau**

**10.2 Rhaid i'r cynllun gynnwys manylion y camau sydd i'w cymryd mewn argyfwng i fynd â'r anifeiliaid ymaith pe bai'r fangre yn mynd i gyflwr nad yw'n addas i fyw ynddo, a rhestr o rifau ffôn mewn argyfwng sy'n cynnwys y gwasanaeth tân a'r heddlu.**

**10.3 Rhaid i ddrysau a gatiau allanol fod yn gloadwy.**

**10.4 Rhaid i ddeiliad allweddi dynodedig sydd â mynediad i'r holl fannau i anifeiliaid ar bob adeg fod o fewn pellter teithio rhesymol i'r fangre ac ar gael i fod yn bresennol mewn argyfwng.**

**Canllawiau**

- Byddai pellter rhesymol, o dan amodau arferol, yn cael ei ddehongli fel dim mwy na hanner awr o amser teithio.
- Pan fydd y fangre drwyddedig wedi'i lleoli mewn mangre arall, rhaid i'r trwyddedai neu ddeiliaid allweddi gael mynediad bob amser i'r fangre sy'n cynnwys yr anifeiliaid.

# Rhan B – Amodau Penodol: Gwerthu anifeiliaid fel anifeiliaid anwes (Atodlen 3 i'r Rheoliadau)

## 2.0 Cofnodion a Hysbysebion

**Amod**

**2.1 Rhaid cadw cofrestr o'r holl anifeiliaid, neu yn achos pysgod, yr holl grwpiau o bysgod, ar y fangre, a rhaid iddi gynnwys—**

**(a) Enw llawn cyflenwr yr anifail,**
**(b) Rhyw yr anifail (pan fo'n hysbys),**
**(c) (Ac eithrio yn achos pysgod) oedran yr anifail (pan fo'n hysbys),**
**(d) Manylion unrhyw driniaeth filfeddygol (pan fo'n hysbys),**
**(e) Dyddiad geni'r anifail neu, os caffaelwyd yr anifail gan ddeiliad y drwydded, dyddiad ei gaffael,**
**(f) Dyddiad gwerthu'r anifail gan ddeiliad y drwydded, a**
**(g) Dyddiad marwolaeth yr anifail (os yw'n gymwys).**

**Canllawiau**

- Gall y gofrestr fod yn ddogfen bwrpasol annibynnol neu'n gasgliad o anfonebau a derbynebau prawf o werthiant sy'n caniatáu cynrychiolaeth gywir o gaffaeliadau a gwerthiannau. Gall hon fod yn system ganolog, ond rhaid gallu ei chyrchu ar y safle. Gellir cofnodi marwolaethau fel rhan o gofnodion arsylwi dyddiol neu fel dogfen annibynnol. Yn ogystal, rhaid cofnodi'r camau a gymerwyd yn dilyn unrhyw farwolaeth anarferol. Ar gyfer pysgod, dylid cofnodi marwolaethau pan fydd marwolaethau'n fwy na 5% o'r anifeiliaid ar y safle, dros gyfnod o 24 awr. Mae'r gofrestr hon yn gyfrinachol a rhaid ei hadolygu ar y safle ac ni ddylid ei dileu fel mater o drefn.
- Rhaid i'r gofrestr gynnwys digon o fanylion i alluogi adnabod ffynhonnell (h.y. cyflenwr) yr anifeiliaid.
- Rhaid i'r gofrestr fod ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod priodol.

**Amod**

**2.2 Pan fo anifail yn cael unrhyw driniaeth feddygol—**

**(a) Rhaid nodi'r ffaith honno yn glir—**

**(i) Yn ysgrifenedig nesaf ato, neu**

**(ii) (pan fo'n briodol) drwy ei labelu yn unol â hynny, a**

**(b) ni chaniateir ei werthu**

**Canllawiau**

- Ni ddylid cynnig i'w werthu unrhyw anifail ag annormaledd a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar ansawdd ei fywyd. Mewn achosion lle mae anifeiliaid yn cael eu trin a'i fod er eu lle gorau i aros yn eu lloc, gallant barhau i gael eu harddangos ond rhaid eu marcio'n glir fel rhai sy'n cael eu trin.
- Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid gofyn am gyngor milfeddygol.

- Pan fo triniaeth yn cael ei rhoi fel rhan o unrhyw brotocolau meddyginiaeth ataliol ac nad oes unrhyw glefyd hysbys na chysylltiad hysbys ag anifeiliaid sydd wedi'u heintio, yna nid yw'r anifail yn cael ei ystyried yn anifail sy'n derbyn triniaeth e.e. triniaeth llyngyr fel rhan o bolisïau derbyn caffaeliadau newydd.

**Amod**

**2.3 Rhaid i unrhyw hysbyseb ar gyfer gwerthu anifail—**

**(a) Cynnwys rhif trwydded deiliad y drwydded,**

**(b) Pennu'r Awdurdod Lleol a ddyroddodd y drwydded,**

**(c) Cynnwys ffotograff adnabyddadwy o'r anifail sy'n cael ei hysbysebu,**

**(d) (Ac eithrio yn achos pysgod) dangos oedran yr anifail sy'n cael ei hysbysebu,**

**(e) Datgan ym mha wlad y mae'r anifail yn byw ac y mae'n cael ei werthu ohoni, a**

**(f) Datgan y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni.**

**Canllawiau**

- Mae hysbyseb yn cyfeirio at y rhai hynny a ddefnyddir i hysbysebu anifail i'r cyhoedd. Nid yw'n cynnwys gwerthiannau mewnol mewn siop na gwerthiannau busnes i fusnes.
- Ar gyfer cŵn a chathod, rhaid defnyddio ffotograff penodol. Ar gyfer rhywogaethau eraill, ystyrir bod ffotograff stoc o'r rhywogaeth yn dderbyniol.
- Rhaid i'r wlad wreiddiol gyfeirio at wlad geni'r anifail penodol. Lle nad yw hyn yn hysbys, gall fod yn wlad allforio'r anifail penodol.

## 3.0 Darpar werthiannau: gofal anifeiliaid anwes a chyngor ynghylch hynny

**Amod**

**3.1 Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod unrhyw gyfarpar ac ategolion sy'n cael eu gwerthu gydag anifail yn addas i'r anifail.**

**Canllawiau**

- Rhaid i unrhyw gyngor ynglŷn â maint llety grybwyll meintiau mwy na'r isafswm a amlinellir yn y ddogfen hon. Dylai cyngor ar faint lloc gynrychioli neu ragori ar y safonau uwch presennol, fel y rhestrir yn yr atodlenni penodol i rywogaethau isod pan werthir anifail fel gwerthiant busnes i'r cyhoedd.
- Rhaid i staff allu rhoi'r cyngor cywir ynghylch addasrwydd eitemau sy'n cael eu gwerthu ar y fangre.

**Amod**

**3.2 Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei darparu i'r darpar berchennog ar ofal priodol yr anifail gan gynnwys mewn perthynas â—**

**(a) Bwydo,**

**(b) Llety,**

**(c) Trin,**

**(d) Hwsmonaeth,**

**(e) Disgwyliad oes ei rywogaeth,**

**(f) Darparu ategolion addas, a**

**(g) Gofal milfeddygol.**

**Canllawiau**

- Dylai staff roi arweiniad i ddarpar brynwyr ar y rhywogaeth a/neu'r brîd mwyaf priodol o anifail anwes ar eu cyfer, yn seiliedig ar rai cwestiynau priodol am ffordd o fyw ac amgylchiadau'r darpar berchennog (e.e. a oes gan y prynwr ddealltwriaeth ymarferol o'r costau cysylltiedig tebygol a'r ymrwymiad amser ar gyfer gwahanol fathau o anifeiliaid anwes). Yn ogystal ag amlinellu'r Pump o Anghenion Lles, rhaid i daflenni gofal anifeiliaid anwes neu gyfarwyddiadau ysgrifenedig neu electronig tebyg eraill sy'n cael eu dosbarthu yn y man gwerthu i'r cyhoedd, annog perchnogaeth anifeiliaid anwes gyfrifol ac yn ddelfrydol gyfeirio at rwymedigaethau perchennog yn unol â Deddf Lles Anifeiliaid (2006). Mae gan staff yr hawl i wrthod gwerthu os ydynt yn pryderu a/neu os nad ydynt yn fodlon hyd eithaf eu gwybodaeth bod y darpar berchennog yn debygol o allu diwallu anghenion lles yr anifail hwnnw.
- Rhaid rhoi cyngor ar ficrosglodynnu.

**CŴN**

- Rhaid i hyn gynnwys cyngor ar ddiweddaru cofrestru microsglodyn, brechiadau, cymdeithasu a sbaddu. Rhaid darparu amserlen fwydo drosiannol hefyd sy'n dangos y gymhareb o ddydd i ddydd os yn newid deiet cŵn bach i fwyd gwahanol.
- Rhaid darparu contract cŵn bach a phecyn gwybodaeth cŵn bach yn y man gwerthu.

**Safon Uwch**

Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y gronfa ddata microsglodynnu yn cael ei diwygio gyda manylion prynwr y ci bach.

**CATHOD**

- Rhaid i hyn gynnwys cyngor ar frechiadau, cymdeithasu a sbaddu. Rhaid darparu amserlen fwydo drosiannol hefyd sy'n dangos y gymhareb o ddydd i ddydd os yw deiet cathod bach yn cael ei newid i fwyd gwahanol.

**Safon Uwch**

Rhaid i ddeiliad y drwydded ddarparu'r rhestr wirio cathod bachyn y man gwerthu.

**CWNINGOD**

- Ni ddylai cwningod gael eu gwerthu na'u cadw ar eu pen eu hunain. Rhaid i ddeiliad y drwydded a/neu staff ofyn a yw'r prynwr yn berchen ar anifail addas o'r un rhywogaeth ac os nad ydyw, dylid ei annog i brynu un .

**FFUREDAU**

- Rhaid i hyn gynnwys cyngor ar frechiadau, cymdeithasu a rheoli atgenhedlu.

**YMLUSGIAID**

- Rhaid rhoi cyngor ar amodau amgylcheddol.

**Amod**

**3.3 Rhaid i ddeunyddiau cyfeirio priodol ynghylch gofal yr holl anifeiliaid sydd ar werth gael eu harddangos a'u darparu i'r darpar berchennog.**

**Canllawiau**

- Rhaid sicrhau bod taflenni gofal anifeiliaid anwes neu wybodaeth ysgrifenedig neu electronig debyg arall ar gael i gwsmeriaid yn rhad ac am ddim ar adeg eu prynu, yn ogystal ag unrhyw gynnig i brynu llyfrau neu daflenni gofal anifeiliaid anwes. Gall gwybodaeth fod ar ffurf Codau Ymarfer a gyhoeddir gan lywodraethau a gall hefyd fod ar gael yn electronig.

**Amodau**

**3.4 Rhaid bod deiliad y drwydded a'r holl staff wedi cael hyfforddiant addas i roi cyngor i ddarpar berchnogion ynghylch yr anifeiliaid sy'n cael eu gwerthu.**

**3.5 Rhaid i ddeiliad y drwydded a'r holl staff sicrhau bod y prynwr yn cael ei hysbysu ynghylch y wlad y mae'r anifail yn tarddu ohoni a'i rywogaeth, a phan fo'n hysbys, oedran, rhyw a chofnod milfeddygol yr anifail sy'n cael ei werthu.**

**Canllawiau**

- Rhaid i hyn hefyd gynnwys a oedd yr anifail wedi'i ddal yn wyllt (ar gyfer rhywogaethau lle nad yw hyn wedi'i raddol ddiddymu) neu wedi'i fridio'n gaeth, lle bo hynny'n hysbys.

## 4.0 Llety addas

**Amod**

**4.1 Rhaid cadw anifeiliaid mewn llety sy'n lleihau straen, gan gynnwys straen a achosir gan anifeiliaid eraill a'r cyhoedd.**

**Canllawiau**

- Rhaid i ddyluniad a chynllun y fangre ganiatáu i anifeiliaid allu rheoli eu gallu i weld eu hamgylchedd ac anifeiliaid mewn llociau eraill. Dylai hefyd leihau nifer yr anifeiliaid y mae staff yn tarfu arnynt wrth dynnu unrhyw anifail unigol o'r fangre.
- Rhaid cymryd gofal i osgoi cyswllt synhwyraidd rhwng rhywogaethau ysglyfaeth a rhywogaethau ysglyfaethus.

**Amod**

**4.2 Pan fo aelodau o'r cyhoedd yn gallu gweld yr anifeiliaid neu ddod i gysylltiad â hwy, rhaid bod arwyddion wedi eu gosod i annog pobl i beidio ag aflonyddu ar yr anifeiliaid.**

**Canllawiau**

- Os yw anifeiliaid yn cael eu harddangos yn gyhoeddus, rhaid arddangos arwyddion ar lociau i atal aelodau o'r cyhoedd rhag taro'r gwydr neu wthio'u bysedd i mewn i gewyll.
- Rhaid i arwyddion clir fod ar waith bob amser yn amlinellu risg iechyd a diogelwch i gwsmeriaid ac ymddygiad priodol o amgylch anifeiliaid ar y safle sy'n berthnasol i'r rhywogaethau penodol. Yn ogystal ag arwyddion, hwyrach y bydd angen mesurau eraill, megis cyfyngu mynediad i rai ochrau o lociau anifeiliaid.

**Amod**

**4.3 Rhaid cadw anifeiliaid gwyllt peryglus (os oes rhai) mewn caetsys sy'n ddiogel ac y gellir eu cloi ac sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth.**

**Canllawiau**

- Wrth ystyried rhywogaethau a restrir ar yr Atodlen Deddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus (DWAA), rhaid i ddeiliaid trwydded allu dangos bod diogelwch staff a'r cyhoedd wedi'i ystyried wrth ddylunio'r llociau, dyluniad y fangre lle cedwir yr anifeiliaid, ac wrth ddylunio unrhyw rwystrau diogelwch a allai fod yn bresennol. Rhaid i'r dyluniad ddangos hefyd fod atal dianc wedi'i ystyried.
- Rhaid i ddeiliaid trwydded sy'n gwerthu anifeiliaid ar yr Atodlen i'r DWAA hysbysu'r prynwr bod angen trwydded arnynt o dan y DWAA a hefyd rhoi gwybod i'r awdurdod dyroddi am fanylion y pryniant.
- Er bod siopau anifeiliaid anwes wedi'u heithrio o'r DWAA, rhaid ystyried cydymffurfio ag unrhyw ofyniad(au) arbennig a bennir yn y DWAA ar gyfer llety diogel a gofal unrhyw anifail a restrir yn y DWAA.

## 5.0 Gwerthu anifeiliaid

**Amod**

**5.1 Ni chaniateir i unrhyw anifail o'r disgrifiadau a ganlyn gael ei werthu fel anifail anwes, neu ei werthu gyda'r bwriad o'i ailwerthu fel anifail anwes, gan ddeiliad y drwydded neu ar ei ran—**

**(a) mamaliaid heb eu diddyfnu;**

**(b) mamaliaid a diddyfnwyd ar oedran na ddylent fod wedi eu diddyfnu arno;**

**(c) anifeiliaid nad ydynt yn famaliaid nad ydynt yn gallu bwydo eu hunain;**

**(d) cŵn bach, cathod bach, ffuredau neu gwningod iau nag 8 wythnos oed;**

**(e) cŵn bach neu gathod bach nad oeddent wedi eu bridio gan ddeiliad y drwydded yn y fangre.**

**Ni ddylid gwerthu anifeiliaid beichiog.**

**Canllawiau**

- Rhaid i gŵn, cathod a ffuredau aros gyda'u mam am wyth wythnos gyntaf eu bywyd oni bai bod y fam yn marw neu fod perygl i iechyd yr epil wrth aros gyda hi. Lle bo angen, gall milfeddyg a/neu ymddygiadwr anifeiliaid clinigol cymwys ardystio ei bod er lles pennaf yr anifail i'w symud yn gynharach.
- Ni ddylid gwerthu cŵn, cathod, cwningod na ffuredau beichiog hyd nes eu bod wedi cael eu hepil a bod yr epil yn wyth wythnos oed.
- Dim ond eu bridiwr all werthu cŵn bach a chathod bach ar y fangre. Rhaid i'r bridiwr fod yr un unigolyn penodol â deiliad y drwydded ar y drwydded gwerthu anifeiliaid anwes.
- Er mwyn dangos ei fod wedi bridio'r anifeiliaid, rhaid i ddeiliad y drwydded allu dangos tystiolaeth bod ganddo reolaeth dros y penderfyniadau a wnaed ar gyfer y broses atgenhedlu gyflawn o ddethol mam/tad, beichiogi, y cyfnod cario, i'r esgor.
- Rhaid dangos cofnodion unrhyw baru i'r arolygydd, gan gynnwys lleoliad paru/ffrwythloni (gan gynnwys lle y gallai hyn fod wedi digwydd mewn mangre arall), manylion adnabod y tad (lle y bo'n hysbys), yn ogystal â dangos sut a ble cafodd yr anifeiliaid eu geni, eu magu a'u cadw nes eu gwerthu.
- Y disgwyl yw y bydd darpar brynwyr yn gofyn am gael gweld yr epil gyda'r fam cyn gwneud unrhyw benderfyniadau prynu, a dylai'r arolygydd hefyd weld y fam a'r epil yn yr amgylchedd a fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer darpar brynwyr.
- Gall deiliaid trwydded ddarparu tystiolaeth ategol arall fel ffotograffau, cofnodion microsglodynnu a chofnodion milfeddygol i ddangos eu bod wedi rhoi llety a gofal i'r anifail a'i fam am 8 wythnos gyntaf ei fywyd.

**Amod**

**5.2 Rhaid cwblhau gwerthiant ci yng ngŵydd y prynwr ar y fangre.**

## 6.0 Diogelu rhag poen, dioddefaint, anafiadau a chlefydau

**Amod**

**6.1 Rhaid i'r holl anifeiliaid sydd ar werth fod mewn cyflwr da o ran eu hiechyd.**

**Canllawiau**

- Rhaid caniatáu i anifeiliaid ymgynefino cyn cael eu cynnig i'w gwerthu. Pan gaiff anifeiliaid eu caffael i'w gwerthu i gleient penodol, gall fod yn dderbyniol i'r anifail gael ei werthu ar unwaith.

**Tabl 1 Cyfnodau ymgynefino**

| **Rhywogaethau neu grŵp** | **Cyfnod ygynefino addas** |
|---|---|
| Cwningod | 2-3 diwrnod |
| Moch cwta | 2-3 diwrnod |
| Tsintsilaod | 2-3 diwrnod |
| Mamaliaid bach | 1-2 diwrnod |
| Adar | Bwydo ac ymddwyn yn ôl arfer y rhywogaeth |
| Ymlusgiaid ac amffibiaid | Bwydo ac ymddwyn yn ôl arfer y rhywogaeth |
| Pysgod | Bwydo ac ymddwyn yn ôl arfer y rhywogaeth |

**Safon Uwch**

- Dylid cwblhau rhestr wirio iechyd a chadw cofnod ohoni yn ddyddiol, ac mae'n rhaid iddi gwmpasu materion corfforol, seicolegol ac ymddygiadol ac unrhyw annormaledd a gofnodir.

**Amodau**

**6.2 Ni chaniateir i unrhyw anifail sydd â chyflwr sy'n debygol o effeithio ar ansawdd ei fywyd gael ei symud, ei drosglwyddo neu ei gynnig ar werth, ond caniateir ei symud i gyfleuster ynysu neu gyfleuster gofal milfeddygol os yw hynny'n angenrheidiol hyd nes i'r anifail wella.**

**6.3 Wrth drefnu i dderbyn anifeiliaid, rhaid i ddeiliad y drwydded wneud ymdrechion rhesymol i sicrhau y cânt eu cludo mewn dull addas.**

**6.4 Rhaid cludo anifeiliaid neu eu traddodi i brynwyr mewn cynwysyddion addas ar gyfer y rhywogaeth a hyd disgwyliedig y daith.**

# Rhan C – Cŵn

## 4.0 Staffio

- Rhaid cael digon o staff i fwydo a chymdeithasu cŵn bach bob 4-5 awr ac o leiaf 4 gwaith dros gyfnod o 16 awr.
- Ni ddylid gadael cŵn am gyfnodau hir heb gael eu hasesu. Rhaid gwirio cŵn bob 4 awr o leiaf yn ystod y diwrnod gwaith, neu'n amlach fel sy'n angenrheidiol ar gyfer iechyd, diogelwch a lles pob ci, ac o leiaf unwaith yn ystod y cyfnod dros nos a'r tu allan i oriau gwaith arferol.

**Safon Uwch**

- Rhaid cael digon o staff i gynnal gwiriadau mwy rheolaidd/amlach nag sydd eu hangen o dan y safon ofynnol.

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Atal perygl o anaf, salwch a dianc**

- Rhaid i'r rhaniadau rhwng cytiau cŵn ac ardaloedd ymarfer corff unigol fod o adeiladwaith cadarn ac yn ddigon uchel i atal cyswllt trwyn i drwyn.
- Rhaid i ddrysau cytiau cŵn fod yn ddigon cryf i wrthsefyll effaith cnoi a chrafu, a rhaid iddynt allu cael eu diogelu'n effeithiol.
- Rhaid i unedau ac ardaloedd ymarfer corff agor ar goridorau diogel neu ardaloedd diogel eraill. Ni ddylid defnyddio'r coridorau hyn fel ardal ymarfer corff. Rhaid i bob ffenestr fod yn ffenestr gwrth-ddianc.
- Rhaid i bren fod o ansawdd da, wedi'i gadw'n dda a bod unrhyw rannau sydd wedi'u difrodi yn cael eu selio neu eu gorchuddio. Rhaid i bren fod yn llyfn ac wedi'i drin, a'i gynnal yn briodol i'w wneud yn anhydraidd.
- Rhaid i'r lloriau fod ag arwyneb solet gwrth-lithro.
- Rhaid osgoi agorfeydd mawr er mwyn datgloi drws. Rhaid i fylchau neu agorfeydd fod yn ddigon bach i atal pen ci rhag mynd trwyddo, neu i gaethiwo unrhyw goes neu ran o'r corff. Er mwyn amddiffyn rhag caethiwo, rhaid i sffêr 50mm fethu pasio trwy unrhyw fwlch o'r fath, neu sffêr llai os yw hynny'n briodol.
- Rhaid i bob rhwyll/ffens wifrog fod yn gryf ac yn anhyblyg ac mewn cyflwr da i ddarparu strwythur gwrth-ddianc a gwrthdyllu. Pan ddefnyddir bariau metel a/neu rwyll a/neu fframiau, rhaid iddynt fod o fesur addas (lleiafswm diamedr o 2mm, tua mesur Safon 14 Prydain) gyda digon o le i atal cŵn rhag dianc neu fynd yn gaeth.
- Rhaid adeiladu agoriadau drysau yn y fath fodd fel nad yw llif dŵr/gwastraff yn cael ei rwystro, nag yn cronni oherwydd anhygyrchedd.
- Rhaid i ddraeniad fod yn effeithiol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw hylifau'n sefyll nac yn cronni. Cynghorir graddiant lleiaf o 1:80 i ganiatáu i ddŵr lifo ymaith. Ni ddylai dŵr gwastraff redeg i mewn i lociau/unedau cŵn cyfagos. Rhaid darparu sianeli draenio fel na chaniateir i wrin lifo dros barthau cerdded mewn coridorau ac

ardaloedd mynediad cymunedol. Ni ddylai'r cŵn sy'n cael eu lletya yn yr unedau cŵn gael mynediad i'r sianeli draenio.

- Rhaid i unrhyw gaeadau draeniau mewn ardaloedd sy'n agored i gŵn gael eu dylunio a'u lleoli i atal pawennau/crafangau rhag cael eu bachu.
- Rhaid i bob uned fod ag isafswm uchder pen o 2.0m a rhaid eu cynllunio i alluogi staff i gyrraedd y cŵn a glanhau pob rhan o'r uned yn ddiogel. Lle nad yw hyn yn ymarferol, rhaid cael gweithdrefn wedi'i chofnodi ar waith i ddangos diogelwch y staff.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau**

- Rhaid monitro cŵn i weld a ydynt yn rhy boeth neu'n rhy oer. Os yw ci unigol yn dangos arwyddion o anoddefiad gwres neu oerfel, rhaid cymryd camau i sicrhau lles y ci.
- Rhaid i gi allu symud ei hun o ffynhonnell wres uniongyrchol.
- Gall sŵn cŵn eraill yn cyfarth gael effaith niweidiol ar gŵn, yn enwedig cŵn bach. Rhaid lleoli cŵn o dan flwydd oed yn ardal dawelaf y fangre.
- Rhaid i ardal y cytiau cŵn fod yn ddigon mawr i ganiatáu ardaloedd cysgu ac ardaloedd gweithgareddau ar wahân. Rhaid i'r cytiau cŵn ganiatáu i bob ci allu cerdded, troi o gwmpas a siglo ei gynffon heb gyffwrdd ochrau'r cwt. Rhaid i'r cŵn gael digon o le i chwarae, sefyll ar eu coesau ôl a gorwedd heb gyffwrdd â chi arall. Bydd maint y cytiau cŵn sydd eu hangen yn cynyddu mewn perthynas â maint a nifer y cŵn sy'n cael eu lletya ar unrhyw un adeg. Rhaid i'r hyd a'r lled fod yn ddigonol i ganiatáu i'r holl gŵn orwedd ar eu hyd heb i'w trwynau na'u cynffonnau gyffwrdd â'r waliau neu gi arall.
- Rhaid i gŵn gael mynediad rhydd i'r ardal weithgareddau bob amser. Mewn rhai amgylchiadau, caniateir cael ardaloedd gweithgareddau ar wahân i ardaloedd cysgu ond mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi mynediad i gŵn i'r ardal weithgareddau yn rheolaidd, o leiaf bedair gwaith y dydd. Rhaid i unrhyw ardal weithgaredd ar wahân gael ei glanhau a'i diheintio'n llawn rhwng ei defnyddio gan wahanol grwpiau o gŵn.
- Lle cedwir cŵn llawndwf, rhaid i ardal ymarfer corff awyr agored fod ar gael ar gyfer mynd i'r toiled ac ymarfer corff. Rhaid i'r ardal fod yn ddiogel ac yn wrth-ddianc er mwyn caniatáu gweithgarwch oddi ar dennyn.
- Rhaid cadw cŵn bach mewn grwpiau torraid, ond dylent fod â'r gallu i symud oddi wrth gyd-aelodau o'r dorraid.
- Rhaid i gŵn a gedwir mewn mangre ddomestig gael mynediad rhydd i o leiaf un ystafell, ar yr amod bod maint yr ystafell hon yn bodloni'r meintiau lloc lleiaf ar gyfer cŵn.
- Rhestrir isafswm meintiau cytiau cŵn yn nhabl C-01. Rhaid darparu dwywaith y lwfans gofod i eist â thorraid. Wrth i gŵn bach dyfu, rhaid cynyddu'r lle sydd ar gael iddynt yn unol â hynny.

**Safonau Uwch**

- Rhaid i arwynebedd y llawr fod o leiaf 1.5 gwaith yn fwy na'r isafswm gofynnol.

- Rhaid darparu dyluniad a chynllun i gŵn sy'n rhoi dewis iddynt. Dylid darparu ardaloedd ar wahân ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys llwyfannau ar lefelau gwahanol, er enghraifft.
- Rhaid i'r awyru fod yn system aer reoledig, sefydlog neu gludadwy i sicrhau bod tymheredd priodol yn cael ei gynnal ym mhob tywydd. Gall hyn fod yn uned aerdymheru neu'n ddefnydd o wyntyllau symudol.

**Sarn ac is-haen**

- Rhaid darparu gwelyau a sarn, a rhaid iddynt fod yn addas i ganiatáu i gŵn fod yn gyfforddus. Rhaid i wely ci fod o adeiladwaith cadarn, wedi'i leoli i ffwrdd o ddrafftiau, a bod yn faint addas ar gyfer y brîd o gŵn a gedwir. Rhaid iddo fod yn ddigon mawr i bob ci allu gorwedd yn wastad ar ei ochr.
- Dylid cadw'r sarn yn lân, yn sych ac yn rhydd o barasitiaid. Rhaid ei lanhau a'i ddiheintio rhwng cŵn newydd.
- Rhaid gallu glanhau a diheintio sarn yn hawdd, neu rhaid iddo fod yn dafladwy, a rhaid i'r holl ddeunydd sarn sy'n cael ei ddefnyddio fod yn lân, yn sych a heb fod yn achosi llid. Rhaid i unrhyw sarn fod yn feddal ac yn amsugnol.
- Rhaid cynnal rhyw ran o'r ardal gysgu ar yr isafswm tymheredd isaf sy'n berthnasol i'r brîd/math o gi. Ar gyfer y rhan fwyaf o gŵn, mae hyn yn debygol o fod rhwng 15℃ a 26℃ (hwyrach y bydd angen ystyried hyn ar gyfer rhai bridiau, e.e. hysgwn).

**TABL C-01 ISAFSWM MAINT CYTIAU AR GYFER CŴN**

| Pwysau ci | Isafswm arwynebedd lloc ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol lloc (HxLl) (m) | Isafswm arwynebedd fesul ci ($m^2$) | Isafswm uchder y lloc (m) |
|---|---|---|---|---|
| <5 cilo | 4 | 2 x 2 | 0.5 | 2 |
| Dros 5 i 10 cilo | 4 | 2 x 2 | 1.0 | 2 |
| Dros 10 i 15 cilo | 4 | 2 x 2 | 1.5 | 2 |
| Dros 15 i 20 cilo | 4 | 2 x 2 | 2 | 2 |
| Dros 20 i 30 cilo | 8 | 4 x 2 | 4 | 2 |
| >30 cilo | Rhaid chwyddo'r ffigurau yma mewn modd cymesur | Rhaid chwyddo'r ffigurau yma mewn modd cymesur | Rhaid chwyddo'r ffigurau yma mewn modd cymesur | 2 |

## Glanhau

- Rhaid glanhau pob cwt ci ble mae ci'n cael ei gadw yn ddyddiol o leiaf.
- Rhaid tynnu cŵn o'r ardal tra bydd yn cael ei glanhau.

- Rhaid i bob ci a gedwir elwa ar ymdwtio rheolaidd digonol a threfniadaethau iechyd eraill yn ôl yr angen e.e. glanhau llygaid neu gadw clymau o ffwr hir.

**Mynd i'r Toiled**

- Rhaid i gŵn gael cyfleoedd rheolaidd i fynd i'r toiled i ffwrdd o'u hardal gysgu.
- Rhaid i'r ardal mynd i'r toiled fod ar wahân i'r ardal gysgu, a rhaid darparu padiau cŵn bach neu ddeunydd tebyg, y cyfanswm yn cael ei bennu gan nifer y cŵn bach.
- Rhaid gwaredu carthion o'r unedau cytiau cŵn mor aml ag y bo angen ac o leiaf ddwywaith y dydd.

**Glanhau**

- Rhaid clirio eitemau symudol i'w glanhau a'u diheintio o leiaf unwaith yr wythnos.
- Rhaid i bob uned gael ei glanhau, ei diheintio a'i sychu'n drylwyr pan fydd y ci sy'n ei defnyddio yn newid. Rhaid i hyn fod yn ddigonol i ddiogelu'r preswylydd newydd rhag unrhyw glefyd neu barasitiaid gan ei ragflaenydd. Os oes rhai clefydau wedi bod yn bresennol, e.e. parfofeirws, mae angen camau gweithredu a rhagofalon pellach a rhaid ceisio cyngor milfeddygol. Rhaid newid a diheintio'r holl sarn, dŵr a chyfarpar bwydo. Rhaid glanhau a diheintio pob ffitiad yn drylwyr bryd hynny hefyd.

**Cludo a thrin**

- Wrth gludo cŵn, rhaid i ddeiliad y drwydded ddangos bod cerbyd addas ar gael i wneud hynny. Rhaid ffrwyno cŵn yn briodol gan ddefnyddio crât ci, cawell neu gard ci. Rhaid i gewyll a chratiau cŵn fod o faint digonol, wedi'u cynllunio i ddarparu awyru da ac wedi'u diogelu'n gadarn allan o olau haul uniongyrchol ac i ffwrdd o awyrellau gwresogi.
- Ni ddylid byth gadael cŵn mewn cerbydau heb eu goruchwylio am gyfnodau afresymol, ac ni ddylid byth eu gadael mewn cerbyd lle mae'r tymheredd yn peri risg.
- Os ydych yn cludo cŵn ar y ffordd, rhaid cynnig digon o seibiannau ar gyfer dŵr a'r cyfle i fynd i'r toiled.

**Safon Uwch**

- Rhaid cael cynllun teithio sy'n nodi sut y caiff anifeiliaid eu rheoli ar gyfer teithiau hir dros 4 awr.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid i gŵn llawndwf gael eu dysgl fwydo eu hunain.
- Rhaid bwydo cŵn bach o leiaf bedair gwaith bob dydd ar adegau priodol. Rhaid i'r deiet fod yn briodol ar gyfer cŵn bach.
- Rhaid bwydo cŵn llawndwf o leiaf unwaith y dydd ac yn unol ag anghenion y ci unigol. Rhaid bwydo deiet cyflawn i gŵn sy'n briodol i'w hoedran, brîd, lefel gweithgaredd a cham yn y cylch bridio.
- Os oes pryderon am ddeiet ci unigol, rhaid gofyn am gyngor milfeddygol.

**Safon Uwch**

- Rhaid i gŵn llawndwf gael cynllun bwydo sy'n nodi trefn bwydo ddwywaith y dydd.

- Rhaid i bob ci gael rhywfaint o'i fwyd drwy fecanwaith bwyd wedi'i gyfoethogi e.e. gwasgaru bwyd, yn ôl dewis y ci. Os na wneir hyn, rhaid cofnodi'r rheswm e.e. oherwydd cyngor milfeddygol.
- Rhaid cynnwys cyflenwad wythnos o ddeiet presennol y ci bach pan fydd yn mynd i'w gartref newydd.

**Monitro**

- Rhaid gwirio bwyd a dŵr bedair gwaith y dydd.
- Rhaid cadw cofnodion wythnosol o bwysau a sgôr cyflwr y corff er mwyn sicrhau iechyd cŵn bach a chŵn llawndwf a chaniatáu cadw llygad ar unrhyw broblemau.
- Rhaid cadw cofnodion misol o bwysau a sgôr cyflwr y corff er mwyn sicrhau iechyd cŵn llawndwf a chaniatáu cadw llygad ar unrhyw broblemau.
- Rhaid i gŵn beidio â bod yn ddiawydd (heb archwaeth am fwyd) am fwy na 24 awr heb ofyn am gyngor milfeddygol.

**Dŵr**

- Rhaid bod cyflenwad o ddŵr glân, ffres ar gael yn hawdd i bob ci llawndwf.
- Rhaid newid neu adnewyddu dŵr mor aml ag y bo angen ac o leiaf unwaith y dydd.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

**Cyfoethogi**

- Rhaid i bob ci dderbyn teganau a/neu fwyd wedi'i gyfoethogi, o dan oruchwyliaeth pan fo angen, oni bai bod cyngor milfeddygol yn awgrymu fel arall. Rhaid gwirio eitemau'n ddyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn ddiogel.
- Rhaid i raglen ysgrifenedig fod ar gael sy'n nodi amrywiaeth o gyfoethogi y tu mewn a'r tu allan, gan gynnwys hyfforddiant, ymdwtio, cymdeithasu a chwarae.

**Ymarfer corff**

- Rhaid i gyfleoedd ymarfer corff gynnwys o leiaf ddwy daith gerdded y dydd ar gyfer cŵn llawndwf, a gall hynny ddigwydd ar dennyn ac sy'n parhau am o leiaf 20 munud. Rhaid ystyried cyfnod bywyd, iechyd corfforol a meddyliol a'r brîd wrth gynllunio ymarfer corff dyddiol. Rhaid i ymarfer corff hefyd gynnwys cyfleoedd i chwarae a rhyngweithio â phobl.
- Ni ellir cerdded cŵn bach felly bydd angen o leiaf bedwar cyfle, o 20 munud yr un o leiaf, i gymryd rhan mewn chwarae a rhyngweithio dynol yn ystod y dydd.
- Rhaid monitro cŵn pan maent mewn ardaloedd ymarfer corff awyr agored.

**Safon Uwch**

- Rhaid i bob ci llawndwf gael trefn ymarfer corff ddyddiol wedi'i chofnodi, gan gynnwys ymarfer corff ar dennyn a rhedeg yn rhydd.

**Ymddygiad**

- Rhaid monitro ymddygiad cŵn unigol yn ddyddiol. Rhaid i'r holl staff allu adnabod cŵn sy'n bryderus neu'n ofnus ynghylch cyswllt. Pan fydd ci yn dangos arwyddion o fod yn nerfus, dan straen neu'n ofnus, rhaid cymryd camau i fynd i'r afael â hyn.

- Rhaid cofnodi a gweithredu rhaglen cymdeithasu a chynefino dyddiol.
- Rhaid i gŵn bach gael eu cynefino i ddigwyddiadau sy'n debygol o godi. Rhaid i hyn gynnwys golygfeydd a synau ar aelwydydd. Rhaid rhoi cyflwyniad cadarnhaol i amrywiaeth o symbyliadau a phrofiadau synhwyraidd (e.e. golygfeydd a synau newydd); rhaid i hyn ddigwydd yn raddol fel nad yw cŵn bach yn dangos ymateb ofnus fel syfrdanu neu encilio.
- Yn ogystal, rhaid cyflwyno cŵn bach i amrywiaeth o bobl, er enghraifft, cŵn llawndwf o'r ddau ryw, plant o wahanol oedrannau, a phobl sy'n gwisgo dillad amrywiol.
- Gall cyswllt buddiol a chadarnhaol gynnwys ymdwtio, ymarfer corff, chwarae, anwesu a hyfforddi fel y bo'n briodol ar gyfer yr anifail unigol.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

- Rhaid amddiffyn cŵn rhag cael eu trin yn ormodol gan staff neu'r cyhoedd, oherwydd mae angen amser i orffwys arnynt. Dim ond gyda pherchnogion posibl y dylai cŵn gael eu trin gan gwsmeriaid, a hynny fel elfen o raglen gymdeithasu.
- Rhaid trin cŵn heb greulondeb ac yn briodol bob amser i weddu i ofynion y ci unigol ac i leihau ofn, straen, poen a gofid. Ni ddylid byth cosbi cŵn fel eu bod yn ofnus neu'n arddangos ymddygiad ymosodol a/neu anghymhellol.

**Cŵn bach**

- Rhaid i gŵn bach wedi'u diddyfnu gael eu lletya â chŵn o'r un dorraid.
- Yn ddelfrydol, ni ddylid gadael cŵn unigol ar eu pennau eu hunain mewn cytiau cŵn, ond lle mae hynny'n digwydd, rhaid rhoi sylw arbennig i ryngweithio dynol penodol a chyfoethogi ychwanegol. Pan fyddant yn cael eu cymysgu, rhaid iddynt fod o oedran a natur debyg, a rhaid goruchwylio'r cymysgu yn dda.
- Rhaid i gŵn bach o doreidiau gwahanol gael eu paru neu eu grwpio'n gyfrifol, gyda'r monitro cywir ar waith, gan gynnwys ystyried a yw gwahanu dros nos yn briodol.

**Safon Uwch**

- Rhaid cynnal y sesiwn ryngweithio ddiwethaf o fewn 1 awr cyn diwedd y diwrnod gwaith.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

**Cŵn newydd**

- Mewn amgylchedd domestig, mae'n rhaid bod lle i gadw pob ci sydd newydd ei gyflwyno i ffwrdd o unrhyw doreidiau o gŵn bach neu ardaloedd a fynychir gan y toreidiau.

**Atal clefydau ac ati**

- Ni ddylid cymysgu toreidiau o gŵn bach nes eu bod wedi bod ar y fangre am saith diwrnod neu heb fod wedi dangos unrhyw arwydd o glefyd heintus am saith diwrnod.

**Carthion**

- Rhaid i garthion gael eu storio i ffwrdd o ardaloedd lle cedwir anifeiliaid neu fwyd.

**Triniaeth ataliol**

- Rhaid i gŵn gael brechiadau cyfredol yn erbyn parfofeirws y cŵn, clefyd y cŵn, adenofirws y cŵn/hepatitis y cŵn a leptosbirosis, pan fo’n briodol ar gyfer eu hoedran.
- Rhaid i driniaeth reolaidd wedi’i chofnodi fod ar waith ar gyfer parasitiaid mewnol ac allanol (rhaid i gŵn llawndwf a chŵn gael triniaeth gwrth-llyngyr, gwrth-chwain a gwrth-trogod fel y bo’n briodol).
- Rhaid i frechlynnau a ddefnyddir gael trwydded gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol i’w defnyddio yn y DU.
- Nid yw brechu homoeopathig yn dderbyniol.
- Os oes tystiolaeth o barasitiaid allanol (chwain, trogod, llau) rhaid trin y ci â chynnyrch a awdurdodir gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol. Rhaid trafod triniaeth gyda’r milfeddyg cyn ei gweithredu.

**Mewnbwn milfeddygol**

**Safon Uwch**

- Rhaid cael ymweliad misol gan filfeddyg fel mater o drefn, i wirio iechyd a lles, a dylid cadw gafael ar y cofnod milfeddygol.

**Ewthanasia**

- Dim ond milfeddyg sy’n cael ewthaneiddio cŵn.

**Gwirio anifeiliaid**

- Rhaid i fangreoedd fod â gweithdrefnau ar waith ar gyfer darparu ar gyfer gofal dros nos a phan fydd mangreoedd ar gau.

**Safon Uwch**

- Rhaid i berson sy’n gymwys i ofalu am les yr anifeiliaid fod ar y fangre bob amser.

# Rhan D – Cathod

## 4.0 Staffio

- Rhaid cael digon o staff i fwydo a chymdeithasu cathod bach bob 4-5 awr dros gyfnod o 16 awr.
- Ni ddylid gadael cathod am gyfnodau hir heb gael eu hasesu. Rhaid gwirio cathod o leiaf unwaith mewn 8 awr yn ystod cyfnodau pan fydd y fangre ar gau, bob 4 awr yn ystod oriau agor arferol ac o leiaf unwaith yn y cyfnod dros nos y tu allan i oriau agor arferol.

**Safon Uwch**

- Rhaid cael digon o staff i gynnal gwiriadau amlach nag sydd eu hangen o dan y safon ofynnol.

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Atal perygl o anaf, salwch a dianc**

- Rhaid i bob ffenestr fod yn ffenestr gwrth-fynediad a gwrth-ddianc bob amser.
- Rhaid i ddrysau fod â chliciedau diogel neu ddyfeisiau cau eraill.
- Rhaid trefnu llociau i sicrhau nad yw anifeiliaid sydd wedi'u gwahanu mewn cysylltiad uniongyrchol.
- Rhaid i unedau ac ardaloedd ymarfer corff agor ar goridorau diogel neu ardaloedd diogel eraill.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau**

- Ar gyfer cathod bach o dan 26 wythnos, rhaid defnyddio'r dimensiynau yn Nhabl D-01 ar gyfer isafswm meintiau cawell.
- Rhaid cadw cathod dros 26 wythnos mewn corlannau ar ffurf llety cathod, dilynwch y Canllawiau ar gyfer Darparu Llety i Gathod.
- Rhaid i unedau cathod fod yn ddigon mawr i ganiatáu ar gyfer ardaloedd cysgu a gweithgareddau ar wahân. Rhaid i'r uned ganiatáu i bob cath allu cerdded a throi o gwmpas heb gyffwrdd ochrau'r uned. Rhaid i'r cathod gael digon o le i chwarae, sefyll ar eu coesau ôl a gorwedd i lawr heb gyffwrdd â chath arall.
- Bydd maint yr uned sydd ei hangen yn cynyddu mewn perthynas â maint a nifer y cathod sy'n cael eu lletya ar unrhyw un adeg. Rhaid i'r hyd a'r lled fod yn ddigonol i ganiatáu i'r holl gathod orwedd ar eu hyd heb i'w trwynau na'u cynffonnau gyffwrdd â'r waliau neu gath arall.
- Mewn rhai amgylchiadau, caniateir cael ardaloedd ymarfer corff ar wahân i ardaloedd cysgu ond mewn achosion o'r fath, rhaid rhoi mynediad i gathod i'r ardal ymarfer corff o leiaf bedair gwaith y dydd. Rhaid i unrhyw ardal ymarfer corff ar wahân gael ei glanhau a'i diheintio'n llawn rhwng ei defnyddio gan wahanol doreidiau o gathod.
- Rhaid i gathod gael mynediad i amrywiaeth o lefelau (e.e. silffoedd) yn eu llociau, oni bai bod cyflwr meddygol yn newid y cyngor (e.e. gorffwys mewn cawell). Rhaid i ardaloedd uchel fod yn hygyrch, neu mae'n bosibl y bydd angen defnyddio rampiau neu risiau ar gyfer cathod ifanc iawn neu gathod hen iawn.

- Gellir cadw cathod mewn mangre ddomestig mewn un ystafell, ar yr amod bod maint yr ystafell hon yn bodloni'r meintiau lloc lleiaf ar gyfer cathod. Ni ddylid lletya torraid o gathod bach neu gathod o wahanol ffynonellau yn yr un ystafell. Os oes cathod benyw eisoes mewn grŵp cymdeithasol yn y tŷ, gall eu toreidiau gymysgu.

**Safonau Uwch**

- Rhaid i arwynebedd y llawr fod o leiaf 1.5 gwaith yn fwy na'r isafswm gofynnol.
- Rhaid darparu dyluniad a chynllun i gathod sy'n rhoi dewis iddynt. Dylid darparu ardaloedd ar wahân ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys dewis o lwyfannau ar lefelau gwahanol, neu leoedd cuddio, er enghraifft.
- Rhaid i'r awyru fod yn system aer reoledig, sefydlog neu gludadwy i sicrhau bod tymheredd priodol yn cael ei gynnal ym mhob tywydd. Gall hyn fod yn uned aerdymheru neu'n ddefnydd o wyntyllau symudol.
- Rhaid i gynllun rheoli sŵn fod ar waith e.e. rhwystrau ffisegol, dyluniad uned cathod, lleoliad offer cynhyrchu sŵn, gydag arddangosiad o'i effeithiolrwydd.

**Sarn ac is-haen**

- Rhaid i gathod gael ardal gysgu gynnes a chyfforddus, i ffwrdd o'u blwch ysgarthu a'u bwyd. Rhaid gallu glanhau a diheintio sarn yn hawdd, neu rhaid iddo fod yn dafladwy, a rhaid i'r holl ddeunydd sarn sy'n cael ei ddefnyddio fod yn lân, yn sych a heb fod yn achosi llid. Rhaid i unrhyw sarn fod yn feddal ac yn amsugnol.
- Rhaid darparu ardal orwedd neu fainc i bob cath, er mwyn caniatáu i'r anifail orwedd yn gyfforddus.

**Tymheredd**

- Ar gyfer cathod llawndwf, rhaid i dymheredd cathod yn yr ardal gysgu aros rhwng 15℃ a 26℃
- Rhaid darparu ffynonellau gwres effeithiol a diogel ychwanegol i gathod bach. Rhaid i gathod benyw sy'n magu gael y cyfle i symud i ffwrdd o'r cathod bach a'r ffynhonnell wres ychwanegol. Bydd angen tymheredd uwch ar gathod bach os nad oes cath fenyw yno.

**TABL D–01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER CATHOD BACH HYD AT 26 WYTHNOS OED**

| Cathod | Isafswm arwynebedd llawr ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol (m) H x Ll | Isafswm dimensiynau caets (m) | Isafswm uchder caets (m) | Lle ychwanegol |
|---|---|---|---|---|---|
| 4 cath fach, <12 wythnos oed | 1 | 1 x 1 | 0.6 | 0.6 | 0.25$m^2$ / cath |
| Cath unigol 12-26 wythnos | 0.85 | 0.9 x 0.95 | 0.9 | 1.8 | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Dwy gath 12-26 wythnos | 1.5 | 0.9 x 1.66 | 0.9 | 1.8 | - |
| Tair neu bedair cath 12-26 wythnos | 1.9 | 0.9 x 2.1 | 0.9 | 1.8 | - |

**Glanhau**

- Rhaid gwahanu cathod o'r ardal sy'n cael ei glanhau e.e. ei rhoi mewn cludwr cathod neu uned ar wahân.
- Lle bo angen neu lle mae o fudd i'r cathod unigol, rhaid cynnal ymdwtio rheolaidd digonol a threfniadaethau iechyd eraill e.e. glanhau llygaid neu sicrhau nad yw ffwr yn mynd yn glymau.

**Mynd i'r Toiled**

- Os oes nifer o gathod llawndwf, rhaid cael blychau ysgarthu lluosog, sy'n hygyrch bob amser. Rhaid i dorraid o gathod bach gael dau flwch ysgarthu.
- Rhaid tynnu carthion o'r blwch ysgarthu o leiaf unwaith bob dydd. Os oes carthion gormodol, rhaid eu clirio'n amlach. Rhaid darparu blwch glân pan fydd cathod yn cael eu gadael dros nos.
- Rhaid gosod blychau ysgarthu mor bell i ffwrdd â phosibl o'r ardaloedd gorffwys a bwydo.
- Rhaid i garthion gael eu storio i ffwrdd o ardaloedd lle cedwir anifeiliaid neu fwyd.
- Rhaid i flychau ysgarthu fod yn ddigon mawr i ganiatáu i'r gath symud o gwmpas, cloddio a gorchuddio carthion ac wrin. Rhaid darparu deunydd amsugnol addas ar gyfer y blychau ysgarthu, a rhaid iddo fod yn ddigon dwfn (o leiaf 3cm ar gyfer cathod sy'n oedolion) i amsugno'r wrin a chaniatáu i'r gath gloddio a chladdu.

**Glanhau**

- Rhaid clirio eitemau symudol i'w glanhau o leiaf unwaith yr wythnos.
- Rhaid gwagio, glanhau a diheintio blychau ysgarthu yn llwyr o leiaf unwaith yr wythnos neu'n amlach yn ôl y gofyn.
- Ni ddylid defnyddio diheintyddion sy'n wenwynig i gathod e.e. yn seiliedig ar ffenol.

**Safon Uwch**

- Ar gyfer cathod, rhaid darparu ardal breifat lle nad ydynt yn weladwy i bobl neu gathod mewn llociau cyfagos ar gyfer mynd i'r toiled.

**Cludo a thrin**

- Rhaid cludo cathod bob amser mewn cludwyr cathod o faint addas, ac sydd wedi'u diogelu'n gadarn, sy'n caniatáu'r gallu i guddio a chydag awyru addas.
- Rhaid cael un gath fesul cludwr ac eithrio torraid o gathod bach. Rhaid cludo cathod bach o dan 8 wythnos gyda'u mam ac eithrio os yw yn sâl/wedi marw.

## 6.0 Deiet Addas

### Deiet

- Rhaid bwydo deiet i gathod sy'n briodol i'w hoedran, brîd, lefel gweithgaredd a cham yn y cylch bridio.
- Rhaid bwydo cathod bach llai na 12 wythnos oed o leiaf bedair gwaith bob dydd, ar adegau priodol, gyda chyfnodau amlach ar gyfer cathod bach a fagwyd â llaw.
- Rhaid i gathod gael eu powlen bwydo a dŵr eu hunain. Rhaid i'r rhain fod yn llestri ar wahân.
- Rhaid i bob cath benyw gael mynediad at fwyd nad yw'n hygyrch i'r cathod bach.
- Rhaid bwydo cathod o leiaf ddwywaith y dydd ac yn unol ag anghenion y gath unigol.
- Rhaid gosod bwyd a dŵr i ffwrdd o'r blwch ysgarthu ac i ffwrdd o'i gilydd, yn ddelfrydol o leiaf 60cm ar wahân.

### Safon Uwch

- Rhaid i gathod gael cynllun bwydo sy'n rhannu prydau bwyd yn gyfrannau bach drwy gydol y dydd.
- Os bydd y gath unigol yn cael budd, rhaid rhoi rhywfaint o fwyd iddi bob dydd drwy wasgaru bwyd neu drwy ddyfais fwydo briodol arall. Rhaid i gathod ddal i gael y rhan fwyaf o'u lwfans bwyd dyddiol mewn dysgl fwydo. Os na wneir hyn, rhaid cofnodi'r rheswm e.e. oherwydd cyngor milfeddygol.

### Monitro

- Rhaid gwirio bwyd a dŵr bedair gwaith y dydd.
- Rhaid cadw cofnodion wythnosol o bwysau a sgôr cyflwr y corff er mwyn sicrhau iechyd cathod bach o dan 6 mis oed a chaniatáu cadw llygad ar unrhyw broblemau.
- Rhaid cadw cofnodion misol o bwysau a sgôr cyflwr y corff er mwyn sicrhau iechyd cathod llawndwf a chaniatáu cadw llygad ar unrhyw broblemau.
- Rhaid i gŵn beidio â bod yn ddiawydd (heb archwaeth am fwyd) am fwy na 24 awr heb ofyn am gyngor milfeddygol.

### Dŵr

- Rhaid i bob cath lawndwf gael powlen ddŵr nad yw'n llithro.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

### Cyfoethogi

- Rhaid i bob cath gael y cyfle i chwarae ac i ymddwyn yn ysglyfaethus mewn ffordd sy'n benodol i anghenion y gath honno. Rhaid i gathod bach gael o leiaf bedair sesiwn chwarae y dydd.
- Rhaid cyfoethogi'r amgylchedd ym mhob cawell gyda phethau fel teganau, fframiau dringo a llwyfannau. Rhaid i deganau fod yn hawdd i'w glanhau, neu dylid eu

hadnewyddu rhwng toreidiau. Rhaid gwirio eitemau'n ddyddiol er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn ddiogel.

**Safon Uwch**

- Rhaid i raglen ysgrifenedig fod ar gael sy'n nodi amrywiaeth o gyfoethogi y tu mewn a'r tu allan, gan gynnwys hyfforddiant, ymdwtio, cymdeithasu a chwarae.

**Ymarfer corff**

- Rhaid i bob cath gael ymarfer corff dyddiol sy'n briodol i'w hoedran, brîd, gallu a galluogrwydd corfforol.
- Rhaid i ymarfer corff gynnwys y cyfle i chwarae a rhyngweithio â phobl, gan ofalu nad yw'r cyswllt hwn yn achosi straen i'r cathod, yn enwedig cathod bach.

**Ymddygiad**

- Rhaid cofnodi a gweithredu rhaglen cymdeithasu a chynefino dyddiol ar gyfer cathod bach llai na 12 wythnos oed. Rhaid i gathod bach ryngweithio'n gadarnhaol ag amrywiaeth o bobl. Rhaid eu cyflwyno'n raddol i gael eu trin, ymdwtio, cael eu codi a'u cyffwrdd drostynt. Rhaid i gathod bach gael eu hamlygu i olygfeydd, synau, blasau, gweadau ac arogleuon y maent yn debygol o ddod ar eu traws yn ddiweddarach yn yr amgylchedd ble byddant yn byw.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

- Rhaid amddiffyn cathod rhag cael eu trin yn ormodol gan staff neu'r cyhoedd, oherwydd mae angen amser i orffwys arnynt. Dim ond gyda phrynwyr posibl y dylai aelodau o'r cyhoedd drin cathod, a hynny fel elfen o raglen gymdeithasu.
- Rhaid trin cathod heb greulondeb ac yn briodol bob amser i weddu i ofynion y gath unigol ac i leihau straen a gofid, fel pryder, ofn, rhwystredigaeth a phoen. Ni ddylid byth cosbi cathod fel eu bod yn ofnus neu'n arddangos ymddygiad anghymhellol. Ni ddylid codi cathod gerfydd eu gwar ar unrhyw gyfrif, oni bai nad oes unrhyw ddewis arall.

**Cathod bach**

- Ni ddylid cymysgu toreidiau fel mater o drefn ac os cedwir sawl torraid mewn un ardal yna mae'n rhaid i'r lloc fod ag ochrau solet i atal cyswllt uniongyrchol rhwng pob torraid wahanol, gan gynnwys drwy disian.
- Rhaid i gathod bach unigol dderbyn rhyngweithio dynol ychwanegol.
- Dim ond pan fydd cathod benyw eisoes wedi cymysgu, e.e. mewn tŷ domestig, y dylid cymysgu cathod bach. Ni ddylid byth gymysgu toreidiau o wahanol ffynonellau.

**Rhyngweithio â phobl**

- Rhaid i gathod gael cyswllt a rhyngweithio dynol buddiol e.e. gyda staff, yn ddyddiol. Rhaid i sesiynau cyswllt rhyngweithio â chathod barhau am o leiaf 10 munud a rhaid iddynt ddigwydd ar dri achlysur ar wahân, wedi'u didoli'n gyfartal, yn ystod y dydd. Rhaid ymweld â chathod bach o leiaf 4 gwaith y dydd gydag 20 munud o ryngweithio fesul torraid.

- Rhaid cael cynllun ar waith i ddarparu ar gyfer cyfoethogi a chymdeithasu ychwanegol ar gyfer unrhyw gathod bach a gedwir am fwy nag un mis.

**Safon Uwch**

- Rhaid cynnal y sesiwn ryngweithio ddiwethaf o fewn 1.5 awr i ddiwedd y diwrnod gwaith.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

**Triniaeth ataliol**

- Rhaid i gathod gael brechiadau cyfredol yn erbyn parfofeirws y cathod (sydd hefyd yn cael ei adnabod fel enteritis heintus y cathod neu glefyd y cathod (*distemper*)) ac yn erbyn feirysau anadlol cathaidd (feirws herpes y cathod a chalisifeirws y cathod) pan fo'n briodol ar gyfer eu hoedran.
- Nid yw brechu homoeopathig yn dderbyniol.
- Os oes tystiolaeth o barasitiaid allanol, rhaid trin y gath â chynnyrch a awdurdodir gan y Gyfarwyddiaeth Meddyginiaethau Milfeddygol Rhaid trafod triniaeth gyda'r milfeddyg cyn ei gweithredu.

**Safon Uwch**

- Rhaid cael ymweliad misol gan filfeddyg fel mater o drefn, i wirio iechyd a lles, a dylid cadw gafael ar y cofnod milfeddygol.

## 10.0 Argyfyngau

**Safon Uwch**

- Rhaid i berson sy'n gymwys i ofalu am les yr anifeiliaid fod ar y fangre bob amser.

# Rhan E – Cwningod

## 5.0 Amgylchedd Addas

- Ni ddylid defnyddio lloriau delltog, rhwyll neu rwyll wifrog mewn llety cwningod.

### Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau

- Rhaid i'r llociau fod yn ddigon mawr i gwningod allu sefyll yn dalsyth ar eu cwrcwd heb i'w clustiau gyffwrdd â'r to a gorwedd ar eu hyd (heb gyffwrdd ochrau'r lloc neu gwningen arall).
- Pan fo cwningod yn cael eu cadw mewn cytiau, rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer ymarfer corff rheolaidd mewn man diogel y tu allan i'r cwt.
- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl E-01.

### Safon Uwch

- Ar gyfer cewyll top agored, rhaid rhoi mynediad i blatfform neu lwyfannau lluosog i gwningod sy'n meddu ar y gallu corfforol i ddefnyddio llwyfannau. Ar gyfer cewyll top caeedig, rhaid i gwningod allu cyrraedd y rhain yn hawdd a gallu eistedd arnynt yn llawn heb gyffwrdd â tho'r cawell.
- Pan fo cwningod yn cael eu cadw mewn cytiau, dylent gael mynediad parhaol i loc diogel ynghlwm wrth y cytiau
- Rhaid cadw at faint lloc fel y disgrifir yn nhabl E-02.

### Sarn ac is-haen

- Rhaid darparu deunydd nythu addas i gwningod, a digon ohono. Mae deunyddiau nythu addas yn cynnwys gwair di-lwch o ansawdd da.
- Rhaid darparu sarn ac is-haen addas i gwningod, a digon ohonynt. Mae deunyddiau sarn addas yn cynnwys naddion pren di-lwch, wedi'u hategu â gwair.
- Nid yw blawd llif yn addas naill ai fel deunydd nythu neu sarn.

### Tymheredd

- Ni ddylai'r tymheredd amgylchol fod yn is na 12°C nac yn uwch na 26°C.
- Mewn tywydd poeth iawn, rhaid i weithdrefnau oeri fod ar waith, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, wyntyllau i gynyddu symudiad aer, pecynnau rhew neu aerdymheru.
- Mewn tymheredd oer, rhaid darparu deunydd nythu ychwanegol, oni bai bod rheolaeth tymheredd amgen ar waith e.e. gwresogi.

### Goleuni

- Enghraifft o gylch tywyllwch-goleuni addas ar gyfer cwningod yw 12 awr o oleuni:12 awr o dywyllwch. Mae cwningod awyr agored yn profi amrywiad goleuni tymhorol.

**TABL E-01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER CWNINGOD**

| Pwysau cwningen | Uchafswm dwysedd stocio | Isafswm arwynebedd llawr ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol (m) H x Ll | Isafswm uchder cawell (m) | Arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer pob anifail ychwanegol ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at 4 cilo | 4 | 0.67 | 1 x 0.67 neu 0.8 x 0.8 | 0.45 | 0.3 (tua 45%) |
| 4-6 cilo | 2 | 0.86 | 1 x 0.86 neu 0.9 x 0.9 | 0.6 | 0.33 (tua 38%) |
| Dros 6 cilo | 2 | 0.86 | 1 x 0.86 neu 0.9 x 0.9 | 0.6 | 0.4 (approx 45%) |

**TABL E-02 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER CWNINGOD BACH – SAFONAU UWCH**

| Pwysau cwningen | Uchafswm dwysedd stocio | Isafswm arwynebedd llawr ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol (m) H x Ll | Isafswm uchder cawell (m) | Arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer pob anifail ychwanegol ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|---|
| Hyd at 4 cilo | 4 | 0.67 | 1 x 0.67 neu 0.8 x 0.8 | 0.45 | 0.3 (tua 45%) |
| 4-6 cilo | 2 | 0.86 | 1 x 0.86 neu 0.9 x 0.9 | 0.6 | 0.33 (tua 38%) |
| Dros 6 cilo | 2 | 0.86 | 1 x 0.86 neu 0.9 x 0.9 | 0.6 | 0.4 (tua 45%) |

**Mynd i'r Toiled**

**Safon Uwch**

- Rhaid darparu blychau ysgarthu sy'n anhydraidd, yn hawdd eu glanhau a'u diheintio neu sy'n dafladwy. Lle maent mewn defnydd, rhaid glanhau blychau ysgarthu yn drylwyr o leiaf unwaith yr wythnos.

**Cludo a thrin**

- Rhaid i gwningod allu eistedd, gorwedd i lawr a throi o gwmpas yn y cludwr.
- Ni ddylid cludo cwningod beichiog o fewn deng niwrnod i'w dyddiad esgor disgwyliedig oni bai bod hynny'n digwydd ar gyngor milfeddygol. Rhaid gofyn am gyngor milfeddygol hefyd cyn cludo cwningen sy'n llaetha a chwningod bach. Os yw cwningod sy'n magu a chwningod bach i gael eu cludo, mae angen gofal ychwanegol arnynt gan gynnwys sarn a deunydd nythu digonol.

**Safon Uwch**

- Rhaid i gynwysyddion agor o'r top er mwyn hwyluso symud yr anifail. Rhaid leinio cynwysyddion gyda phapur newydd neu sarn i amsugno wrin.

**Llety a chystadlu**

- Rhaid cael lloches ddigonol ar gyfer pob cwningen mewn lloc, a rhaid cael dwy fynedfa/allanfa i atal monopoleiddio'r guddfan.

2

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid bwydo deiet addas i bob cwningen, yn bennaf yn cynnwys cyflenwad cyson o faint a fynnir o wair ffres. Mae angen i'r gwair fod yn rhydd o halogiad.
- 3 Gellir rhoi cyfran fach o fwydydd cwningen masnachol i ategu'r ddeiet sylfaenol o wair. Rhaid i fwyd fod yn briodol i oedran a brîd y gwningen a rhaid dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Rhaid i ddeiliaid trwydded sicrhau bod bwydo detholus yn cael ei ystyried wrth ddewis miwsli neu fwydydd eraill tebyg.
- Os cânt eu defnyddio, rhaid rhoi dail gwyrdd a danteithfwyd mewn cymedroldeb, a phob yn dipyn fel sy'n briodol i'r gwningen unigol.

**Monitro**

- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os nad oes gwelliant pan fo gwningen yn dioddef o anorecsia ysgafn neu lai o archwaeth o fewn 12 awr, neu os bydd cyflwr yr unigolyn/unigolion yn dirywio.
- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os yw cwningen yn dangos arwyddion o rwymedd neu ddolur rhydd.

**Bwydo**

**Safon Uwch**

- Rhaid darparu gwair mewn cynhwysydd gwair neu ymborthwr ar uchder priodol, sy'n ei gadw oddi ar y llawr ac yn lleihau'r risg o halogi'r gwair.
- Rhaid cynnig porfwyd (sy'n tarddu o ardaloedd heb eu halogi ac wedi'i adnabod yn gywir) i'r cwningod. Yn ogystal, gellir defnyddio porfwyd sych sy'n cynnwys helyg sydd ar gael yn fasnachol i ategu'r deiet a darparu dewis amgen risg isel i borfwyd.
- Rhaid cynnig mynediad i laswellt sy'n tyfu i'r cwningod bori arno, a gall hynny fod yn laswellt wedi'i blannu ar fyrddau pwrpasol. Fel arall, gellir darparu dau fath gwahanol o wair i gwningod.

**Dŵr**

- Gellir darparu dŵr mewn potel yfed llenwad disgyrchiant lân (sy'n gorfod bod o faint addas i'r anifail unigol), systemau yfed awtomatig, neu mewn powlenni. Dylid darparu powlen a photel ddŵr i roi dewis i'r anifail. Nid yw powlenni'n addas os oes cwningod bach yn bresennol.
- Rhaid gwneud unrhyw newidiadau i lestri yfed yn raddol, a monitro'r yfed er mwyn sicrhau bod anifeiliaid yn yfed fel arfer.

**Safon Uwch**

- Rhaid darparu dŵr ar gyfer cwningod mewn poteli neu bowlenni lluosog. Yn ystod tywydd poeth, rhaid darparu potel a bowlen (oni bai bod cwningod bach yn bresennol, ac os felly, dim ond poteli sy'n addas).

## 10.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

- Ymhlith yr eitemau cyfoethogi addas, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae twnelau, bagiau papur wedi'u llenwi â gwair, priciau/peli helyg a brigau o goed ffrwythau diwenwyn, heb eu trin (e.e. pren afal).
- Rhaid cyflwyno gwrthrychau newydd yn ofalus a pheidio â'u cyfnewid yn ddyddiol.

**Safon Uwch**

- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro'r cwningod i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.

## 11.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

- Rhaid amddiffyn cwningod rhag cael eu trin yn ormodol gan staff neu'r cyhoedd. Dim ond gyda phrynwyr posibl y dylai aelodau o'r cyhoedd drin cwningod, a hynny fel elfen o raglen gymdeithasu
- Ni ddylid rhoi cwningod ar eu cefn mewn ystum o ansymudoledd toneddol, na'u codi gerfydd y gwar neu'r clustiau.

**Rhyngweithio**

- Rhaid i gwningod gael eu rhywio’n gywir.
- Rhaid gwneud pob ymdrech i sicrhau nad yw cwningod yn cael eu lletya’n unigol. Os na ellir osgoi hyn, rhaid rhoi sylw arbennig i ryngweithio dynol penodol a rhaid darparu cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer pob cwningen sy’n cael ei lletya’n unigol.
- Rhaid i gwningod beidio â rhannu llety â moch cwta.

## 12.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

### Atal clefydau

- Rhaid cynghori y dylid brechu cwningod yn erbyn mycsomatosis a chlefyd gwaedlifol cwningod (sydd hefyd yn cael eu hadnabod fel RHD 1 a 2).

### Gwirio

- Rhaid gwirio dannedd blaen ac ewinedd cwningod yn rheolaidd, oni bai bod hynny’n amhriodol oherwydd cam y cylch bridio, a’u trin yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gordyfu neu’n tyfu’n gam – dim ond milfeddyg sy’n gallu cywiro dannedd sydd wedi gordyfu neu ddannedd sy’n tyfu’n gam. Rhaid i gwningod gael gwiriad cyn paru ac yna gwiriad pan ddaw’n amser i ddiddyfnu.

# Rhan F – Moch Cwta

## 5.0 Amgylchedd Addas

### Atal perygl o anaf, salwch a dianc

- Ni ddylid defnyddio lloriau delltog, rhwyll neu rwyll wifrog mewn llety moch cwta.

### Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau

- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl F-01.
- Mae angen i lety fod o faint digonol i ganiatáu i'r holl foch cwta a gedwir allu gorwedd ar eu hyd (heb gyffwrdd ochrau'r man lloc neu fochyn cwta arall), rhedeg, chwarae, twnelu a sefyll heb gyffwrdd â tho'r lloc.
- Ni ddylai rampiau fod yn fwy serth na 45 gradd gan fod moch cwta yn ddringwyr gwael.
- Pan gartrefir moch cwta mewn cytiau, rhaid gwneud darpariaeth ar gyfer ymarfer corff rheolaidd mewn ardal ddiogel y tu allan i'r cwt.
- Rhaid i foch cwta gael mynediad cyson i leoedd cuddio, a all gynnwys pentyrrau gwair, yn ogystal â'u hardal gysgu. Fel isafswm, rhaid i bob lle cuddio fod yn ddigon mawr i ganiatáu i un mochyn cwta orffwys ar ei ben ei hun.

### Safon Uwch

- Pan fo moch cwta yn cael eu cadw mewn cytiau, dylent gael mynediad parhaol i loc diogel ynghlwm wrth y cytiau.
- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl F-02.

### Sarn ac is-haen

- Rhaid darparu deunydd nythu addas i foch cwta, a digon ohono. Ymhlith y deunyddiau nythu addas, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae gwair di-lwch o ansawdd da a/neu bapur wedi'i rwygo.
- Rhaid darparu sarn addas i foch cwta, a digon ohono. Mae deunyddiau sarn addas yn cynnwys naddion pren di-lwch, wedi'u hategu â gwair.
- Nid yw blawd llif yn addas naill ai fel deunyddiau nythu neu sarn.

### Tymheredd

- Rhaid osgoi tymereddau eithafol, y tu hwnt i ystod 12-26°C. Gall digon o ddeunydd nythu helpu i gyflawni hyn. Mewn tywydd poeth iawn, rhaid i weithdrefnau oeri fod ar waith, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, wyntyllau i gynyddu symudiad aer, pecynnau rhew neu aerdymheru.

**TABL F–01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER MOCH CWTA**

| Math | Dwysedd stocio | Isafswm arwynebedd llawr ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol (m) H x Ll | Isafswm uchder cawell (m) | Arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer pob anifail ychwanegol (m2) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mochyn cwta | 1-4 | 0.23 | 1 x 0.23<br>neu<br>0.52 x 0.52 | 0.3 | 0.09<br>(tua 33%) |

**TABL F-02 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER MOCH CWTA – SAFONAU UWCH**

| Math | Uchafswm dwysedd stocio | Isafswm arwynebedd llawr ($m^2$) | Dimensiynau enghreifftiol (m) H x Ll | Isafswm uchder cawell (m) | Arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer pob anifail ychwanegol ($m^2$) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mochyn cwta | 2 | 0.23 | 1 x 0.23<br>neu<br>0.52 x 0.52 | 0.45 | 0.09<br>(tua 33%) |

**Cludo a thrin**

- Dim ond mewn cludwyr addas y dylid cludo moch cwta, ac ni ddylid eu cymysgu ag anifeiliaid anghyfarwydd yn yr un cludwr. Rhaid i’r cludwr fod o faint priodol fel nad yw’n orlawn.

**Safon Uwch**

- Rhaid i gludwyr agor o’r top er mwyn hwyluso symud yr anifail. Rhaid leinio cludwyr gyda phapur newydd neu sarn i amsugno wrin.

**Llety a chystadlu**

- Rhaid cael lloches ddigonol ar gyfer pob mochyn cwta mewn lloc, a rhaid cael dwy fynedfa/allanfa i atal monopoleiddio’r guddfan.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid bwydo deiet addas i bob mochyn cwta, yn bennaf yn cynnwys cyflenwad cyson o faint a fynnir o wair ffres. Mae angen i’r gwair fod yn rhydd o halogiad.
- Rhaid i foch cwta gael digon o fitamin C yn eu deiet gan nad ydynt yn gallu syntheseiddio’r fitamin penodol hwn. Felly, rhaid rhoi cyfran o fwyd moch cwta penodol bob dydd neu fel arall, gellir darparu cynnyrch fitamin C masnachol

pwrpasol. Rhaid cymryd gofal wrth ddethol cynnyrch addas, ac os oes unrhyw amheuaeth, rhaid ymgynghori â milfeddyg.

- Gellir rhoi dogn o ddail gwyrdd wedi’u golchi bob dydd i foch cwta hefyd.
- Gellir cynnig bwydydd moch cwta masnachol i ategu’r ddeiet sylfaenol o wair. Rhaid i’r rhain fod yn briodol i oedran a brîd y mochyn cwta a rhaid dilyn cyfarwyddiadau’r gwneuthurwr. Rhaid i staff sicrhau bod bwydo detholus yn cael ei ystyried a’i liniaru wrth ddewis miwsli neu fwydydd eraill tebyg.

**Safon Uwch**

- Rhaid cynnig mynediad i laswellt sy’n tyfu i’r moch cwta bori arno. Gellir cyflawni hyn drwy osod glaswellt wedi’i blannu ar fyrddau pwrpasol yn eu hardaloedd ymarfer corff. Rhaid bod digon o laswellt i bob mochyn cwta sy’n cael ei gadw allu pori ar yr un pryd. Fel arall, gellir darparu llysiau ffres sy’n llawn fitamin C i’r moch cwta yn ddyddiol.

**Monitro**

- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os nad oes gwelliant pan fo mochyn cwta yn dioddef o anorecsia ysgafn neu lai o archwaeth o fewn 12 awr, neu os bydd cyflwr yr unigolyn/unigolion yn dirywio.
- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os yw mochyn cwta yn dangos arwyddion o rwymedd neu ddolur rhydd.

**Safon Uwch**

- Rhaid cynnig porfwyd (sy’n tarddu o ardaloedd heb eu halogi ac wedi’i adnabod yn gywir) i’r moch cwta. Yn ogystal, gellir defnyddio porfwyd sych sy’n cynnwys helyg sydd ar gael yn fasnachol i ategu’r deiet a darparu dewis amgen risg isel i borfwyd.
- Gellir darparu dŵr mewn potel yfed llenwad disgyrchiant lân (sy’n gorfod bod o faint addas i’r anifail unigol), systemau yfed awtomatig, neu mewn powlenni.
- Rhaid gwneud unrhyw newidiadau i lestri yfed yn raddol, a monitro’r yfed er mwyn sicrhau bod anifeiliaid yn yfed fel arfer.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

- Ymhlith yr eitemau cyfoethogi addas, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae twnelau, bagiau papur wedi’u llenwi â gwair, priciau/peli helyg a brigau o goed ffrwythau di-wenwyn, heb eu trin (e.e. pren afal).

**Safon Uwch**

- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro’r moch cwta i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

### Trin

- Ni ddylid rhoi moch cwta ar eu cefn mewn ystum o ansymudoledd toneddol, na'u codi gerfydd y gwar.

### Rhyngweithio

- Rhaid lletya moch cwta mewn grwpiau un rhyw oni bai eu bod yn cael eu gwerthu/defnyddio ar gyfer bridio.
- Rhaid i foch cwta a chwningod beidio â rhannu'r un llety.

### Safon Uwch

- Lle mae'n rhaid lletya moch cwta yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer moch cwta sy'n cael eu lletya'n unigol.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

### Gwirio

- Rhaid gwirio dannedd blaen ac ewinedd moch cwta yn rheolaidd, oni bai bod hynny'n amhriodol oherwydd cam y cylch bridio, a'u trin yn ôl yr angen, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gordyfu neu'n tyfu'n gam – dim ond milfeddyg sy'n gallu cywiro dannedd sydd wedi gordyfu neu ddannedd sy'n tyfu'n gam. Rhaid gwirio moch cwta mewn harimau bridio fel y bo'n briodol, yn seiliedig ar y system reoli.

# Rhan G – Ffuredau

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Atal perygl o anaf, salwch a dianc**

- Ni ddylid defnyddio lloriau delltog, rhwyll neu rwyll wifrog mewn llety ffuredau.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau**

- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl G-01
- Mae angen i lety fod o faint digonol i ganiatáu i'r holl ffuredau a gedwir allu gorwedd ar eu hyd mewn unrhyw gyfeiriad, rhedeg, chwilota, archwilio neu chwarae, yn ogystal â sefyll yn hollol dalsyth heb gyffwrdd â tho'r lloc.
- Rhaid darparu mynediad cyson i leoedd cuddio ar gyfer ffuredau. Rhaid i bob lle cuddio fod o leiaf yn ddigon mawr i ganiatáu i un ffured orffwys ar ei phen ei hun.

**Sarn ac is-haen**

- Mae angen i ardaloedd cysgu fod yn sych, yn ddi-ddrafft, wedi'u hawyru'n dda ac yn lân, yn ogystal ag yn ddigon mawr i ganiatáu i'r holl anifeiliaid sy'n cael eu lletya orffwys gyda'i gilydd ar eu hyd, troi o gwmpas yn ddirwystr a symud ar hyd y lle yn ddilestair. Ymhlith y deunyddiau sarn priodol mae gwair di-lwch o ansawdd da a/neu bapur wedi'i rwygo, neu eitemau ffabrig golchadwy (er bod yn rhaid monitro'r rhain ar gyfer cnoi/difrod a'u clirio a darparu rhai newydd yn ôl yr angen).
- Rhaid darparu is-haen addas i ffuredau, a digon ohono, i ganiatáu ar gyfer chwilota ac ymddygiadau eraill. Ymhlith y deunyddiau sarn addas mae naddion pren di-lwch, wedi'u hategu â gwair di-lwch.
- Nid yw blawd llif a thywod yn addas naill ai fel deunyddiau nythu neu sarn.

**Tymheredd**

- Ni ddylai'r tymheredd amgylchol fod yn is na 12°C nac yn uwch na 26°C.
- Mewn tywydd poeth iawn, rhaid i weithdrefnau oeri fod ar waith, megis, ond heb fod yn gyfyngedig i, wyntyllau i gynyddu symudiad aer, pecynnau rhew neu aerdymheru.
- Mewn tymheredd oer, rhaid darparu deunydd nythu ychwanegol, oni bai bod rheolaeth tymheredd amgen ar waith e.e. gwresogi.

**Goleuni**

- Mae angen i ffuredau brofi cylchoedd goleuni:tywyllwch priodol (o leiaf 8 awr o oleuni ac 16 awr o dywyllwch; ni ddylid cael mwy nag 16 awr o oleuni ac 8 awr o dywyllwch).

**TABL G–01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER FFUREDAU**

| Math | Uchafswm dwysedd stocio | Arwynebedd llawr isaf ($m^2$) | Dimensiynau (m) H x Ll | Dimensiwn lleiaf (m) | Isafswm uchder caets (m) | Arwynebedd llawr ychwanegol ar gyfer pob anifail ychwanegol (m2) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| ffured <12 wythnos oed | 1-4 | 1 | 1 x 1 neu 1.66 x 0.6 | 0.6 | 0.6 | 0.25 (tua 25%) |
| ffured >12 wythnos oed | 1 | 0.6 | 1 x 0.6 neu 0.77 x 0.77 | 0.6 | 0.6 | 0.6 |

**Mynd i'r Toiled**

- Mae angen i ardal mynd i'r toiled ffuredau fod ar wahân i'w hardaloedd cysgu neu fwyta. Gellir gosod blychau ysgarthu yn yr ardal hon i helpu gyda'r gwaith glanhau.

**Safon Uwch**

- Rhaid i gludwyr agor o'r top er mwyn hwyluso symud yr anifail; ni chynghorir defnyddio cludwyr cardbord gan eu bod yn hawdd eu cnoi a gallant fynd yn llaith/anniogel. Gellir leinio cludwyr â phapur newydd a rhywfaint o ddeunydd sarn, e.e. gellir darparu gwair di-lwch o ansawdd da a/neu bapur wedi'i rwygo er cysur.

**Llety a chystadlu**

- Rhaid cael o leiaf un lle cuddio ar gyfer pob ffured mewn lloc, a rhaid cael dwy fynedfa/allanfa i atal monopoleiddio'r guddfan.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid bwydo deiet ffured addas a chyflawn i bob ffured, wedi'i ddarparu ar adegau priodol.
- Ni ddylid rhoi bwyd cŵn na chathod i ffuredau, gan fod y rhain yn cynnwys proteinau grawnfwyd a phlanhigion nad yw ffuredau'n gallu eu treulio. Oherwydd yr un rheswm, ni ddylid rhoi bara neu rawnfwydydd i ffuredau.

- Ni ddylid rhoi unrhyw beth sy’n cynnwys esgyrn bach i ffuredau, ac eithrio cywion diwrnod oed.

**Safon Uwch**

- Rhaid i ddanteithfwyd gynnwys sbarion cig wedi’i goginio ac wyau wedi’u berwi’n galed. Gellir cynnig danteithfwyd mewn cymedroldeb, ac fel sy’n briodol i’r ffured unigol.

**Monitro**

- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os nad oes gwelliant o fewn 24 awr pan fo ffured yn dioddef o fwydo gwael neu anorecsia ysgafn, neu os bydd cyflwr yr unigolyn/unigolion yn dirywio.

**Dŵr**

- Pan gyflenwir dŵr mewn powlenni, rhaid bod ganddynt waelod trwm.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

**Cyfoethogi**

- Rhaid cyfoethogi’r amgylchedd ym mhob lloc.
- Ni ddylid rhoi deunydd cyfoethogi wedi’i wneud o rwber i ffuredau, oherwydd y risg o amlynciad sy’n arwain at rwystrau coluddol os cânt eu cnoi a’u llyncu.

**Safon Uwch**

- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro’r ffuredau i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.

**Ymarfer corff**

- Rhaid i ffuredau gael mynediad i ardal ymarfer corff.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

- Ni ddylid codi ffuredau gan ddefnyddio dim ond un llaw.

**Rhyngweithio**

- Rhaid lletya ffuredau mewn grwpiau neu barau un rhyw, yn ddelfrydol aelodau o’r un dorraid neu unigolion a gyflwynwyd i’w gilydd pan yn ifanc.
- Gan eu bod yn ofylu’n ysgogol, rhaid atal ffuredau benywaidd llawndwf rhag aros yn eu tymor i liniaru clefydau sy’n gysylltiedig ag oestrogen. Rhaid gofyn am gyngor milfeddygol ynghylch rheoli atgenhedlu. Rhaid cofnodi hyn ac egluro’r materion atgenhedlu i ddarpar brynwyr.

**Safon Uwch**

- Lle mae'n rhaid lletya ffuredau yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer pob ffured sy'n cael ei lletya'n unigol.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

**Triniaeth ataliol**

- Rhaid cynghori'r prynwr y dylid brechu ffuredau yn erbyn clefyd y cŵn, fel arfer yn 6-8 wythnos oed ac eto yn 10-12 wythnos oed, ac yn flynyddol wedi hynny, ond yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.

**Gwirio**

- Rhaid gwirio ewinedd ffuredau yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad ydynt yn gordyfu.

# Rhan H – Cnofilod Bach Domestig

Mae 'cnofilod bach domestig' yn cyfeirio at fochdewion, gerbilod, llygod mawr, llygod, tsintsilaod a degŵod.

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Atal perygl o anaf, salwch a dianc**

- Os defnyddir cewyll gwifren, rhaid i'r bariau fod yn ddigon cul i osgoi'r perygl o ddianc.
- Ni ddylid defnyddio lloriau delltog, rhwyll neu rwyll wifrog mewn llety anifeiliaid bach.
- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl H-01.

**Safon Uwch**

- Defnyddio cewyll anhryloyw
- Rhaid cadw at faint lloc fel y disgrifir yn nhabl H-02.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau**

- Rhaid i bob anifail allu gorwedd ar ei hyd, troi o gwmpas yn ddirwystr, sefyll yn dalsyth heb gyffwrdd â tho'r cawell, cuddio, cloddio, rhedeg a chwarae.
- Mae angen i ardaloedd cysgu fod yn sych, yn ddi-ddrafft, wedi'u hawyru'n dda ac yn lân, yn ogystal ag yn ddigon mawr i ganiatáu i'r holl gnofilod bach sy'n cael eu lletya orffwys gyda'i gilydd ar eu hyd, troi o gwmpas yn ddirwystr a symud ar hyd y lle yn ddilestair.

**Safon Uwch**

- Rhaid darparu mynediad i lwyfan (lletya unigol) neu lwyfannau lluosog i gnofilod bach sy'n meddu ar y gallu corfforol i ddefnyddio llwyfannau. Rhaid i anifeiliaid allu cyrchu'r rhain yn hawdd a gallu eistedd (a sefyll yn ddelfrydol) yn dalsyth arnynt heb gyffwrdd â tho'r gawell.

**Sarn ac is-haen**

- Rhaid darparu deunydd nythu addas i gnofilod bach, a digon ohono. Bydd y math a ddefnyddir yn dibynnu ar yr anifail sy'n cael ei gadw; gweler y rhestr isod. Ni ddylid rhoi deunyddiau nythu i gnofilod bach sy'n gallu gwahanu'n llinynnau tenau, e.e. gwlân cotwm. Mae deunyddiau nythu addas ar gyfer cnofilod bach yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - Bochdewion – gwair, gwlân pren, papur wedi'i rwygo neu gardbord.
        - Llygod mawr a llygod – gwair, carpion papur, stribedi papur a hancesi papur.
    - Gerbilod – cardbord di-inc (e.e. rholiau papur tŷ bach gwag, bocsys wyau, bocsys cardbord plaen) neu bapur a gwair.
    - Rhaid i dsintsilaod a degŵod gael mynediad cyson i flwch nythu wedi'i lenwi â gwair.
- Rhaid i unrhyw wair, deunyddiau nythu ac is-haenau a ddarperir fod o ansawdd da ac yn ddi-lwch.

- Rhaid darparu sarn ac is-haen addas i gnofilod bach, a digon ohonynt. Mae gwahanol fathau o sarn ar gael, a bydd y math yn dibynnu ar yr anifail sy'n cael ei gadw. Mae deunyddiau addas yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i:
    - Bochdewion – naddion pren di-lwch neu gobyn o india-corn gronynnog
    - Llygod mawr a llygod – sglodion coed heblaw pren aethnen, sglodion seiledig ar gellwlos neu garpion papur
    - Gerbilod – compost di-fawn neu gymysgedd o naddion pren garw/gwair.
    - Tsintsilaod – carpion papur, naddion pren di-lwch a gwair.
    - Degŵod – naddion pren di-lwch a gwair.
- Rhaid darparu mynediad cyson i leoedd cuddio ar gyfer cnofilod bach, yn ogystal â'u hardal gysgu. Rhaid i bob lle cuddio fod o leiaf yn ddigon mawr i ganiatáu i un anifail orffwys ar ei ben ei hun.

**Safon Uwch**

- Rhaid darparu llochesi sy'n lleihau goleuni ar gyfer llygod mawr, llygod a bochdewion (megis bocs neu acrylig gwawr goch, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny'n unig). Fodd bynnag, rhaid monitro'r rhain bob dydd am arwyddion o gnoi a'u gwaredu/newid yn ôl yr angen.
- Rhaid rhoi dewis o wahanol ddeunyddiau nythu i gnofilod bach.

**Tymheredd**

- Rhaid i'r tymheredd fod yn briodol i rywogaeth benodol neu ystyriaethau cyfnod bywyd. Yn gyffredinol, ni ddylai'r tymheredd amgylchol fynd yn is na 12°C nac yn uwch na 26°C. Gall deunydd nythu sicrhau hynny.
- Gall tymheredd uchel uwchben 18°C fod yn niweidiol i dsintsilaod, a rhaid cael gwiriadau a rhagofalon ychwanegol o ran y rhywogaeth hon mewn tywydd poeth iawn.
- Gall darparu digon o ddeunydd nythu helpu i gyflawni'r tymheredd hyn.

**Goleuni**

**Safon Uwch**

- Pan fydd gwaith yn digwydd gerllaw, neu pan fydd anifeiliaid nosol yn cael eu harchwilio yn ystod y nos, rhaid defnyddio golau coch gwan neu olau gwyn gwan i leihau ar unrhyw darfu. Rhaid i lefel y golau fod yn ddigonol ar gyfer arsylwi/ymgymryd â thasgau gofynnol.

**TABL H–01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER MAMALIAID BACH (CNOFILOD)**

| Nifer yr anifeiliaid | Arwynebedd fesul un anifail (cm²) | | | | | | | Isafswm uchder cawell (cm) | Isafswm dyfnder cawell (cm) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1-4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | | |
| Llygod, bochdewion, | 680 | 790 | 900 | 1000 | 1113 | 1240 | 1350 | 25 | 25 |
| Gerbilod | 680 | 790 | 900 | 1000 | 1113 | 1240 | 1350 | 30 | 25 |
| Llygod mawr | 1350 | 1570 | 1800 | 2020 | 2225 | 2470 | 2700 | 30 | 28 |
| Degŵod | 2250 | 2630 | 3000 | 3380 | 3750 | 4130 | 4500 | 30 | 30 |
| Tsintsilaod | 2500 | 3750 | 5000 | 6250 | 7500 | 8750 | 10000 | 45 | 45 |

**TABL H-02 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER MAMALIAID BACH (CNOFILOD) – SAFONAU UWCH**

| Nifer yr anifeiliaid | Arwynebedd fesul un anifail (cm²) | | | | | | | Isafswm uchder cawell (cm) | Isafswm dyfnder cawell (cm) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 1-4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | | |
| Corfochdewion, llygod | 750 | 1000 | 1250 | 1500 | 1750 | 2000 | 2250 | 25 | 25 |
| Bochdew Syriaidd (1 yn unig)* | 750 | | | | | | | 25 | 25 |
| Llygod mawr | 1800 | 2400 | 3000 | 3600 | 4200 | 4800 | 5400 | 30 | 28 |
| Gerbilod | 1250 | 1250 | 1500 | 1750 | 2000 | 2250 | 2500 | 30 | 25 |
| Degŵod (2) | 2500 | 6250 | 7500 | 8750 | 10,000 | 11,250 | 12,500 | 45 | 45 |
| Tsintsilaod (2) | 2500 | 6250 | 7500 | 8750 | 10,000 | 11,250 | 12,500 | 45 | 45 |
| Tsintsilaod (3-4) | 5000 | | | | | | | | |

*Sylwer: Dylai bochdewion Syriaidd <12 wythnos oed gael lloc o'r un maint â chorfochdewion, ond unwaith maent yn rhywiol aeddfed, rhaid eu cadw ar werth fel anifeiliaid unigol.

**Glanhau**

**Safon Uwch**

- Ar ôl glanhau, rhaid trosglwyddo peth sarn sydd heb ei halogi a deunydd nythu yn ôl i helpu i gadw arogleuon cyfarwydd ar eu cyfer.

**Trin a chludo**

- Rhaid cludo cnofilod bach mewn cludwyr addas ac ni ddylid eu cymysgu ag anifeiliaid anghyfarwydd (yn yr un cludwr). Rhaid eu cludo gyda'u cyd-gnofilod/cyd-gnofilod bach, lle bo hynny'n berthnasol, a dylai'r cludwr fod o faint priodol fel nad yw'n orlawn.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid bwydo deiet addas i bob cnofil bach, faint bynnag o fwyd a fynnir.
- Rhaid i tsintsilaod a degŵod allu cael gafael ar wair di-lwch o ansawdd da yn gyson
- Rhaid diddyfnu pob cnofil bach yn llawn wrth eu derbyn.

**Monitro**

- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os nad oes gwelliant o fewn 12 awr pan fo cnofil bach yn dioddef o fwydo gwael neu anorecsia ysgafn, neu os bydd cyflwr yr unigolyn yn dirywio.
- Rhaid ymgynghori â milfeddyg os yw mamal bach yn dangos arwyddion o rwymedd neu ddolur rhydd.

**Dŵr**

- Rhaid darparu dŵr mewn potel neu drwy systemau dŵr awtomatig, wedi'i leoli i ffwrdd o'r ardal gysgu, er mwyn helpu i atal yr ardal honno rhag mynd yn llaith/dyfrlawn os yw'r botel yn gollwng.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

### Cyfoethogi

- Ymhlith yr eitemau cyfoethogi addas, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, mae twnelau, bagiau papur wedi'u llenwi â gwair, priciau/peli helyg a brigau o goed ffrwythau diwenwyn, heb eu trin (e.e. pren afal).
- Dylai Tsintsilaod a Degŵod gael y cyfle i ddefnyddio baddon tywod drwy gynnig un yn rheolaidd, e.e. 10 munud bob dydd. Ni ddylai hwn fod ar gael yn barhaol.
- Ni ddylid rhoi deunydd cyfoethogi wedi'i wneud o rwber i famaliaid bach, oherwydd y risg o amlynciad sy'n arwain at rwystrau coluddol os cânt eu cnoi a'u llyncu.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

### Trin

- Ni ddylid codi cnofilod bach gerfydd y gwar, y clustiau neu heb eu cynnal o dan y gynffon, ac ni ddylid chwaith eu rhoi ar eu cefn mewn ystum o ansymudoledd toneddol. Gall codi mamaliaid bach heb eu cynnal o dan y gynffon arwain at y gynffon yn torri neu fwrw'r croen. Yn ogystal, mae tsintsilaod yn gallu colli peth o'u ffwr os ydynt yn cael eu cam-drin.

### Rhyngweithio

- Rhaid i bob math o gnofilod bach gael eu lletya mewn grwpiau un rhyw oni bai bod y rhywogaeth yn ynysig (neu os ydynt yn cael eu gwerthu/defnyddio ar gyfer bridio).
- Dim ond gyda chnofilod eraill o'r un rhywogaeth y dylid lletya cnofilod bach, ac ni ddylid eu lletya'n unigol os ydynt yn rhywogaeth gymdeithasol, ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol.

### Safon Uwch

- Lle mae'n rhaid lletya cnofilod bach o rywogaethau cymdeithasol yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer cnofilod bach sy'n cael eu lletya'n unigol (dim ond y rhai hynny o rywogaethau cymdeithasol).

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

### Gwirio

- Rhaid gwirio dannedd blaen ac ewinedd cnofilod bach yn rheolaidd, oni bai bod hynny'n amhriodol oherwydd cam y cylch bridio, er mwyn sicrhau nad ydynt yn gordyfu neu'n tyfu'n gam – dim ond milfeddyg sy'n gallu cywiro dannedd sydd wedi gordyfu neu ddannedd sy'n tyfu'n gam. Dylent gael gwiriad cyn paru a gwiriad pan ddaw'n amser i ddiddyfnu.

# Rhan I – Rhywogaethau Annomestig Eraill (Mamaliaid)

Mae ‘rhywogaethau annomestig eraill (mamaliaid)’ yn cynnwys unrhyw famal arall a gynigir i’w werthu ac eithrio’r rhai sydd eisoes wedi’u rhestru yn y ddogfen hon, neu sy’n unrhyw famal nad yw fel arfer yn cael ei ddofi ym Mhrydain Fawr.

## 3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a’r Mathau o Anifeiliaid

- Rhaid i staff feddu ar wybodaeth amlwg am y rhywogaeth neu rywogaethau cysylltiedig
- Rhaid i staff gydymffurfio â deddfwriaeth y DU o ran gwerthu neu gaffael rhywogaethau goresgynnol estron.

## 4.0 Staffio

- Mae ‘rhywogaethau annomestig eraill’ yn cwmpasu ystod eang o rywogaethau sydd i’w gweld yn y farchnad gyffredinol. Wrth fynd i’r afael â rhywogaethau newydd, rhaid sicrhau bod yr un gofynion lles yn cael eu bodloni ag ar gyfer rhywogaethau eraill.
- Noder na fydd cyrsiau a chymwysterau sy’n berthnasol i werthu anifeiliaid anwes yn cynnwys gofalu am rywogaethau annomestig eraill, yn enwedig y rhai sy’n cael eu masnachu’n llai cyffredin.
- Ymhlith y prif ffynonellau gwybodaeth a chanllawiau ar y safonau gofal priodol mae Codau Ymarfer a gyhoeddwyd gan lywodraeth, canllawiau hwsmonaeth gan y diwydiant sw, nodiadau canllaw ar gyfer rhywogaethau tebyg sy’n cael eu rhestru o dan y Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus neu ddeunyddiau canllaw eraill a adolygwyd gan gymheiriaid, neu a gynhyrchwyd gan y diwydiant neu sefydliad anllywodraethol cymwys.
- Os yw arolygwyr yn anghyfarwydd â rhywogaethau newydd unigol, fe’u cynghorir yn gryf i holi am gyngor cymwys priodol, er enghraifft gan arolygwyr trwyddedau sw, ceidwaid neu fridwyr preifat profiadol neu unigolion â chymwysterau priodol, gan gynnwys milfeddygon a restrir ar wefan Cymdeithas Sŵolegol Milfeddygon Prydain (BVZS).
- Lle mae angen cyngor arbenigol, argymhellir cadw copïau o ddogfennau hyfforddiant a hwsmonaeth a cheisio ail farn.

## 5.0 Amgylchedd Addas

- Os ydynt ar gael, rhaid cadw at Godau Ymarfer a gyhoeddir gan lywodraeth. Rhaid i ddeiliaid trwydded sicrhau bod anifeiliaid yn cael eu cadw i safon ofynnol fel yr amlinellir yn safonau sw, neu argymhellion diwydiant neu sefydliadau anllywodraethol cymwys. Lle nad yw’r rhain yn bodoli, rhaid ystyried safonau ar gyfer rhywogaethau tebyg neu gysylltiedig o ran eu priodoldeb, ac addasu’r safonau mewn modd perthnasol. Sylwer: os nad safonau gwerthu sy’n cael eu defnyddio, rhaid ystyried sefyllfa’r anifail ac a yw mewn llety parhaol neu lety gwerthu dros dro. Os mai’r ail sy’n wir, rhaid nodi bod y rhan fwyaf o ganllawiau hwsmonaeth yn canolbwyntio ar lety parhaol nad yw efallai’n briodol mewn mangre werthu a gellid ystyried ardaloedd llai, ond nid manyleb ffensio. Bydd agweddau eraill ar ofal yn debygol o fod yn berthnasol ond rhaid defnyddio synnwyr cyffredin ym mhob sefyllfa unigol.

- Os nad oes rhywogaethau tebyg a dim nodiadau canllaw ar hwsmonaeth, neu debyg, yna mae'n rhaid i'r arolygydd gwestiynu o ddifrif a ddylid trwyddedu deiliad y drwydded i stocio a gwerthu'r rhywogaethau hynny i'r cyhoedd.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

Mewn llawer o achosion, nid yw trin yr anifail o fudd i les yr anifail, ac mewn achosion o'r fath, rhaid i hynny ddigwydd cyn lleied ag sy'n bosibl**.**

**Safon Uwch**

- Rhaid i raglen ysgrifenedig fod ar gael sy'n nodi amrywiaeth y ddarpariaeth gyfoethogi briodol.

# Rhan J – Adar

## 3.0Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid

- Rhaid i staff feddu ar wybodaeth amlwg am y rhywogaeth neu rywogaethau cysylltiedig.
- Rhaid gofyn am gyngor ar hwsmonaeth rhywogaethau na manylir yn benodol arnynt isod oddi wrth berson cymwys priodol, er enghraifft arolygwyr trwyddedau swau, ceidwaid preifat profiadol neu fridwyr neu unigolion â chymwysterau priodol, gan gynnwys milfeddygon a restrir ar wefan Cymdeithas Sŵolegol Milfeddygol Prydain (BVZS)
- Mewn achos lle nad yw lled yr adenydd wrth hedfan yn hysbys, gellir defnyddio amcangyfrif bras o ddwy i dair gwaith hyd yr aderyn (o flaen y pig i flaen y bluen hiraf ar y gynffon) fel canllaw ar gyfer lled yr adenydd wrth hedfan.

## 5.0 Amgylchedd Addas

- Rhaid cymryd gofal lle mae adardai neu gewyll wedi'u hadeiladu o rwyll alfanedig newydd i atal gwenwyn metel trwm, yn enwedig mewn parotiaid, sydd yn aml yn cnoi'r metel. Rhaid i ddeiliad y drwydded allu dangos y camau a gymerwyd i leihau neu atal unrhyw wenwyno.
- Dylai cewyll ac adardai gael eu hadeiladu gan ddefnyddio'r deunyddiau mwyaf addas ar gyfer y rhywogaeth dan sylw. Gall hyn gynnwys rhwyll, pren neu blastig, neu gyfuniad o ddeunyddiau.
- Pan gedwir adar nad ydynt yn hedfan, rhaid i ddimensiynau'r lloc adlewyrchu'r arferion gorau presennol ar gyfer y rhywogaethau unigol gan ddefnyddio ffynonellau tebyg i'r rheini a amlinellir ar gyfer mamaliaid yn Rhan 1 Adran 4.0

**Safon Uwch**

- Rhaid i feintiau cewyll/adardai fodloni, neu ragori ar, y gofynion uwch a nodir isod. Rhaid i faint y lloc ganiatáu i'r aderyn gael amrywiaeth a dewis yn ei amgylchedd.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau amgaeëdig**

- Mae angen cewyll mwy o faint na'r maint lleiaf ar gyfer y rhywogaeth ar bob aderyn coedol anaeddfed, o'r adeg pan mae'n magu plu ac am sawl wythnos wedi hynny, er mwyn ei ysgogi i hedfan.
- Pan fo aderyn yn defnyddio cawell ar gyfer cysgu, a bod y rhan fwyaf o'r diwrnod yn cael ei dreulio y tu allan i'r cawell mewn adardy hedfan lle caiff yr opsiwn i hedfan, yna rhaid i hyd, dyfnder ac uchder y cawell fod 1.5x yn fwy na lled adenydd yr aderyn wrth hedfan.
- Ar gyfer adar sydd wedi'u lletya'n unigol sy'n treulio'r rhan fwyaf o'u hamser mewn cawell, rhaid i'r cawell fod o leiaf 2x lled adenydd yr aderyn wrth hedfan o ran yr hyd, ac 1.5x y lled ar gyfer dyfnder ac uchder y cawell. Rhaid i ddau aderyn neu fwy fod â chawell sydd o leiaf 2x lled eu hadenydd pan maent yn hedfan.
- Mewn cewyll amlfeddiannaeth, dylai arwynebedd llawr y cawell neu'r adardy gynyddu yn ôl y ganran a nodir yn Nhabl J-01/J-02 ar gyfer pob aderyn ychwanegol dros ddau aderyn mewn cawell neu adardy.
- Caiff adar sydd fel arfer wedi'u cyfyngu i lociau llai at ddiben penodol dodwy wyau a/neu fagu cywion (yn enwedig ieir a cholomennod) eu heithrio o'r dimensiynau maint cawell y cyfeiriwyd atynt. Fodd bynnag, dylid lleihau'r amser y caiff yr adar eu

cadw yn y llociau hyn ac ni ddylai fod yn fwy na 5 mis mewn unrhyw gyfnod 12 mis beth bynnag. Rhaid i fusnesau hefyd ddarparu tystiolaeth sy’n seiliedig ar ganlyniadau i ddangos bod lles yr adar yn cael ei fodloni, gan gyfeirio at ganllawiau yng ngweddill y ddogfen hon, a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â’r gofynion cyfreithiol a bennir mewn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol arall.

- Lle y bo’n briodol, rhaid i adardai awyr agored gynnwys digon o ofod cysgodol a gofod heb fod yn gysgodol. Rhaid i’r gofod cysgodol fod yn ddigon i ganiatáu i’r holl adar lochesu ar yr un pryd ac os oes modd, dylid gorchuddio traean o adardy nodweddiadol gyda deunyddiau sy’n gwrthsefyll gwynt a glaw.
- Os oes adardy hedfan ar wahân ar gael, rhaid i ddeiliad y drwydded allu dangos i’r arolygydd pa mor aml y mae’r adar yn gallu cael mynediad i’r adardy mwy hwn. Rhaid gallu dangos bod mynediad ar gael i bob aderyn am o leiaf 6 awr mewn cyfnod o 24 awr bob dydd.
- Rhaid i faint tyllau’r rhwyll fod yn ddigon bach fel nad yw’r adar sy’n cael eu lletya ynddo yn gallu rhoi eu pennau na’u hadenydd drwyddynt. Rhaid i drwch y rhwyll fod yn ddigon trwchus fel na all yr adar ei dorri na’i blygu.
- Rhaid i unrhyw ystafelloedd y mae gan adar fynediad iddynt fod ag awyru digonol, sy'n briodol i'r rhywogaeth, er mwyn caniatáu digon o newid aer i atal unrhyw fygdarth neu lwch rhag cronni heb beryglu tymheredd neu greu drafftiau
- Fel sy’n briodol i rywogaethau, rhaid rhoi dŵr i adar ar gyfer ymolchi a chymhennu er mwyn annog iechyd plu.
- Ni ddylai adar fod yn agored i fwg gwenwynig neu fwg coginio yn yr ardaloedd lle cânt eu cadw, gan y gall y rhain fod yn wenwynig i’r adar e.e. gwenwyn Teflon. O ganlyniad, ni ddylid lleoli adardai wrth ymyl ceginau neu ystafelloedd ymolchi.
- Dylai fod gan adardai do wedi’i orchuddio â rhwydi gyda maint rhwyll digon bach fel na all yr adar ynddo roi eu pen neu eu hadain drwyddo neu do o adeiladwaith solet oherwydd presenoldeb ffliw adar mewn adar dŵr mudol.

**Safon Uwch**

- Dylai’r lle sydd ar gael i adar unigol gynyddu yn ôl y ganran briodol ar gyfer y rhywogaeth fel y nodir yn Nhabl J-01/J-02.
- Rhaid darparu amrywiaeth o is-haenau, gan gynnwys amrywiaeth o glwydi ar gyfer adar coedol. Rhaid darparu clwydi o drwch a deunyddiau amrywiol.
- Rhaid i bob cawell fod â mynediad uniongyrchol i adardy hedfan, a dylai fod rhwydd hynt i’r adar fynd iddo pryd bynnag y byddant am wneud hynny.

**Sarn ac is-haen**

- Rhaid cael digon o le clwydo i bob aderyn ar yr un pryd. Rhaid lleoli clwydi i annog gweithgarwch, yn ddelfrydol hedfan, ac fel nad yw adar yn ymgarthu ar ei gilydd nac i mewn i lestri bwyd.
- Rhaid i glwydi fod yn amrywiol, ac ni ddylent fod yn arw er mwyn atal y cyflwr troed cnapiog.
- Dylid darparu is-haen addas ar gyfer adar sy’n nythu ar y ddaear sy’n crafu a fforio (e.e. ieir, soflieir).

- Rhaid i glwydi fod ar gael yn yr ardal hedfan awyr agored ac yn y man cysgodi a chysgu yn yr adardy. Rhaid gosod clwydi ar uchderau amrywiol, gan osod o leiaf ddau glwyd ym mhob lloc er mwyn i adar gael hedfan rhyngddynt.

**Tymheredd**

- Rhaid i dymheredd yr amgylchedd fod yn briodol i'r rhywogaeth. Rhaid osgoi tymereddau eithafol.

**Goleuni**


- Rhaid i lefelau goleuo geisio efelychu rhai golau dydd o ran dwysedd a lliw.
- Rhaid i rywogaethau sydd angen goleuadau UVB gael lampau allyrru UVB priodol wedi'u cynhyrchu i'w defnyddio gydag adar. Rhaid newid y rhain yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr, a rhaid monitro darpariaeth effeithiol drwy ddefnyddio mesurydd UV. Rhaid i dystiolaeth i'r perwyl hwn fod ar gael i arolygwyr.

**Safon Uwch**

- Rhaid monitro allbwn bylbiau UVB gyda mesurydd UV a'i gofnodi. Rhaid cofnodi gofynion sy'n benodol i rywogaethau, a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio.

**TABL J-01 ISAFSWM MAINT LLOC AR GYFER ADAR**

*Ar gyfer cewyll lle mae mwy nag un aderyn, rhaid i'r dimensiynau fod o leiaf 2 x yn fwy o ran hyd, uchder a dyfnder na lled yr adenydd hedfan, a dylai'r stocio ganiatáu i bob aderyn gael mynediad at adnoddau, yn enwedig clwydi.



WG43756

**Hyd**

**Lled yr adenydd wrth hedfan**

**TABL J-01 MAINT LLEIAF LLOCIAU AR GYFER ADAR**

| RHYWOGAETH | Hyd yr aderyn (o'r pen i flaen y gynffon) (cm) | Lled cyfartalog adenydd wrth hedfan (cm) | Dimensiynau lleiaf cewyll er mwyn caniatáu i adar hedfan (adar unigol yn unig)* (cm) (H 2x lled yr adenydd, D/U 1.5x lled yr adenydd) | | | Enghreifftiau o % y cynnydd mewn maint llociau ar gyfer pob aderyn ychwanegol >2 aderyn |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Hyd | Dyfnder | Uchder | |
| **Rhywogaethau Parotiaid** | | | | | | |
| Bydjis | 18 | 30 | 60 | 45 | 45 | 5 |
| Cocatiliaid | 30 | 48 | 96 | 72 | 72 | 10 |
| Adar cariad | 15 | 28 | 56 | 42 | 42 | 10 |
| Paracitiaid a chonwraod bach | 20 | 35 | 70 | 52.5 | 52.5 | 10 |
| Paracitiaid a chonwraod mawr, a macawiaid bach | 34 | 70 | 140 | 105 | 105 | 20 |
| Parotiaid yr Amason | 30 | 60 | 120 | 90 | 90 | 20 |
| Parotiaid llwyd Affricanaidd (gan gynnwys parotiaid Timneh) | 34 | 70 | 140 | 105 | 105 | 20 |
| Cocatŵod (bach - canolig) | 35 | 75 | 150 | 112.5 | 112.5 | 20 |
| Cocatŵod mawr a macawiaid | 85 | 110 | 220 | 165 | 165 | 20 |

| **Adar cawell ac adardai** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Caneris | 10-12 | 22 | 44 | 33 | 33 | 5 |
| Llinosiaid | 10-12 | 22 | 44 | 33 | 33 | 5 |
| Colomennod | 35 | 70 | 140 | 105 | 105 | 10 |
| Twracoaid | 40-50 | 50 | 100 | 75 | 75 | 20 |

## Nodiadau i gyd-fynd â'r Tablau

Nodyn 1 – dylid ystyried rhywogaeth yr aderyn wrth ddylunio'r man lle'i cedwir
Nodyn 2 - gall rhai adar bach fod â chynffonnau eithaf hir
Nodyn 3 – dylai rhywogaethau dofednod fod ag is-haen y gallant ei chrafu a'i phalu
Nodyn 4 – RHAID i gewyll amlfeddiannaeth ar gyfer pob rhywogaeth ddarparu digon o glwydi a phwyntiau bwyd a dŵr ar gyfer yr holl adar er mwyn osgoi cystadleuaeth a bwlio
Nodyn 5 – bydd cymysgu rhywogaethau yn dibynnu ar gydweddoldeb
Nodyn 6 – Ar gyfer rhywogaethau na nodir yn y tablau, dylid defnyddio'r meintiau cawell ar gyfer rhywogaeth o faint tebyg fel canllaw

Nodyn 7 – Cyfrifo arwynebeddau llawr gofynnol.

1. Cyfrwch yr adar yn y cawell a thynnwch 2
2. Lluoswch yr ateb o gam 1 gyda'r gwerth yn y golofn "Cynnydd mewn arwynebedd llawr i bob aderyn ychwanegol ($cm^2$) " ar gyfer y rhywogaeth gywir.
3. Adiwch yr ateb o gam 2 uchod at y gwerth yn y golofn "Isafswm arwynebedd ar gyfer 2 aderyn" ar gyfer y rhywogaeth gywir i gael yr arwynebedd llawr gofynnol mewn $cm^2$ ar gyfer nifer yr adar a gyfrwyd yn y cawell ar gyfer cam 1
4. Cyfrifwch arwynebedd llawr y cawell mewn $cm^2$ drwy luosi'r lled mewn cm gyda'r dyfnder mewn cm
5. Tynnwch yr ateb yng ngham 3 o'r ateb yng ngham 4
6. os yw'r ateb i gam 5 yn gadarnhaol, mae'r cawell yn ddigon mawr. Os yw'n negyddol, mae'n rhy fach

Cyfrifo gwerthoedd safon uwch.

1a. Cyfrifwch faint gofynnol y cawell drwy gwblhau camau 1-3.
2a. Cynyddwch yr ateb o gam 1a uchod gan ddefnyddio'r cynnydd canrannol yn yr arwynebedd llawr gofynnol ar gyfer y Safon Uwch i gael yr arwynebedd llawr gofynnol mewn $cm^2$

## TABL J-03 ENGHRAIFFT O FEINTIAU ARWYNEBEDD LLAWR LLOC ($cm^3$) AR GYFER LIOCIAU Â MWY NAG UN ADERYN

| **Safon Arolygiad** | Isafswm | *Uwch* | Isafswm | *Uwch* | isafswm | *uwch* | Minimum | *Higher* | Minimum | *Higher* |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer yr adar** | 3 | *3* | 4 | *4* | 5 | *5* | 6 | *6* | 7 | *7* |
| **Rhywogaethau Parotiaid** | | | | | | | | | | |
| Bydjis | 2625 | *5250* | 2750 | *5500* | 2875 | *5750* | 3000 | *6000* | 3125 | *6250* |
| Cocatiliaid | 5390 | *10780* | 5880 | *11760* | 6370 | *12740* | 6860 | *13720* | 7350 | *14700* |
| Adar cariad | 3450 | *6899* | 3763 | *7526* | 4077 | *8154* | 4390 | *8781* | 4704 | *9408* |
| Paracitiaid a chonwraod bach | 5390 | *10780* | 5880 | *11760* | 6370 | *12740* | 6860 | *13720* | 7350 | *14700* |
| Paracitiaid a chonwraod bach a macawiaid mawr | 8910 | *17820* | 9720 | *19440* | 10530 | *21060* | 11340 | *22680* | 12150 | *24300* |
| Parotiaid yr Amason | 17280 | *34560* | 20160 | *40320* | 23040 | *46080* | 25920 | *51840* | 28800 | *57600* |
| Parotiaid llwyd Affricanaidd (gan gynnwys parotiaid Timneh) | 20280 | *40560* | 23660 | *47320* | 27040 | *54080* | 30420 | *60840* | 33800 | *67600* |
| Parotiaid Senegal a Meyers | 7680 | *15360* | 8960 | *17920* | 10240 | *20480* | 11520 | *23040* | 12800 | *25600* |
| Cocatŵod (bach - canolig) | 20280 | *40560* | 23660 | *47320* | 27040 | *54080* | 30420 | *60840* | 33800 | *67600* |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cocatŵod a macawiaid | 69120 | *138240* | 80640 | *161280* | 92160 | *184320* | 103680 | *207360* | 115200 | *230400* |
| **Adar cawell ac adardai** | | | | | | | | | | |
| Caneris | 2033 | *4066* | 2130 | *4259* | 2226 | *4453* | 2323 | *4646* | 2420 | *4840* |
| Llinosiaid bach | 1361 | *2722* | 1426 | *2851* | 1490 | *2981* | 1555 | *3110* | 1620 | *3240* |
| Colomennod | 15840 | *31680* | 17280 | *34560* | 18720 | *37440* | 20160 | *40320* | 21600 | *43200* |
| Ieir | 28160 | *56320* | 30720 | *61440* | 33280 | *66560* | 35840 | *71680* | 38400 | *76800* |
| Bantamiaid | 8910 | *17820* | 9720 | *19440* | 10530 | *21060* | 11340 | *22680* | 12150 | *24300* |
| Soflieir | 1760 | *3520* | 1920 | *3840* | 2080 | *4160* | 2240 | *4480* | 2400 | *4800* |

**Glanhau**

- Rhaid clirio carthion ac wradau gan lanhau carthion o leiaf bob dydd, a glanhau'n ddyfnach ac yn fwy trwyadl  bob wythnos. Ar gyfer rhywogaethau sydd mewn iechyd gwael neu na ddylid tarfu arnynt yn ystod tymhorau bridio, dylid glanhau cyn lleied ag sy'n bosibl, cyn belled â bod amodau byw hylan priodol yn cael eu cynnal.
- Ni ddylid gosod cynhwysyddion bwyd a dŵr o dan glwydi lle gallant gael eu halogi gan ddom adar.
- Rhaid i'r lloriau fod yn dyllog neu'n bosibl i'w glanhau'n hawdd, gydag ystyriaeth i'r math o is-haen a ddewisir ac i sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl ar adar sy'n nythu ar y ddaear.

## 6.0 Deiet Addas

### Deiet

- Rhaid i adar sydd ei angen gael cyflenwad cyson o faint a fynnir o fwyd.
- Rhaid darparu atchwanegiadau bwyd fel y bo'n briodol i'r rhywogaeth dan sylw.
- Rhaid ystyried arferion bwydo arbenigol wrth ddylunio'r adardai e.e. mynediad i adardai bridio neu bentyrrau tail gwybedogion. Weithiau, gallai'r rhain ymddangos yn groes i'r disgwyliadau o ran hylendid, ac os oes unrhyw amheuaeth, rhaid ceisio cyngor arbenigol. Rhaid i ddeiliaid trwydded allu dangos y rhesymeg y tu ôl i unrhyw arferion bwydo arbenigol sy'n cael eu defnyddio.

### Safon Uwch

- Rhaid ceisio cyngor maethol arbenigol lle y bo'n briodol.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

### Cyfoethogi

- Rhaid i lociau gael eu dylunio, eu dodrefnu a bod o faint sy'n caniatáu i drigolion arddangos amrywiaeth o ymddygiadau naturiol, gan gynnwys hedfan, dringo a chuddio fel y bo'n briodol.
- Rhaid darparu teganau addas i barotiaid, a rhywogaethau eraill fel y bo'n briodol, sy'n eu hannog i chwarae ac i 'chwilota' am fwyd.
- Rhaid gorchuddio o leiaf un ochr o gewyll ac adardai (un o'r ochrau llorweddol) mewn deunydd di-draidd, fel nad yw'r adar yn agored i darfu a chael eu gweld o bob cyfeiriad.
- Rhaid i adar ysglyfaethus sy'n destun atal ar dennyn am ran o'u bywydau gael eu hedfan o leiaf bedair gwaith yr wythnos, oni bai eu bod ar dennyn o dan gyngor milfeddygol am driniaeth feddygol. Rhaid i ddeiliaid trwydded beidio â chadw unrhyw aderyn ar dennyn yn barhaol. Rhaid rhoi cyfle i bob aderyn hedfan neu symud o gwmpas yn rhydd yn ystod rhan o'r flwyddyn, er enghraifft mewn adardy (rhydd agored) am gyfnodau gorffwys o werthu, arddangosiadau, bridio neu fwrw plu. Y cyfnod a argymhellir yw o leiaf mis mewn cyfnod o ddeuddeng mis, ond mae'n well os yw'n digwydd yn ddyddiol neu dros nos.

**Safon Uwch**

- Ni ddylid lletya na gwerthu adar gyda'u hadenydd wedi'u clipio. Dylid cadw adenydd yn gyfan, a mynd ati'n fwriadol i annog hedfan.
- Rhaid i bob aderyn ysglyfaethus, neu adar hyfforddedig eraill lle y bo'n briodol, gael cyfnodau hedfan dyddiol; naill ai mewn adardai neu hedfan y tu allan dan ofal person cymwys.
- Rhaid newid dodrefn yn rheolaidd er mwyn darparu newydd-deb, a chynllunio llociau i roi dewis i'r anifeiliaid oddi mewn iddynt.

**Cynefino**

- Rhaid trin yr adar cyn lleied ag sy'n bosibl bob amser, ac eithrio lle gall deiliad y drwydded ddangos bod eu trin er lles gorau'r anifail e.e. at ddibenion gwirio iechyd, hedfan adar ysglyfaethus ac ati.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

**Safon Uwch**

- Rhaid i ddeiliad y drwydded fod ag arwyddion sy'n nodi adar a allai fod yn ymosodol, gan gynnwys adardai/cewyll wedi'u labelu'n glir.
- Ni ddylid tynnu adar oddi wrth eu rhieni (ar gyfer 'magu â llaw') nes bod eu llygaid wedi bod ar agor am fwy nag wythnos, er mwyn osgoi'r risg o gamimprintio ar bobl fel adar llawndwf.

**Rhyngweithio**

- Rhaid cadw rhywogaethau cymdeithasol mewn grwpiau cymdeithasol sy'n addas i'r rhywogaeth. Os nad yw hyn yn bosibl, rhaid rhoi sylw arbennig i ryngweithio dynol penodol a rhaid darparu cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer pob aderyn sy'n cael ei letya'n unigol
- Rhaid i benderfyniadau i letya rhywogaethau adar cymdeithasol fesul pâr neu grŵp gael eu gwneud gan staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- Rhaid cadw at gymarebau rhyw penodol i rywogaethau a meintiau grŵp addas, gan gofio ystyried y potensial ar gyfer ymddygiad ymosodol parhaus.
- Dim ond rhywogaethau cydnaws ddylid eu cadw'n gymunedol.
- Yn benodol, rhaid ystyried rheoli rhywogaethau parotiaid, y gwyddys eu bod yn gymdeithasol ac yn byw mewn heidiau, yn y trefniadau lletya a'r dwyseddau stocio.
- Rhaid lletya pob aderyn anaeddfed gyda, NEU yn agos iawn at, adar eraill o'u rhywogaethau eu hunain neu rywogaethau tebyg, gan ddefnyddio cewyll neu adardai cyfagos lle mae cysylltiad gweledol ar gael.
- Lle mae problemau ymddygiad yn debygol o ddigwydd mewn adar llawndwf nad ydynt yn gytrefol, rhaid ystyried eu cadw ar wahân ond yn agos at yr un rhywogaeth, gyda chysylltiad gweledol ar gael. Mae enghreifftiau o rywogaethau sy'n bridio mewn grŵp yn cynnwys bydjis a chocatiliaid, gyda bridwyr cytrefol yn cynnwys parotiaid llwyd Affricanaidd, parotiaid yr Amason a chocatŵod. Unwaith y bydd rhywogaethau nad ydynt yn nythu'n gytrefol yn dod yn agos at oedran bridio,

gall cadw dau neu fwy mewn cawell fod yn beryglus, gan y gall pâr o adar o oedran bridio fod yn ymosodol tuag at ei gilydd/eu cymar eu hunain.

**Safon Uwch**

- Rhaid rheoli adar llawndwf nad ydynt yn gytrefol mewn grwpiau mawr, er mwyn caniatáu lle i adar ddianc rhag ei gilydd os oes angen hynny er mwyn lleihau'r risg o broblemau ymddygiad. Rhaid darparu digon o staff i reoli'r boblogaeth yn ôl yr angen.

# Rhan K – Ymlusgiaid ac Amffibiaid

**Byrfoddau**

SVL Hyd trwyn i'r pen-ôl (pellter o'r trwyn i'r cloaca).

STL Hyd trwyn i'r gynffon (pellter o'r trwyn i flaen y gynffon).

SCL Hyd argragen syth (hyd syth y rhan grom o gragen crwban). Argragen yw rhan uchaf grom cragen crwban neu derapin, yn hytrach na'r rhan isaf wastad sef y torblat

PL Hyd torblat

## 3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a'r Mathau o Anifeiliaid

- Rhaid i staff feddu ar wybodaeth amlwg am y rhywogaeth neu rywogaethau cysylltiedig.

## 5.0 Amgylchedd Addas

**Atal perygl o anaf, salwch a dianc**

- Rhaid i fifaria ganiatáu ar gyfer glanhau'n rhwydd a chynnal safonau hylan. Mae hyn yn cynnwys defnyddio deunyddiau anhydraidd ar gyfer adeiladu.
- Rhaid cadw anifeiliaid gwenwynig mewn llociau priodol a diogel (gyda dulliau addas o awyru sy'n atal dianc).
- Rhaid i ardaloedd gwasanaethu ar gyfer rhywogaethau gwenwynig fod yn ddiogel. Rhaid i ardaloedd gwasanaethu fod yn rhydd o ffyrdd i ddianc neu leoedd cuddio, er enghraifft, mynediad i waliau ceudod.
- Rhaid i'r llociau sy'n cynnwys rhywogaethau gwenwynig gael eu marcio'n unigol gydag arwyddion rhybudd yn nodi'r rhywogaeth a nifer yr anifeiliaid.
- Rhaid cadw llociau anifeiliaid gwenwynig dan glo a dim ond personau awdurdodedig ddylai allu cael mynediad.

**Amodau amgylcheddol, gan gynnwys meintiau**

- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl K-01
- Rhaid i faint y fifariwm ganiatáu cynnal graddiant thermol thermostat amlwg sy'n briodol i rywogaethau.
- Rhaid i bob fifariwm ddarparu lleoedd cuddio neu loches sy'n briodol i bob rhywogaeth.
- Rhaid i'r fifariwm fod yn ddigon mawr i ganiatáu mathau gwahanol o weithgarwch i'r anifeiliaid gan gynnwys gorffwys, rheoleiddio tymheredd, bwydo, cuddio ac, os yn berthnasol, nofio.
- Rhaid i **Uchder a Lled** y lloc fod yn briodol i'r rhywogaeth, gyda rhywogaethau coedol angen mwy o uchder na rhywogaethau daearol, ac addasu'r argymhellion isod yn unol â hynny: wrth ystyried maint fifariwm ar gyfer rhywogaethau coedol, rhaid i ddeiliad y drwydded gynyddu'r uchder i'r meintiau a amlinellir isod, a gall leihau hyd dimensiynau'r fifariwm o draean.

- Mae'r canllawiau canlynol ar faint fifariwm ar gyfer un ymlusgiad a/neu amffibiad, hyd at uchafswm o bedwar anifail ar gyfer rhywogaethau a reolir fesul grŵp, **oni nodir yn benodol**. Ar gyfer 5-8 anifail, rhaid i meintiau'r lloc ddyblu, a threblu ar gyfer 9-12 anifail, ac yn y blaen.
- Nid yw'r rhan fwyaf o amffibiaid ac ymlusgiaid yn gymdeithasol ac felly gellir eu cadw'n unigol. Rhaid i benderfyniadau i letya rhywogaethau amffibiaid neu ymlusgiaid fesul pâr neu grŵp gael eu gwneud gan staff cymwys sydd wedi'u hyfforddi'n briodol. Rhaid cadw at gymarebau rhyw penodol i rywogaethau a meintiau grŵp addas, gan gofio ystyried y potensial ar gyfer ymddygiad ymosodol parhaus.
- Dim ond rhywogaethau cydnaws o faint tebyg ac o gynefinoedd ac ardaloedd daearyddol tebyg y mae'n rhaid eu cadw'n gymunedol.
- Yn gyffredinol, nid yw llociau ar gyfer dosbarthiadau cymysg (e.e. madfallod a chrwbanod) yn cael eu hargymell, er bod palwdaria (fifaria gydag ardaloedd daearol a dyfrol) sy'n cyfuno pysgod ag ymlusgiaid bach a/neu amffibiaid o rywogaethau priodol yn dderbyniol.
- **Brogaod a Llyffantod**: Yn gyffredinol, nid yw cymysgu dosbarthiadau (e.e. brogaod a llyffantod) yn cael ei argymell. Rhaid lletya rhywogaethau canibalaidd, fel brogaod corniog (Ceratophrys sp.) a marchlyffantod Affricanaidd (Pyxicephalus sp.) yn unigol.
- Gellir lletya **ymlusgiaid** yn unigol neu mewn grwpiau bach, o'r un rhywogaeth. Rhaid lletya rhywogaethau canibalaidd (e.e. marchseirff Lampropeltis spp., madfallod llewpart Gambelia spp.) yn unigol, ac anifeiliaid gwryw mewn cyflwr bridio yn yr un modd.
- Rhaid i rywogaethau dyfrol allu nofio (neu ymsuddo) yn ddigonol, h.y. rhaid i ddyfnder dŵr fod o leiaf 2 waith hyd (trwyn i ben-ôl) yr anifail lle bo hynny'n briodol ar gyfer y rhywogaeth. Dylid addasu dyfnder y dŵr yn unol ag anghenion penodol y rhywogaeth.
- Er mwyn atal trawma, rhaid bod yn ofalus wrth ddefnyddio deunyddiau ag arwynebau garw (e.e. rhwyll fetel) wrth adeiladu fifaria, oni bai bod gofynion sy'n benodol i rywogaethau sy'n cymell eu defnydd e.e. ar gyfer rhywogaethau sydd angen cyfraddau awyru uchel. Lle y bo'n bosibl, mae'n well cael plastig neu ddeunyddiau amgen addas eraill.
- Ar gyfer rhywogaethau ymlusgiaid neu gyfnodau bywyd lle mae tystiolaeth yn awgrymu bod angen ardaloedd llai ar gyfer bwydo a/neu ddiogelwch, yna rhaid cynnal yr anifail mewn fifariwm priodol i'w faint (fel y'i diffinnir isod) ac ychwanegu nifer o guddfannau bach, gan sicrhau bod gan yr anifail y dewis i symud allan i'r fifariwm ehangach ar unrhyw adeg a galluogi rheolaeth tymheredd priodol tra'n sicrhau bod yr ymlusgiaid yn teimlo'n ddiogel. Os oes cofnod o broblemau o ran bwydo ymlusgiaid unigol mewn ardaloedd mwy, gellir eu cynnal a'u cadw mewn llociau llai.

**Safon Uwch**

- Rhaid i feintiau fifaria a pharamedrau amgylcheddol cysylltiedig fodloni neu ragori ar y rhai a amlinellir yn y safonau uwch (tabl K-02).
- Rhaid cadw nadroedd mewn lloc sydd â'i hyd yn 1xSTL er mwyn iddynt fedru ymddwyn yn eu ffordd arferol ac ymestyn yn llawn

**Sarn ac is-haen**

- Gall yr is-haen gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: tywelion papur, naddion rhisgl, naddion pren, hwmws terariwm, mwsogl, graean, tywod terariwm, yn dibynnu ar y rhywogaeth.
- Rhaid i rywogaethau sy'n tyrchu gael is-haen briodol i hwyluso tyrchu.
- Rhaid cymryd camau i atal amlyncu'r is-haen gymaint ag sy'n bosibl.
- Argymhellir graddiant lleithder ar gyfer llawer o amffibiaid. Mewn lleoliadau sy'n cael eu niwlo yn rheolaidd i gadw lefelau lleithder yn uwch, mae'n bwysig bod haen ddraenio yn cael ei darparu yn y lloc er mwyn i'r is-haen fynd yn ddyfrlawn. Rhaid ystyried draenio ym mhob lleoliad lle mae perygl o ddyfrlenwi.

**Tymheredd**

- Rhaid i ddeiliaid trwydded allu dangos bod llociau'n darparu graddiant thermol priodol (yr ystod tymheredd o ben oer i ben poeth y fifaria) ar gyfer pob rhywogaeth.
- Rhaid monitro tymheredd gan ddefnyddio dull dibynadwy a chyson, gyda deiliaid trwydded yn gallu dangos bod systemau ar waith i ganiatáu asesu'r ystod o dymheredd y mae anifail yn ei wynebu dros gyfnod o 24 awr e.e. defnyddio thermomedr tymheredd uchaf/isaf.
- Rhaid gwirio'r tymheredd yn ddyddiol wrth osod fifariwm ac unwaith y bydd y tymheredd yn sefydlog, lle mae ffynonellau gwres yn cael eu rheoli'n thermostatig, gellir lleihau'r asesiad i unwaith yr wythnos.
- Rhaid cofnodi'r tymheredd targed priodol ar gyfer pob rhywogaeth mewn gweithdrefnau ysgrifenedig a dylid cynnwys ystod tymheredd amgylchol y dydd, y tymheredd amgylchol isaf yn ystod y nos, tymheredd yr ardal dorheulo (lle y bo'n briodol), a gofynion UV (lle y bo'n briodol). Lle nad oes diffiniad clir o dymereddau amgylchol a thorheulo ar gael ar gyfer rhywogaeth, yna gellir diffinio'r ystod drwy ddefnyddio rhywogaeth debyg, o gynefin daearyddol tebyg. Ar gyfer rhywogaethau lle nad oes canllawiau gofal hysbys, a bod angen hwsmonaeth arbenigol, ni ddylid gwerthu'r rhywogaethau hyn i'r cyhoedd, dim ond i geidwaid arbenigol cymwys.
- Rhaid cofnodi unrhyw wyriadau o'r ystod dymheredd ddisgwyliedig, ynghyd â'r camau a gymerwyd i sicrhau bod y tymheredd priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer yr anifail.
- Rhaid rheoli offer gwresogi drwy ddefnyddio thermostatau, lle bo hynny'n gydnaws, a lleoli'r fifaria er mwyn atal gorboethi.
- Pan ddefnyddir systemau rhesel neu fifaria eraill mewn ystafelloedd wedi'u gwresogi'n sefydlog, mae monitro tymheredd un blwch fesul lefel yn dderbyniol os bydd hapwiriadau'n dangos bod y tymereddau a gofnodwyd yn gynrychioliadol o'r systemau rhesel eraill yn y gofod a rennir, a bod y tymheredd yn cael ei gynnal yn yr ystod cywir ar gyfer y rhywogaethau sy'n cael eu lletya. Yn ystod yr arolygiad, rhaid i ddeiliaid trwyddedau allu dangos bod hyn yn wir.
- Rhaid i dymereddau amgylchol a thorheulo fod yn briodol i'r rhywogaeth dan sylw, gyda'r canllawiau canlynol ar gyfer rhywogaethau arferol. Mae'r ystod tymheredd amgylchol isod yn cynrychioli'r graddiant thermol o'r pen oer i ben poeth y lloc:
- Rhaid i ddeiliaid trwyddedau a staff gael mynediad at ddeunydd cyfeirio credadwy perthnasol ar gyfer paramedrau amgylcheddol arferol.

- Gellir darparu ardaloedd torheulo drwy ffynonellau gwres darfudol neu wres pelydrol (e.e. bylb golau, neu fat gwres), fel y bo'n briodol i'r rhywogaeth.
- Rhaid i ffynonellau gwres, daearol a dyfrol, gael eu gwarchod neu eu lleoli fel nad yw'n bosibl i anifeiliaid sy'n byw yn y lloc gael unrhyw gysylltiad uniongyrchol â'r elfen wresogi. Mae hyn yn cynnwys ffynonellau golau sy'n allyru gwres, ond nid yw'n cynnwys matiau gwres a chreigiau poeth neu ddyfeisiau gwresogi tebyg o'r fath.
- Rhaid darparu cuddfannau/llochesi mewn gwahanol ardaloedd ar draws y graddiant thermol.

**Safonau Uwch**

- Ar gyfer fifaria sefydlog yn thermostatig, rhaid cynyddu asesiadau i 3 gwaith yr wythnos i gofnodi uchafswm ac isafswm tymheredd.
- Ar gyfer rhywogaethau sy'n profi syrthni dros gyfnodau oer, rhaid
- i gyfleusterau dynodedig fod ar gael a pholisi cysylltiedig ynghylch tymheredd a gofynion hwsmonaeth eraill fod ar gael i'w harchwilio.
- Rhaid arddangos mynegai graddiant thermol, lleithder ac UVB addas, lle bo hynny'n berthnasol, ar gyfer y rhywogaeth ar bob fifariwm.
- Lle y bo'n berthnasol, rhaid darparu o leiaf ddwy guddfan neu ardal gysgodol, wedi'u lleoli ar wahanol bwyntiau o'r graddiant thermol.

**Ansawdd dŵr**

- Rhaid i amffibiaid dyfrol a lled-ddyfrol gael mesur ansawdd dŵr tebyg i'w fesur ar gyfer pysgod, gyda gofynion penodol i rywogaethau'n cael eu bodloni.
- Rhaid i ddŵr ar gyfer amffibiaid o rywogaethau dyfrol fod yn ddŵr wedi'i ddatglorineiddio. Ymhlith y dulliau o wneud hynny mae cynaeafu dŵr glaw, lle bo hynny'n briodol; neu ddefnyddio cynnyrch datglorineiddio masnachol.
- Rhaid golchi cynwysyddion yn drylwyr rhwng pob defnydd.
- Ar gyfer rhywogaethau lled-ddyfrol a dyfrol (terapiniaid, crwbanod y môr, crocodeiliaid) a rhywogaethau lle mae dŵr yn rhan o ddyluniad y lloc, rhaid i'r dŵr gael ei gadw mewn cyflwr hylan a glân.
- Lle y bo'n briodol, rhaid i derapiniaid gael ardal dirol ddigonol ar gyfer torheulo, a hynny fel arfer yn gymhareb tir i ddŵr o 25/75.

**Safon Uwch**

- Rhaid i fifaria ymlusgiaid mawr sefydledig neu barhaol gyda nodweddion dŵr fod â systemau hidlo dŵr ar waith i sicrhau bod hylendid yn cael ei gynnal.

**Goleuni**

- Rhaid i rywogaethau sydd angen goleuo UVB gael lampau allyrru UVB priodol a gynhyrchwyd ar gyfer eu defnyddio gydag ymlusgiaid ac amffibiaid, ac mae'n rhaid eu newid yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr. Wrth osod lamp newydd, rhaid defnyddio mesurydd UV (mesurydd UVI os oes modd) i sicrhau bod lefelau UVB digonol a phriodol yn cael eu darparu ar y lefel ble mae'r anifail wedi'i leoli. Rhaid gallu dangos tystiolaeth i'r arolygwyr o amlder newidiadau lamp ac asesu allbwn UVB wrth osod y lampau.

- Ni ddylid sgrinio ffynonellau goleuni UV gan wydr, rhwyll neu blastig sy'n atal trosglwyddo UV fel nad yw'r anifeiliaid yn derbyn y lefelau UVB priodol. Rhaid i anifeiliaid gael ardaloedd o gysgod fel eu bod yn gallu encilio o'r goleuni os ydynt yn dymuno.

**Safon Uwch**

- Rhaid monitro allbwn lampau UVB gyda mesurydd UV a'u cofnodi'n wythnosol. Rhaid cofnodi gofynion sy'n benodol i rywogaethau, a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio.

**TABL K-01 MAINT LLEIAF LLOC AR GYFER YMLUSGIAID AC AMFFIBIAID**

| Grŵp | Hyd | Lled | Uchder | Dyfnder dŵr (lle y bo'n briodol) |
|---|---|---|---|---|
| Brogaod a llyffantod | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 2x SVL |
| Madfallod dŵr a salamandrau | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>2x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 2x SVL |
| Nadroedd | Dim llai na 2/3 hyd STL | Dim llai na 1/3 hyd STL | - | Amherthnasol |
| Madfallod | 4x SVL | 2.5x SVL | - | Amherthnasol |
| Terapiniaid a chrwbanod y môr | 90cm<br>neu<br>5x SCL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 3x SCL | Amherthnasol | 4x uchder argragen* |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Crwbanod | 90cm<br>neu<br>5x SCL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 5x SCL | Amherthnasol | |
| Crocodeiliaid | Tir<br>2x SVL<br>Dŵr<br>2.5x SVL | Tir<br>1.5x SVL<br>Dŵr<br>2x SVL | Atal dianc | 0.3x SVL |

*Nid oes angen dŵr mor ddwfn ar rai terapiniaid


## TABL K-02 MAINT LLEIAF LLOC AR GYFER YMLUSGIAID AC AMFFIBIAID – SAFONAU UWCH

| **Grŵp** | **Uchafswm dwysedd stocio** | **Hyd** | **Lled** | **Uchder** | **Gofod fesul anifail ychwanegol** | **Dyfnder dŵr (lle y bo’n briodol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Brogaod a llyffantod | 3 | 30cm neu<br>6x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>6x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>6x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 1/3 hyd | 2x SVL |
| Madfallod dŵr a salamandrau | 3 | 30cm neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>2x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 30cm<br>neu<br>3x SVL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 1/3 hyd | 2x SVL |
| Madfallod | 1-4 | 4x SVL | 2.5x SVL | 2.5x SVL | 1/3 | Amherthnasol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Terapiniaid a chrwbanod y môr | 1-4 | 90cm neu<br>8x PL<br>(pa un bynnag sydd fwyaf) | 4x SCL | 2x SCL<br>+<br>20-30cm | 1/3 | 4x uchder argragen* |
| Crwbanod | 1-4 | 1 x hyd argragen gyfan | 4x SCL | 2x SCL<br>+<br>20-30cm | 1/3 | |
| Crocodeiliaid | 1 | Tir<br>4x SVL<br>Dŵr<br>5x SVL | Tir<br>3x SVL<br>Dŵr<br>4x SVL | Atal dianc | DDIM YN GYMWYS | 0.3x SVL |

*Nid oes angen dŵr mor ddwfn ar rai terapiniaid

Nodyn: Mae angen mwy o uchder ar rywogaethau coedol na rhywogaethau daearol, a dylid newid y meintiau a nodir uchod yn unol â hynny: rhaid i uchder fifariwm ar gyfer rhywogaethau coedol gynyddu i’r mesuriad a amlinellir uchod; gellir lleihau hyd y fifariwm o draean.




Argragen (rhan uchaf y gragen)
Torblat (rhan isaf y gragen)
HYD ARGRAGEN GYFAN

**Glanhau**

- Rhaid gwaredu carthion ac wradau o leiaf unwaith y dydd. Eithriad i hyn yw system sy'n cynnwys lloc fwy gyda rhywogaethau bach sydd â system reoli bioactif aeddfed.
- Rhaid cael rhaglen o reoli a thrin dŵr gwastraff ar gyfer pob amffibiad er mwyn sicrhau nad oes micro-organebau'n cael eu rhyddhau'n ddamweiniol. Yn benodol, rhaid i werthwyr amffibiaid drin dŵr gwastraff er mwyn atal lledaeniad chytridiomycosis (ffwng) a rhai cyflyrau feirysol cyn eu gwaredu i'r carthion e.e. sodiwm hypoclorit (>1% am 1 funud). Rhaid i dystiolaeth ynghylch y modd y cyflawnir hyn fod ar gael i arolygwyr.

**Safon Uwch**

- Rhaid i brotocolau ysgrifenedig penodol ar gyfer cwarantin a/neu atal rhyddhau chytridiomycosis a chyfryngau biolegol posibl eraill fod ar gael i'w harchwilio lle mae amffibiaid yn cael eu cadw.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- O ran infertebratau byw, rhaid eu porthi'n orfodol a/neu eu taenellu gydag atchwanegyn fitamin/mwynau addas yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ac yn unol ag anghenion penodol yr anifail.

**Bwydo**

- Rhaid i ddeiliaid trwydded gadw cofnodion ysgrifenedig o fwydo ar gyfer pob neidr, gan gynnwys cywion, ac mae'n rhaid iddynt fod ar gael i brynwyr ac arolygwyr.
- Mewn sefyllfaoedd lle mae'n hysbys bod yn well gan rywogaeth ymlusgiad penodol i fwyd gael ei adael am 24 awr, ystyrir bod yr arfer hwn yn dderbyniol ond rhaid ei adlewyrchu yn nhaflen gofal y rhywogaeth unigol.

**Dŵr**

- Rhaid i ddŵr ffres fod ar gael bob amser, ac eithrio ar gyfer rhai rhywogaethau anialwch, y dylid cynnig dŵr iddynt ar amlder sy'n addas i'r rhywogaeth.
- Fel sy'n briodol i rywogaethau, rhaid i amffibiaid ac ymlusgiaid allu cael gafael ar ddŵr ar ffurf sy'n caniatáu iddynt ymsuddo neu ymdrochi ynddo.
- Nid yw rhai rhywogaethau, megis cameleonod a rhai amffibiaid, yn aml yn yfed o ddŵr llonydd, a rhaid cynnig dŵr ar ffurf sy'n briodol iddynt, e.e. system ddiferion neu chwistrellydd.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

**Cyfoethogi**

- Rhaid dodrefnu llociau mewn modd sy'n caniatáu i drigolion arddangos ymddygiad naturiol, e.e. dringo neu guddio lle bo hynny'n briodol.
- Rhaid i bob fifariwm ddarparu lleoedd cuddio neu loches sy'n briodol i bob rhywogaeth.

**Cynefino**

- Rhaid trin yr anifail cyn lleied ag sy'n bosibl bob amser, ac eithrio pan all deiliad y drwydded ddangos bod ei drin er lles gorau'r anifail e.e. i gynefino'r anifail â chael ei drin at ddibenion gwirio iechyd. Mae cyswllt buddiol a chadarnhaol yn dibynnu ar y rhywogaeth, a gall gynnwys bwydo a hyfforddi.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

**Trin**

- Ar gyfer amffibiaid, rhaid defnyddio dŵr o ansawdd tebyg i'r un a ddefnyddir i'w lletya, yn aml dŵr wedi'i ddatglorineiddio, ar gyfer golchi dwylo cyn eu trin er mwyn atal niwed i rywogaethau â chroen llaith. Rhaid i ddwylo fod yn lân ac yn wlyb.

**Safon Uwch**

- Rhaid defnyddio menig nitril llaith di-bowdr, neu debyg, i drin amffibiaid.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

- Rhaid cael ardal bwrpasol ar gyfer storio celanedd, a honno ar wahân i storfeydd bwyd.

**Safon Uwch**

- Rhaid i ardal ynysu neu gwarantîn pwrpasol fod ar gael, gyda phrotocolau a pholisïau cysylltiedig ar waith i sicrhau bioddiogelwch y fangre.

## Part L – Pysgod

Mae “dŵr oer” yn cyfeirio at rywogaethau pysgod addurnol dŵr croyw gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i: Pysgod aur (pob math), carpiaid cyffredin (gan gynnwys Koi), ysgretennod, orfod, rhuddbysgod a rhywogaethau styrsiwn, sy’n cael eu cadw mewn acwaria/cafnau/pyllau heb eu gwresogi;

Mae “dŵr croyw trofannol” yn cyfeirio at yr holl rywogaethau pysgod addurnol dŵr croyw hynny y mae angen eu cadw mewn acwaria wedi’u gwresogi;

Mae “morol trofannol” yn cyfeirio at yr holl rywogaethau pysgod addurnol hynny y mae angen eu cadw mewn dŵr môr ac acwaria wedi’u gwresogi;

Mae “tymherus” yn cyfeirio at y rhywogaethau hynny sy’n addas ar gyfer acwaria heb eu gwresogi a gedwir mewn ystafelloedd gyda gwres canolog yn unig;

Mae “systemau canolog” yn cyfeirio at acwaria neu gafnau lluosog sydd wedi’u cysylltu drwy bibellau i danc swmp a hidlydd canolog. Mae dŵr yn cael ei ddosbarthu drwy’r system fel nad oes unrhyw ddŵr yn teithio’n uniongyrchol o un acwariwm/cafn i un arall ond bob amser drwy hidlydd biolegol ac (o bosibl) dyfeisiau eraill fel UV, oson ac ati. Mae ansawdd dŵr mewn systemau o’r fath yn gwbl ddibynnol ar reoli’r system gyfan.

Mae “system annibynnol” yn cyfeirio at acwaria neu gafnau nad ydynt yn rhannu dŵr ag eraill. Darperir hidlo (a gwresogi) yn unigol i bob acwariwm/cafn. Mae ansawdd dŵr mewn systemau o’r fath yn gwbl ddibynnol ar reoli pob acwariwm/cafn unigol;

### 3.0 Defnyddio Anifeiliaid, Nifer yr Anifeiliaid a’r Mathau o Anifeiliaid

- Mae dros 4,000 o rywogaethau o bysgod yn cael eu masnachu, a gellir diwallu eu hanghenion lles yn seiliedig ar gategoreiddio bras. Nid ystyrir bod angen nodi pob

pysgodyn unigol a gedwir mewn lleoliad ac nid yw hynny'n cael ei ystyried yn ymarferol ychwaith. Mae'n dderbyniol i bysgod gael eu categoreiddio mewn grwpiau bras, (i) dŵr oer, (ii) morol trofannol a (iii) dŵr croyw trofannol.

- Defnyddir cynnal safonau ansawdd dŵr i bennu pa ddwyseddau stocio sydd ar waith.
- Ni ddylid bodloni'r safonau ansawdd dŵr ar draul trefn fwydo gywir.
- Gallai eithriadau i'r safonau hyn ddigwydd e.e. pan fydd organebau dyfrol yn heintus, ar ôl cludo neu straen arall. Fodd bynnag, yn yr achosion hyn, rhaid cymryd camau adferol priodol e.e. trin, ymgynefino neu ynysu.
- Nid yw'n cael ei ystyried yn angenrheidiol nac yn ymarferol i nodi'r holl bysgod a gedwir mewn lleoliad yn unigol.

## 5.0 Amgylchedd Addas

### Atal perygl o anaf, salwch a dianc

- Rhaid i bysgod allu symud yn rhydd a throi o gwmpas mewn acwaria neu byllau.
- Bydd rhai cyfleusterau'n trin niferoedd uchel iawn o anifeiliaid yn ddyddiol, ac mewn cyfleusterau o'r fath, gellir disgwyl rhywfaint o ferddwr. Ble mae rhywfaint o ferddwr yn cronni, rhaid i bob cyfleuster gymryd rhagofalon i atal a rheoli lledaeniad clefydau a heintiau.

### Tymheredd

- Rhaid cynnal y tymheredd o fewn yr ystod orau ar gyfer y rhywogaethau pysgod dan sylw a'i gadw mor sefydlog â phosibl. Mae goddefiannau o +/- 5% yn dderbyniol. Rhaid i newidiadau yn y tymheredd ddigwydd yn raddol. Rhaid osgoi amrywiadau sydyn yn y tymheredd.
- Rhaid cynnwys ystodau tymheredd addas mewn gwybodaeth a ddarperir yn y pwynt gwerthu ar gyfer cwsmeriaid manwerthu.
- Rhaid monitro'r tymheredd yn ddyddiol, cofnodi unrhyw wyriadau o'r ystod ddisgwyliedig ac amlinellu'r mesurau adferol a gymerir.
- Yn ystod cyfnodau o dywydd arbennig o boeth neu oer, ceir mynd yn uwch neu'n is na'r paramedrau a nodwyd am gyfnodau byr. Yn aml, gall pysgod sydd o dan gwarantin neu sy'n cael triniaeth gael eu cadw ar dymheredd ychydig yn uwch (1-3 C yn uwch nag arfer).
- Pan fo'r tymheredd yn uchel, efallai y bydd angen darparu awyru atodol neu ocsigeneiddio'r dŵr yn yr acwariwm.
- Rhaid osgoi lleoli acwaria mewn ffenestri siopau fel nad yw pysgod yn agored i ormod o wres neu olau.
- Ni ddylai tymheredd y dŵr ar gyfer pysgod tymherus byth ddisgyn yn is na 17$^{o}$C. Diffinnir pysgod tymherus fel y rheini a werthir fel rhai sy'n addas ar gyfer acwaria heb eu gwresogi, ac sydd dim ond yn cael eu cadw mewn ystafelloedd sydd â gwres canolog. Rhaid ystyried yr ychydig rywogaethau pysgod yr ystyrir bod hynny'n addas ar eu cyfer a rhaid cynghori prynwyr yn unol â hynny am yr amodau priodol i ddiwallu anghenion lles y pysgod. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid i ddeiliaid trwydded fabwysiadu agwedd ofalus (h.y. oni bai bod y rhywogaeth yn rhywogaeth dŵr oer gydnabyddedig, rhaid ei chadw mewn acwariwm sydd wedi'i wresogi h.y. mewn acwariwm â gwresogydd sy'n cael ei reoli gan thermostat).

**Safon Uwch**

- Rhaid arddangos ystod addas o dymheredd ar gyfer y pysgod ar bob system unigol.

**Ansawdd dŵr**

- Rhaid i safonau dŵr gofynnol gydymffurfio â'r rhai a amlinellir yn Nhabl L-02.
- Rhaid gwirio ansawdd y dŵr o leiaf bob wythnos a chadw cofnodion o'r holl ganlyniadau ar gyfer amonia a nitraid. Rhaid cynnal profion dŵr mewn tanciau wedi'u stocio.
- Rhaid profi systemau canolog o leiaf bob wythnos. Rhaid profi 10% o danciau neu gafnau wedi'u hidlo'n unigol bob wythnos. Ceir defnyddio dulliau electronig i brofi am y paramedrau perthnasol. Mewn acwaria neu gafnau lle mae arolygiad gweledol yn awgrymu ymddygiad neu farwolaethau anarferol, a rhaid cymryd y camau adferol angenrheidiol a chadw cofnod ohonynt.
- Mae amonia a nitraid yn wenwynig i bysgod, a rhaid osgoi croniadau o'r naill a'r llall.
- Ni ddylai pysgod fod yn destun amrywiad sydyn yng nghyfansoddiad cemegol eu dŵr, ac eithrio ar gyfer trin clefydau rheoledig neu fel rhan o raglen fridio reoledig. Os oes unrhyw amheuaeth, rhaid ceisio cyngor arbenigol.

**Safonau uwch**

- Rhaid asesu ansawdd dŵr o leiaf 2 waith yr wythnos a chadw cofnod o ganlyniadau'r profion. Os nad yw'r paramedrau o ran ansawdd dŵr yn bodloni'r gofynion, rhaid cofnodi'r camau adferol a gymerir i adfer paramedrau derbyniol.
- Rhaid darparu tystiolaeth bod systemau UV yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

**Goleuni**

- Rhaid cadw pysgod ar ffotogyfnod priodol (h.y. cylch dydd/nos) cyn belled ag y bo modd.
- Ar gyfer pysgod a gedwir mewn pyllau awyr agored, cafnau a thanciau stoc, rhaid darparu cysgod o olau haul uniongyrchol, er enghraifft, drwy ddarparu planhigion neu gysgod arall.

**Safon Uwch**

- Ar gyfer mangreoedd heb olau naturiol, rhaid cael systemau a/neu weithdrefnau awtomataidd ar waith i sicrhau newid graddol mewn lefelau goleuni.

**TABL L-02 ISAFSWM SAFON OFYNNOL ANSAWDD DŴR**

| Paramedr ansawdd dŵr | Safon mesur |
|---|---|
| **RHYWOGAETHAU DŴR OER** | |
| Amonia Rhydd | uchafswm o 0.02mg/l |
| Nitreidiau | uchafswm o 0.2mg/l |
| Ocsigen tawdd | lleiafswm 6mg/l |

| | |
|---|---|
| Nitradau | uchafswm 50mg/l uwchlaw dŵr tap amgylchol |
| **RHYWOGAETHAU DŴR CROYW TROFANNOL** | |
| Amonia Rhydd | uchafswm o 0.02mg/l |
| Nitreidiau | uchafswm o 0.2mg/l |
| Ocsigen tawdd | lleiafswm 6mg/l |
| Nitradau | uchafswm 50mg/l uwchlaw dŵr tap amgylchol |
| **RHYWOGAETHAU MOROL TROFANNOL** | |
| Amonia Rhydd | uchafswm o 0.01mg/l |
| Nitreidiau | uchafswm o 0.125mg/l |
| Nitradau | uchafswm o 100mg/l |
| pH | lleiafswm 8.1 |
| Ocsigen tawdd | lleiafswm 4mg/l |

**Glanhau**

- Rhaid cadw pob acwariwm/cafn/pwll yn rhydd o groniadau arnofiol o gynnyrch gwastraff neu fwyd heb ei fwyta. Gall croniadau gormodol effeithio ar ansawdd dŵr ac felly niweidio iechyd pysgod. Rhaid gwaredu deunydd gwastraff yn ôl yr angen. Rhaid i gyfundrefnau glanhau fod yn sensitif i anghenion penodol i rywogaeth e.e. gall rhai rhywogaethau pysgod elwa ar gronni algaidd rheoledig er mwyn hybu ymddygiad pori. Rhaid cymryd gofal er mwyn lleihau straen i'r eithaf wrth lanhau.

**Hygyrchedd i staff**

- Rhaid i systemau rhesel fod yn hygyrch drwy ddefnyddio ysgol fach neu ddull tebyg.

**Bwydo**

- Rhaid ychwanegu bwyd yn uniongyrchol i'r tanc neu'r pwll.

## 6.0 Deiet Addas

**Deiet**

- Rhaid bwydo deiet sy'n addas ar gyfer y rhywogaeth benodol ar gyfradd fwydo ac amlder briodol ac er mwyn osgoi cystadlu am y bwyd e.e. bwydo ar draws wyneb cyfan yr acwariwm/pwll, ymestyn amseroedd bwydo.
- Rhaid i ddeiliaid trwydded sy'n gwerthu i'r cyhoedd feddu ar ddealltwriaeth o ofynion maethol y categorïau o bysgod sy'n cael eu gwerthu ganddynt, a rhaid iddynt hysbysu'r perchennog o'r gofynion hyn.

**Bwydo**

- O ystyried nifer y pysgod sy'n bosibl i'w cadw mewn un lleoliad, nid yw'n ymarferol monitro a chofnodi newidiadau yn arferion bwyta pysgod unigol. Rhaid cofnodi ymddygiad bwydo grwpiau o bysgod os bydd ymddygiad o'r fath yn newid yn sylweddol, a cheisio cyngor priodol gan arbenigwr cymwys pan fo'n briodol.

## 7.0 Monitro Ymddygiad a Hyfforddi Anifeiliaid

- Nid yw cyfoethogi'r amgylchedd yn rhywbeth sy'n ofynnol mewn acwaria neu gafnau oherwydd y risgiau lles sy'n cael eu creu wrth drin pysgod mewn amgylchedd masnachol.
- Ni ddylid defnyddio unrhyw eitemau sy'n eich atal rhag dal pysgod yn ddiogel ac yn hawdd, neu rhaid eu tynnu allan o'r tanciau cyn mynd ati i wneud hynny.

## 8.0 Trin Anifeiliaid a Rhyngweithio ag Anifeiliaid

- Rhaid trin y pysgod cyn lleied ag sy'n bosibl bob amser.

## 9.0 Diogelu rhag Poen, Dioddefaint, Anafiadau a Chlefydau

**Safon Uwch**

- Rhaid i'r busnes fod â mesurau rhesymol ar waith i atal mewnforio, achosion a lledaeniad clefydau/pathogenau. Rhaid dangos hyn drwy weithredu cynllun bioddiogelwch.
- Rhaid i staff gymryd rhagofalon i atal croes-halogi rhwng acwaria/cafnau. Fel arfer, rhaid glanhau cyfarpar, er enghraifft rhwydi, rhwng pob defnydd neu eu neilltuo ar gyfer tanc penodol.
- Rhaid gwirio acwaria/cafnau bob dydd a'u glanhau mor aml ag sy'n angenrheidiol (yn unol â'r ansawdd dŵr) er mwyn cynnal safonau hylendid da, sy'n gyson â chyfradd trosiant stoc a dwyseddau stocio dilynol.
- Ar gyfer pysgod, mae triniaeth UV linellol neu ddyfeisiau sterileiddio eraill yn ddull effeithiol o ynysu tanciau unigol mewn systemau tanciau lluosog ac maent yn cynnig dewis amgen addas i gyfleusterau ynysu hunangynhwysol. Rhaid iddynt fod o faint priodol a rhaid eu cynnal yn unol ag argymhellion y gwneuthurwr.
- Rhaid rhoi cyfnod ymgynefino priodol i stociau sydd newydd eu cyflwyno, fel y tybir sydd ei angen, a'u cadw ar wahân i'r stociau presennol cyn belled ag sy'n bosibl. Rhaid monitro stociau newydd yn ofalus a rhaid trin unrhyw broblem clefydau sy'n codi yn brydlon.

- Gall gwastraff pysgod, gan gynnwys celanedd, gael ei losgi neu ei waredu drwy wastraff cyffredinol mewn bagiau plastig dwbl wedi'u selio.
- Gellir cadw pysgod sy'n dangos arwyddion o salwch neu glefyd gydag anifeiliaid eraill ar yr amod bod yr holl bysgod yn yr un tanc (neu mewn systemau cysylltiedig, heb hidlydd sterileiddio) yn derbyn triniaeth briodol. Os oes amheuaeth am driniaethau priodol, rhaid ceisio cyngor arbenigol (e.e. gan filfeddyg, person cymwys, arbenigwr pysgod).
- Rhaid i unrhyw un sy'n gyfrifol am ewthaneiddio pysgod ddilyn arferion a argymhellir a gweithdrefnau ysgrifenedig, a bod wedi ei hyfforddi'n briodol.
- Yn achos pysgod, mae'n ddigonol i wirio'n ddyddiol a chadw cofnodion cyfyngedig i arwyddion o salwch a chlefydau a arsylwyd.
- Lle caiff problemau eu nodi, rhaid cymryd camau adferol.
- Mewn tywydd oer, gall rhew ffurfio mewn arddangosfeydd awyr agored fel pyllau. Mewn achosion o'r fath, mae'n bwysig gwneud twll yn y rhew e.e. drwy arnofio pêl blastig y gellir ei thynnu os yw'r dŵr yn rhewi.

## Canllawiau i Arolygwyr ynglŷn â Busnesau sy'n Cydgrynhoi Mewnforion Pysgod

Mae "cyd-grynhowyr" yn cyfeirio at fusnesau sy'n mewnforio pysgod addurnol byw at y diben o gyflenwi mewnforion yn uniongyrchol i gyfanwerthwyr/manwerthwyr. Mae agor blychau fel mater o drefn yn peryglu lles y pysgod.

Mae Busnesau Cynnyrch Dyframaethu sydd wedi'u hawdurdodi o dan reoliad 5(1) o Reoliadau Iechyd Anifeiliaid Dyfrol (Cymru a Lloegr) 2009, ac sy'n cael eu harolygu gan yr Arolygiaeth Iechyd Pysgod, wedi'u heithrio o'r gofyniad i gael trwydded. Yn achos Busnesau Cynnyrch Dyframaethu, os yw awdurdodau lleol o'r farn bod angen cyngor arbenigol arnynt, gallant ymgynghori â'r Arolygiaeth Iechyd Pysgod, sydd â phrofiad o arolygu'r busnesau hyn.

**Amodau perthnasol i fusnesau sy'n cydgrynhoi mewnforion pysgod**

Mae'r adran hon yn amlinellu'r amodau y gellir eu gwirio wrth arolygu a'r amodau ychwanegol y mae'n rhaid eu cymhwyso i fusnesau o'r fath.

**Amodau cyffredinol:**

- 1.0 (arddangos trwydded)
- 2.1 (math o anifeiliaid i'w bennu)
- 3.3 (polisi hyfforddi ysgrifenedig) – o leiaf un aelod dynodedig o staff i fod ar y safle sydd â dealltwriaeth o'r rheoliadau mewnforio cyfredol, gan gynnwys y Confensiwn ar Fasnach Ryngwladol mewn Rhywogaethau Fflora a Ffawna sydd mewn Perygl (CITES), safonau'r  Gymdeithas Trafnidiaeth Awyr Ryngwladol (IATA) a Rheoliadau Lles Anifeiliaid wrth Gludo (WIT).
- 4.10 (goruchwylio anifeiliaid) – Rhaid trosglwyddo blychau pysgod i ofal person sy'n gymwys i ddarparu'r gofal angenrheidiol o'r pwynt hwnnw. Ni ddylid eu gadael ar safle heb oruchwyliaeth.

**Amodau gwerthu anifeiliaid anwes:**

- 2.1 (Cofrestr o anifeiliaid) – cadw cofnodion prynu (gweler y manwerthwr).
- 2.5 (Hysbysebion) – fel manwerthwr.

Rhaid cludo pysgod yn unol â rheoliadau IATA a WIT. Rhaid i ddeiliad y drwydded allu dangos ei fod wedi ymgymryd â diwydrwydd dyladwy priodol yn hyn o beth. Yn benodol:

- Bydd pysgod yn cael eu pacio a'u cludo yn unol â safonau IATA.
- Bydd dosbarthwyr yn bodloni rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y rheoliadau cyfredol ar les anifeiliaid wrth iddynt gael eu cludo.
- Mae'r awdurdodiad priodol i gludo anifeiliaid (Math 1 neu 2) gan unrhyw un sy'n cludo pysgod.
- Maent yn cadw cofnodion o'r holl bysgod sy'n cael eu mewnforio/eu cludo er mwyn galluogi olrhain i'r ffynhonnell. Gellir bodloni'r amod hwn drwy gadw anfonebau a derbynebau. Nid oes angen cadw cofnodion ychwanegol.
- Maent yn caniatáu i'r awdurdod perthnasol weld y cofnodion hyn.
- Bod â chynllun wrth gefn ar waith sydd ar gael i awdurdodau arolygu, sy'n cynnwys:
    - Darpariaeth ar gyfer gofalu am bysgod os bydd damwain.
    - Darpariaeth ar gyfer gofalu am bysgod os bydd methiant i gyflenwi, e.e. oedi wrth gyflenwi.
    - Rhifau ffôn cyswllt mewn argyfwng.

**Safon Uwch**

- Rhaid i fusnesau fod â gweithdrefnau wedi'u cofnodi sy'n cadw trefn ac yn rheoli prynu a gwerthu pysgod, rheolaethau mewnol ar waith i ganfod trafodion afreolaidd a system gyfrifyddu gadarn gyda llwybr archwilio llawn.

# Safonau Uwch

Ar gyfer pob gweithgaredd, cytunwyd ar nifer o safonau uwch. Mae bodloni'r safonau uwch yn ddewisol ond dyma'r unig ffordd o ennill gradd seren uwch. Mae'r safonau uwch yn cael eu dosbarthu'n ddau fath: gofynnol a dewisol, ac fe'u hamlinellir yn y dogfennau canllaw perthnasol ar gyfer y gweithgaredd dan sylw. Er mwyn gwahaniaethu rhwng y safonau gofynnol a rhai dewisol, maent wedi cael lliw penodol sy'n cael ei ddefnyddio ym mhob dogfen ganllaw. Mae safonau uwch sy'n ymddangos mewn testun glas yn **ofynnol,** tra bo'r safonau sy'n ymddangos mewn testun coch yn **ddewisol**. Er mwyn cymhwyso fel busnes sy'n bodloni'r safonau uwch, mae angen i'r busnes gyflawni'r holl safonau uwch gofynnol yn ogystal ag isafswm o 50% o'r safonau uwch dewisol. Yn ystod arolygiad, dylai'r arolygydd asesu a yw'r busnes yn bodloni'r nifer ofynnol o safonau uwch ai peidio.

## Cyffredinol

### Gofynnol

- Rhaid i fusnesau sy'n gwerthu anifeiliaid i fusnesau eraill yn unig fodloni'r meintiau cawell a'r dwyseddau stocio sy'n cael eu nodi yn y safonau gofynnol penodol i rywogaethau.
- Dylid cwblhau rhestr wirio iechyd reolaidd a chadw cofnod ohoni yn ddyddiol, ac mae'n rhaid iddi gwmpasu materion corfforol, seicolegol ac ymddygiadol ac unrhyw annormaledd a gofnodir.

### Dewisol

- Rhaid cael aelod o staff parhaol, llawn amser sydd â chymhwyster Lefel 3 a reoleiddir gan OFQUAL sy'n briodol i'r rhywogaeth a gedwir.

## Cŵn

### Gofynnol

- Rhaid cael digon o staff i gynnal gwiriadau mwy rheolaidd/amlach nag sydd eu hangen o dan y safon ofynnol.
- Rhaid i arwynebedd y llawr fod o leiaf 1.5 gwaith yn fwy na'r isafswm gofynnol.
- Rhaid darparu dyluniad a chynllun i gŵn sy'n rhoi dewis iddynt. Dylid darparu ardaloedd ar wahân ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys llwyfannau ar lefelau gwahanol, er enghraifft.
- Rhaid cael cynllun teithio sy'n nodi sut y caiff anifeiliaid eu rheoli ar gyfer teithiau hir dros 4 awr.
- Rhaid i gŵn llawndwf gael cynllun bwydo sy'n nodi trefn bwydo ddwywaith y dydd.
- Rhaid i bob ci gael rhywfaint o'i fwyd drwy fecanwaith bwyd wedi'i gyfoethogi e.e. gwasgaru bwyd, yn ôl dewis y ci. Os na wneir hyn, rhaid cofnodi'r rheswm e.e. oherwydd cyngor milfeddygol.
- Rhaid i bob ci llawndwf gael trefn ymarfer corff ddyddiol wedi'i chofnodi, gan gynnwys ymarfer corff ar dennyn a rhedeg yn rhydd.

- Rhaid cynnal y sesiwn ryngweithio ddiwethaf o fewn 1 awr cyn diwedd y diwrnod gwaith.

## Dewisol

- Rhaid i'r awyru fod yn system aer reoledig, sefydlog neu gludadwy i sicrhau bod tymheredd priodol yn cael ei gynnal ym mhob tywydd. Gall hyn fod yn uned aerdymheru neu'n ddefnydd o wyntyllau symudol.
- Rhaid cael ymweliad misol gan filfeddyg fel mater o drefn, i wirio iechyd a lles, a dylid cadw gafael ar y cofnod milfeddygol.
- Rhaid i berson sy'n gymwys i ofalu am les yr anifeiliaid fod ar y fangre bob amser.
- Rhaid i ddeiliad y drwydded sicrhau bod y gronfa ddata microsglodynnu yn cael ei diwygio gyda manylion prynwr y ci bach.
- Rhaid cynnwys cyflenwad wythnos o leiaf o ddeiet presennol y cŵn bach pan fyddant yn mynd i'w cartref newydd.

# Cathod

## Gofynnol

- Rhaid cael digon o staff i gynnal gwiriadau amlach nag sydd eu hangen o dan y safon ofynnol.
- Rhaid i arwynebedd y llawr fod o leiaf 1.5 gwaith yn fwy na'r isafswm gofynnol.
- Rhaid darparu dyluniad a chynllun i gathod sy'n rhoi dewis iddynt. Dylid darparu ardaloedd ar wahân ar gyfer gwahanol weithgareddau. Gellir cyflawni hyn drwy gynnwys dewis o lwyfannau ar lefelau gwahanol, neu leoedd cuddio, er enghraifft.
- Ar gyfer cathod, rhaid darparu ardal breifat lle nad ydynt yn weladwy i bobl neu gathod mewn llociau cyfagos ar gyfer mynd i'r toiled.
- Rhaid i gathod gael cynllun bwydo sy'n rhannu prydau bwyd yn gyfrannau bach drwy gydol y dydd.
- Os bydd y gath unigol yn cael budd, rhaid rhoi rhywfaint o fwyd iddi bob dydd drwy wasgaru bwyd neu drwy ddyfais fwydo briodol arall. Rhaid i gathod ddal i gael y rhan fwyaf o'u lwfans bwyd dyddiol mewn dysgl fwydo. Os na wneir hyn, rhaid cofnodi'r rheswm e.e. oherwydd cyngor milfeddygol.
- Rhaid i raglen ysgrifenedig fod ar gael sy'n nodi amrywiaeth o gyfoethogi y tu mewn a'r tu allan, gan gynnwys hyfforddiant, ymdwtio, cymdeithasu a chwarae.
- Rhaid cynnal y sesiwn ryngweithio ddiwethaf o fewn 1.5 awr i ddiwedd y diwrnod gwaith.

## Dewisol

- Rhaid i'r awyru fod yn system aer reoledig, sefydlog neu gludadwy i sicrhau bod tymheredd priodol yn cael ei gynnal ym mhob tywydd. Gall hyn fod yn uned aerdymheru neu'n ddefnydd o wyntyllau symudol.

- Rhaid i gynllun rheoli sŵn fod ar waith e.e. rhwystrau ffisegol, dyluniad uned cathod, lleoliad offer cynhyrchu sŵn, gydag arddangosiad o’i effeithiolrwydd.
- Rhaid cael ymweliad misol gan filfeddyg fel mater o drefn, i wirio iechyd a lles, a dylid cadw gafael ar y cofnod milfeddygol.

# Cwningod

## Gofynnol

- Pan fo cwningod yn cael eu cadw mewn cytiau, dylent gael mynediad parhaol i loc diogel ynghlwm wrth y cytiau.
- Rhaid cadw at faint lloc fel y disgrifir yn nhabl E-02.
- Rhaid darparu blychau ysgarthu sy’n anhydraidd, yn hawdd eu glanhau a’u diheintio neu sy’n dafladwy. Lle maent mewn defnydd, rhaid glanhau blychau ysgarthu yn drylwyr o leiaf unwaith yr wythnos.
- Rhaid i gynwysyddion agor o’r top er mwyn hwyluso symud yr anifail. Rhaid leinio cynwysyddion gyda phapur newydd neu sarn i amsugno wrin.
- Rhaid darparu gwair mewn cynhwysydd gwair neu ymborthwr ar uchder priodol, sy’n ei gadw oddi ar y llawr ac yn lleihau’r risg o halogi’r gwair.
- Rhaid cynnig porfwyd (sy’n tarddu o ardaloedd heb eu halogi ac wedi’i adnabod yn gywir) i’r cwningod. Yn ogystal, gellir defnyddio porfwyd sych sy’n cynnwys helyg sydd ar gael yn fasnachol i ategu’r deiet a darparu dewis amgen risg isel i borfwyd.
- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro’r cwningod i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.

## Dewisol

- Ar gyfer cewyll top agored, rhaid rhoi mynediad i blatfform neu lwyfannau lluosog i gwningod sy’n meddu ar y gallu corfforol i ddefnyddio llwyfannau. Ar gyfer cewyll top caeedig, rhaid i gwningod allu cyrraedd y rhain yn hawdd a gallu eistedd arnynt yn llawn heb gyffwrdd â tho’r cawell.
- Rhaid cynnig mynediad i laswellt sy’n tyfu i’r cwningod bori arno, a gall hynny fod yn laswellt wedi’i blannu ar fyrddau pwrpasol. Fel arall, gellir darparu dau fath gwahanol o wair i gwningod.
- Rhaid darparu dŵr ar gyfer cwningod mewn poteli neu bowlenni lluosog. Yn ystod tywydd poeth, rhaid darparu potel a bowlen (oni bai bod cwningod bach yn bresennol, ac os felly, dim ond poteli sy’n addas).

# Moch cwta

## Gofynnol

- Pan fo moch cwta yn cael eu cadw mewn cytiau, dylent gael mynediad parhaol i loc diogel ynghlwm wrth y cytiau.
- Rhaid cadw at isafswm maint lloc fel y disgrifir yn nhabl F-02.
- Rhaid i gludwyr agor o’r top er mwyn hwyluso symud yr anifail. Rhaid leinio cludwyr gyda phapur newydd neu sarn i amsugno wrin.

- Rhaid cynnig porfwyd (sy'n tarddu o ardaloedd heb eu halogi ac wedi'i adnabod yn gywir) i'r moch cwta. Yn ogystal, gellir defnyddio porfwyd sych sy'n cynnwys helyg sydd ar gael yn fasnachol i ategu'r deiet a darparu dewis amgen risg isel i borfwyd.
- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro'r moch cwta i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.
- Lle mae'n rhaid lletya moch cwta yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer moch cwta sy'n cael eu lletya'n unigol.

## Dewisol

- Rhaid cynnig mynediad i laswellt sy'n tyfu i'r moch cwta bori arno. Gellir cyflawni hyn drwy osod glaswellt wedi'i blannu ar fyrddau pwrpasol yn eu hardaloedd ymarfer corff. Rhaid bod digon o laswellt i bob mochyn cwta sy'n cael ei gadw allu pori ar yr un pryd. Fel arall, gellir darparu llysiau ffres sy'n llawn fitamin C i'r moch cwta yn ddyddiol.

# Ffuredau

## Gofynnol

- Rhaid i gludwyr agor o'r top er mwyn hwyluso symud yr anifail; ni chynghorir defnyddio cludwyr cardbord gan eu bod yn hawdd eu cnoi a gallant fynd yn llaith/anniogel. Gellir leinio cludwyr â phapur newydd a rhywfaint o ddeunydd sarn, e.e. gellir darparu gwair di-lwch o ansawdd da a/neu bapur wedi'i rwygo er cysur.
- Rhaid defnyddio cyfoethogi deietegol. Er enghraifft, gellir gwasgaru cnapiau o amgylch y lloc, eu bwydo o ymborthwyr pos neu eu cuddio mewn bagiau papur/tiwbiau cardbord. Pan ddefnyddir ymborthwyr/dosbarthwyr pos, rhaid monitro'r ffuredau i sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y bwyd.
- Lle mae'n rhaid lletya ffuredau yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer ffuredau sy'n cael eu lletya'n unigol.

# Cnofilod bach domestig

## Gofynnol

- Rhaid cadw at faint lloc fel y disgrifir yn nhabl H-02.
- Rhaid darparu llochesi sy'n lleihau goleuni ar gyfer llygod mawr, llygod a bochdewion (megis bocs neu acrylig gwawr goch, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny'n unig). Fodd bynnag, rhaid monitro'r rhain bob dydd am arwyddion o gnoi a'u gwaredu/newid yn ôl yr angen.
- Rhaid rhoi dewis o wahanol ddeunyddiau nythu i gnofilod bach.
- Ar ôl glanhau, rhaid trosglwyddo peth sarn sydd heb ei halogi a deunydd nythu yn ôl i helpu i gadw arogleuon cyfarwydd ar eu cyfer.
- Lle mae'n rhaid lletya cnofilod bach o rywogaethau cymdeithasol yn unigol, rhaid rhoi ffynonellau cyfoethogi ychwanegol iddynt. Rhaid cael cynllun ar waith ar gyfer

cnofilod bach sy’n cael eu lletya’n unigol (dim ond y rhai hynny o rywogaethau cymdeithasol).

## Dewisol

- Rhaid darparu mynediad i lwyfan (lletya unigol) neu lwyfannau lluosog i gnofilod bach sy’n meddu ar y gallu corfforol i ddefnyddio llwyfannau. Rhaid i anifeiliaid allu cyrchu’r rhain yn hawdd a gallu eistedd (a sefyll yn ddelfrydol) yn dalsyth arnynt heb gyffwrdd â tho’r cawell.
- Pan fydd gwaith yn digwydd gerllaw, neu pan fydd anifeiliaid nosol yn cael eu harchwilio yn ystod y nos, rhaid defnyddio golau coch gwan neu olau gwyn gwan i leihau ar unrhyw darfu. Rhaid i lefel y golau fod yn ddigonol ar gyfer arsylwi/ymgymryd â thasgau gofynnol.

# Rhywogaethau Annomestig Eraill (Mamaliaid)

## Dewisol

- Rhaid i raglen ysgrifenedig fod ar gael sy’n nodi amrywiaeth y ddarpariaeth gyfoethogi briodol.

# Adar

## Gofynnol

- Rhaid i feintiau cewyll/adardai fodloni, neu ragori ar, y gofynion uwch a nodir yn Atodlen E Adran 4.2 isod. Rhaid i faint y lloc ganiatáu i’r aderyn gael amrywiaeth a dewis yn ei amgylchedd.
- Rhaid arddangos adar i’w gwerthu mewn adardai sydd 4 gwaith, neu fwy, lled adenydd yr aderyn wrth hedfan, o ran hyd, dyfnder ac uchder ar gyfer aderyn unigol, gyda chynnydd o 20% ar gyfer pob aderyn dilynol ar gyfer amlfeddiannaeth.
- Rhaid darparu amrywiaeth o is-haenau, gan gynnwys amrywiaeth o glwydi ar gyfer adar coedol. Rhaid darparu clwydi o drwch a deunyddiau amrywiol.
- Rhaid monitro allbwn bylbiau UVB gyda mesurydd UV a’i gofnodi. Rhaid cofnodi gofynion sy’n benodol i rywogaethau, a rhaid iddynt fod ar gael i’w harchwilio.
- Rhaid ceisio cyngor maethol arbenigol lle y bo’n briodol.
- Ni ddylid lletya na gwerthu adar gyda’u hadenydd wedi’u clipio. Dylid cadw adenydd yn gyfan, a mynd ati’n fwriadol i annog hedfan.
- Rhaid i bob aderyn ysglyfaethus, neu adar hyfforddedig eraill lle y bo’n briodol, gael cyfnodau hedfan dyddiol; naill ai mewn adardai neu hedfan y tu allan dan ofal person cymwys.
- Ni ddylid tynnu adar oddi wrth eu rhieni (ar gyfer ‘magu â llaw’) nes bod eu llygaid wedi bod ar agor am fwy nag wythnos, er mwyn osgoi’r risg o gamimprintio ar bobl fel adar llawndwf.
- Rhaid rheoli adar llawndwf nad ydynt yn gytrefol mewn grwpiau mawr, er mwyn caniatáu lle i adar ddianc rhag ei gilydd os oes angen hynny er mwyn atal problemau ymddygiad. Rhaid darparu digon o staff i reoli’r boblogaeth yn ôl yr angen.

## Dewisol

- Rhaid i bob cawell gael mynediad uniongyrchol i adardy hedfan.
- Rhaid newid dodrefn yn rheolaidd er mwyn darparu newydd-deb, a chynllunio llociau i roi dewis i'r anifeiliaid oddi mewn iddynt.
- Rhaid i ddeiliad y drwydded fod ag arwyddion sy'n nodi adar a allai fod yn ymosodol, gan gynnwys adardai/cewyll wedi'u labelu'n glir.

# Ymlusgiaid ac amffibiaid

## Gofynnol

- Ar gyfer fifaria sefydlog yn thermostatig, rhaid cynyddu asesiadau i 3 gwaith yr wythnos i gofnodi uchafswm ac isafswm tymheredd.
- Lle y bo'n berthnasol, rhaid darparu o leiaf ddwy guddfan neu ardal gysgodol, wedi'u lleoli ar wahanol bwyntiau o'r graddiant thermol.
- Rhaid monitro allbwn lampau UVB gyda mesurydd UV a'u cofnodi'n wythnosol. Rhaid cofnodi gofynion sy'n benodol i rywogaethau, a rhaid iddynt fod ar gael i'w harchwilio.
- Rhaid i brotocolau ysgrifenedig penodol ar gyfer cwarantin a/neu atal rhyddhau chytridiomycosis a chyfryngau biolegol posibl eraill fod ar gael i'w harchwilio lle mae amffibiaid yn cael eu cadw.
- Rhaid i ardal ynysu neu gwarantîn pwrpasol fod ar gael, gyda phrotocolau a pholisïau cysylltiedig ar waith i sicrhau bioddiogelwch y fangre.

## Dewisol

- Rhaid i feintiau fifaria a pharamedrau amgylcheddol cysylltiedig fodloni neu ragori ar y rhai a amlinellir yn y safonau uwch (tabl K-02).
- Ar gyfer rhywogaethau sy'n profi syrthni dros gyfnodau oer, rhaid i gyfleusterau dynodedig fod ar gael a pholisi cysylltiedig ynghylch tymheredd a gofynion hwsmonaeth eraill fod ar gael i'w harchwilio.
- Rhaid arddangos mynegai graddiant thermol, lleithder ac UVB addas, lle bo hynny'n berthnasol, ar gyfer y rhywogaeth ar bob fifariwm.
- Rhaid i fifaria ymlusgiaid mawr sefydledig neu barhaol gyda nodweddion dŵr fod â systemau hidlo dŵr ar waith i sicrhau bod hylendid yn cael ei gynnal.
- Rhaid defnyddio menig nitril llaith di-bowdr, neu debyg, i drin amffibiaid.

# Pysgod

## Gofynnol

- Rhaid asesu ansawdd dŵr 3 gwaith yr wythnos a'i gofnodi.
- Rhaid cael tystiolaeth bod systemau UV yn cael eu cynnal yn rheolaidd.
- Rhaid i'r busnes fod â mesurau rhesymol ar waith i atal mewnforio, achosion a lledaeniad clefydau/pathogenau. Rhaid dangos hyn drwy weithredu cynllun bioddiogelwch.

### Dewisol

- Rhaid arddangos ystod addas o dymheredd ar gyfer y pysgod ar bob tanc
- Ar gyfer mangreoedd heb olau naturiol, rhaid cael systemau a/neu weithdrefnau awtomataidd ar waith i sicrhau newid graddol mewn lefelau goleuni.

## Busnesau sy’n cydgrynhoi mewnforion pysgod

### Gofynnol

- Rhaid i fusnesau fod â gweithdrefnau wedi’u cofnodi sy’n cadw trefn ac yn rheoli prynu a gwerthu pysgod, rheolaethau mewnol ar waith i ganfod trafodion afreolaidd a system gyfrifyddu gadarn gyda llwybr archwilio llawn.